# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cygnor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** | **AUDIT AND GOVERNANCE COMMITTEE** |
| **DYDD LLUN, 25 GORFFENNAF 2016 am 2 y.p.** | **MONDAY, 25 JULY, 2016 at 2:00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor** — **Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

Jim Evans, Dafydd Rhys Thomas a Richard Owain Jones

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Alun W Mummery a Nicola Roberts

**Grwp Chwyldroad/Revolutionist Group**

Peter Rogers

**Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

R Ll Jones (Cadeirydd/Chair)

**ALEODAU LLEYG / LAY MEMBERS**

Mrs Sharon Warnes a Mr Richard Barker

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION CYFARFOD 27 MEHEFIN, 2016** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2016.

3 **DIWEDDARIAD ADFER TRYCHINEB TGCH**

Adolygu'r cynnydd ynglyn â gweithredu ar unrhyw faterion sy'n weddill mewn perthynas ag Adfer Trychineb TGCh *(Rheolwr Gwasanaeth TGCh a Rheoli Perfformiad i adrodd)*

4 **ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL CHWARTER 1 2016/17** (Tudalennau 5 - 46)

Cyflwyno adroddiad cynnydd Archwilio Mewnol am Chwarter 1 2016/17.

5 **PRYDERON, CWYNION A CHWYTHU CHWIBAN 2015/16** (Tudalennau 47 - 52)

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

6 **ADOLYGIAD BYNYDDOL AR REOLI'R TRYSORLYS 2015/16** (Tudalennau 53 - 70)

Cyflwyno Adolygiad Blynyddol ar Reoli'r Trysorlys am 2015/16.

7 **ARCHWILIO ALLANOL - ADRODDIAD GWELLA BLYNYDDOL YNYS MÔN 2015/16** (Tudalennau 71 - 108)

- Cyflwyno Adroddiad Gwella Blynyddol Ynys Môn 2015/16 gan Archwilio Allanol

- Cyflwyno Tystysgrif Cydymffurfio mewn perthynas â Chynllun Gwella 2016/17 Cyngor Sir Ynys Môn.

8 **ARCHWILIO ALLANOL - DIWEDDARIAD RHAGLEN WAITH PERFFORMIAD**

Diweddariad ar lafar gan Swyddfa Archwilio Cymru ynglyn â'r Rhaglen Waith Perfformiad.

# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd John Griffith (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Jim Evans, Alun Mummery, Peter Rogers, Dafydd Rhys Thomas<br><br>Aelodau Lleyg: Mr Richard Barker a Mrs Sharon Warnes |
| **YN BRESENNOL:** | Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Rheolwr Archwilio Mewnol (SP)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Richard Owain Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio Cyllid), Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Aelod Portffolio Cysgodol - Cyllid), Prif Weithredwr, Rheolwr Cyllid (CK), Ms Clare Edge (Deloitte), Mr Gwilym Bury (Swyddfa Archwilio Cymru) |

DRAFT

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

### 2. COFNODION CYFARFOD 26 MAI, 2016

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir - gofnodion y cyfarfod diwethaf o’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 26 Mai, 2016.

### 3. DATGANIAD CYFRIFON 2015/16 A’R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2015/16

Cyflwynwyd er ystyriaeth y Pwyllgor - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn cynnwys y Datganiad Cyfrifon drafft cyn eu harchwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015/16 ynghyd â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft am 2015/16.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gymeradwyo a chyhoeddi Datganiad Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Cyn y gall Archwiliad Allanol gychwyn, rhaid i'r Swyddog Adran 151 arwyddo'r Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon cyn y dyddiad cau statudol, sef 30 Mehefin bob blwyddyn. Dan Gyfansoddiad y Cyngor, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant sy’n gyfrifol am adolygu a sgriwtineiddio’r datganiad cyfrifon cyn i’r Cyngor ei fabwysiadu. Mae'r Datganiad yn ddogfen dechnegol sy'n cael ei chynhyrchu’n unol â rheoliadau cyfrifyddu ac arferion priodol mewn fformat rhagnodedig ac mae'n cynnwys y datganiadau ariannol a'r datgeliadau y mae’n rhaid i'r Cyngor eu cyhoeddi.

Cyfeiriodd y Swyddog at y datganiadau allweddol yn y ddogfen fel a ganlyn:

- Mae'r adroddiad naratif sy'n nodi cyd-destun y datganiadau ariannol, yn darparu canllaw i'r materion mwyaf arwyddocaol yr adroddir arnynt yn y cyfrifon, gan gynnwys sefyllfa ariannol y Cyngor a'i berfformiad yn ystod y flwyddyn ynghyd â'r materion a'r risgiau sy'n effeithio ar y Cyngor.
- Mae'r Datganiad o Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn (MIRS) yn dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yng nghronfeydd wrth gefn y Cyngor wedi eu dadansoddi yn ôl y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a'r rhai na fedrir eu defnyddio. Mae'r datganiad yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod a sut y mae'r costau hynny'n cael eu hariannu gan y gwahanol gronfeydd wrth gefn.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES) yn dangos y gost o ddarparu gwasanaethau yn y flwyddyn o safbwynt cyfrifyddu a hynny'n unol â'r arferion cyfrifyddu a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm sydd i'w gyllido o'r trethi.
- Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r rhwymedigaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Mae'r asedau net yn cael eu cyfatebu gan gronfeydd wrth gefn a ddelir gan yr Awdurdod.
- Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newidiadau o ran arian parod y Cyngor a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y cyfnod yr adroddir arno.
- Mae'r Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol craidd yn darparu mwy o fanylion am bolisïau ac eitemau cyfrifyddu'r Cyngor a gynhwysir yn y datganiadau. Cadarnhaodd y Swyddog nad oedd angen gwneud unrhyw newidiadau o bwys i'r dulliau cyfrifyddu ar gyfer 2015/16.
- Caiff y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2015/16 ei gynnwys gyda'r Datganiad Cyfrifon ac ynddo, nodir y trefniadau llywodraethiant a oedd ar waith yn y flwyddyn rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016 ac mae'n nodi pa mor effeithiol y mae'r Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau yn unol â'i weledigaeth.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid ei fod yn fodlon gyda'r modd y cyflwynwyd y cyfrifon a chyda'r ffordd broffesiynol y cawsant eu cau'n unol â'r amserlen statudol.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a'r Datganiadau Ariannol a nodwyd y canlynol:

- Nododd y Pwyllgor y Datganiad Cyfrifon gan ddweud ei fod yn fodlon fod y Datganiad Cyfrifon wedi cael ei gynhyrchu yn unol â safonau, arferion a rheoliadau adrodd ariannol ac erbyn y dyddiad cau statudol sef 30 Mehefin.
- Nododd y Pwyllgor yr adroddiad naratif gan ddweud ei fod yn fodlon ei fod yn rhoi crynodeb teg a chytbwys o sefyllfa ariannol y Cyngor ar gyfer 2015/16, gan gynnwys y prif ddylanwadau ar y datganiadau ariannol. Canmolodd y Pwyllgor y crynodeb naratif fel un a oedd yn darparu trosolwg clir a hawdd i'w deall o'r cyd-destun i'r datganiadau ariannol.
- Nododd y Pwyllgor y bydd y datganiadau ariannol yn awr cael eu harchwilio'n allanol ac y bydd hawl gan y cyhoedd, am gyfnod penodol yn ystod y broses archwilio, i edrych ar y cyfrifon a chodi unrhyw wrthwynebiad yn eu cylch gyda'r archwiliwr allanol.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y rhagolygon ariannol yn sgil y penderfyniad a wnaed yn y refferendwm i dynnu allan o'r UE, yn enwedig o ran y cyllid cyfalaf a geir drwy grantiau a gofynnodd a ddylid ystyried benthyca mwy. Hysbyswyd y Pwyllgor bod parhau i ddarparu cyllid i'r ardaloedd hynny a oedd yn derbyn grantiau'r UE yn fater i lywodraeth y DU yn y lle cyntaf; mae cwestiwn wedyn ynghylch sut y bydd yr arian hwnnw wedyn efallai'n cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru ac oddi yno i lywodraeth leol. Er y bydd penderfyniad y refferendwm yn ôl pob tebyg yn effeithio ar yr economi genedlaethol, mae'n rhy gynnar i geisio asesu maint yr effaith ar y cyllid sydd ar gael drwy Lywodraeth Cymru ar gyfer y setliad i lywodraeth leol. O ran benthyca, gofynnwyd i Ymgynghorwyr Trysorlys y Cyngor wneud darn o waith i adolygu sut y mae benthyca'n cael ei amseru yn enwedig mewn perthynas â phrosiect ysgolion yr unfed ganrif ar hugain fel prosiect mwyaf yr Awdurdod o ran benthyca a bydd y mater yn cael ei drafod pan fydd y gwaith wedi cael ei gwblhau. Cadarnhaodd yr Archwiliwr Allanol y bydd adroddiad yr archwilwyr allanol ar y cyfrifon yn cyfeirio at ganlyniad refferendwm yr UE fel rhywbeth a ddigwyddodd ar ôl

DRAFT

cyhoeddi'r fantolen. Yn ôl pob tebyg, bydd raid i'r Awdurdod adolygu ei risgiau corfforaethol yn dilyn pleidlais y Refferendwm a'r ansicrwydd y mae wedi ei achosi.

- O safbwynt risg, nododd y Pwyllgor bod angen i'r Cyngor fabwysiadu dull craffach a hwylusach o nodi a chael gwared ar asedau ac y dylai geisio adnabod asedau ar gyfer eu gwaredu'n gyflymach gan sicrhau wedi hynny y ceir yr enillion mwyaf posibl o'u gwerthu. Dywedwyd wrth y Pwyllgor, er nad yw derbyniadau cyfalaf yn allweddol i'r Datganiad Cyfrifon, mae'r defnydd o asedau'r Cyngor yn bwysig oherwydd gellir creu derbyniadau cyfalaf sy'n ffurfio rhan o'r rhaglen gyfalaf ar gyfer y dyfodol. Cydnabyddir bod angen gwneud y defnydd gorau o asedau'r Cyngor gan gynnwys gwireddu gwerth ariannol asedau nad oes mwyach eu hangen er mwyn cyllido'r rhaglen gyfalaf. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i beidio â gwerthu asedau heb gael y pris marchnad priodol amdanynt. Mae materion amseru'n gysylltiedig ag asedau'r Cyngor. Hysbyswyd y Pwyllgor hefyd fod Polisi Rheoli Asedau'r Awdurdod wedi cael ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ac wedi cael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor.
- Nododd y Pwyllgor fod y Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth Gaffael a thrwy hynny wedi sicrhau oddeutu £ 500k o arbedion refeniw. Yng ngoleuni'r gwiriad ffitrwydd caffael a gynhaliwyd gan KPMG yn 2014 a'r cyflwyniadau a wnaethpwyd ynghylch hynny, gofynnodd y Pwyllgor ai man cychwyn yw'r ffigwr o 500k ynteu a yw'r trothwy arbedion wedi ei gyrraedd. Hysbyswyd y Pwyllgor fod yna le i wneud arbedion pellach a bod llawer o'r £500k o arbedion a sicrhawyd eisoes wedi eu cyflawni mewn cyfnod byr drwy ail-dendro contractau'r Cyngor neu drwy gyfuno contractau i mewn i un contract. Mae'n rhesymol disgwyl y gellir gwneud mwy o arbedion trwy reoli'n well contractau a thrwy sicrhau bod contractau yn cael eu darparu'n unol â'r manylebau. Mae rhaglen hyfforddiant ar reoli contractau'n cael ei chyflwyno fel bod y gofynion hyn yn rhan annatod o brosesau tendro ar gyfer contractau yn y dyfodol. Yn ystod y misoedd nesaf, bydd Gwerth Cymru yn cynnal gwiriad iechyd dilyn-i-fyny mewn perthynas â chaffael.
- Nododd y Pwyllgor y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar gyfer 2015/16 ac roedd yn fodlon ei fod yn cwrdd â gofynion Rheoliad 4 o Reoliadau Archwilio (Cymru) ar gyfer adolygu ac adrodd ar reolaeth fewnol. Ymhellach, roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol yn rhoi asesiad teg o drefniadau llywodraethiant y Cyngor yn 2015/16, gan gynnwys effeithiolrwydd ei drefniadau ar gyfer cyflawni ei amcanion a rheoli risgiau a'i fod yn adlewyrchu sylwedd yr hyn a adroddwyd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn ystod 2015/16.

**Penderfynwyd nodi'r Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2015/6 cyn iddo gael ei adolygu gan yr Archwilwyr Allanol gan gynnwys y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol drafft ar gyfer 2015/16.**

**DIM CAMAU GWEITHREDU PELLACH**

**Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones**
**Cadeirydd**

DRAFFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT** |
| **DYDDIAD:** | **27 GORFFENNAF 2016** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD CYNNYDD AR ARCHWILIO MEWNOL 1 EBRILL 2016 TO 30 MEHEFIN 2016** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL – MIKE HALSTEAD** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **RHEOLWR ARCHWILIO - SIONED PARRY** |
| **Natur a rheswm am adrodd –** i gydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU a Safonau DU CIPFA a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013, lle mae gofyn i'r Pennaeth Archwilio adrodd yn gyfnodol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn perthynas â Chynllun Archwilio 2016/17 ac ystyried mesurau perfformiad Archwilio Mewnol yn chwarterol. | |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cynhyrchir yr adroddiad hwn i gydymffurfio â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant, sy'n gofyn i'r Pwyllgor adolygu cynnydd wrth gyflawni'r Cynllun Archwilio Mewnol a'r Strategaeth Archwilio Mewnol trwy dderbyn ac ystyried adroddiadau cynnydd chwarterol.

1.2 Mae'r adroddiad yn dadansoddi perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd at 30 Mehefin 2016 a chaiff ei gefnogi gan **Atodiadau A i F** sy'n rhoi manylion am y cynnydd yn erbyn targedau perfformiad ar gyfer 2016/17 a'r gwaith a wnaed gan y Gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwn.

1.3 Cyflwynwyd Cynllun Strategol diwygiedig am y cyfnod 3 blynedd 2016/17 hyd at 2018/19 i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 15 Mawrth 2016 ac fe'i cymeradwywyd ganddo. Mae Cynllun Gweithredol 2016/17 sy'n deillio o hynny yn darparu cynllun mwy cytbwys; sy'n galluogi medru archwilio'n ehangach ac archwilio nifer o feysydd nad ydynt wedi bod yn destun adolygiad archwilio yn y blynyddoedd diweddar.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Gofynnir i'r Aelodau ystyried a darparu sylwadau ar y sicrwydd a ddarperir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn yr adroddiad hwn yng nghyswllt y prosesau rheolaethau mewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol sydd ar waith i gyflawni amcanion yr Awdurdod.

## 3. GWYBODAETH GEFNDIROL

### 3.1 Perfformiad Archwilio Mewnol 1/4/16 hyd at 30/6/16

3.1.1 Cwblhawyd dadansoddiad o waith a pherfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol am y cyfnod 1/4/16 hyd at 30/6/15. Roedd 6 o brosiectau archwilio ar gyfer 2015/16 oedd yn amrywio o ran cymhlethdod nad oedd wedi'u cyflawni na'u cyflwyno erbyn 31/03/16, sy'n golygu bod gwaith yn mynd rhagddo arnynt fel a ganlyn:

- Gwiriad Stoc DLO

- Diogelu
- Gorchmynion Llys Plant
- Dilyniant: Argymhellion Archwiliad Mewnol Ysgolion
- Rheolaethau Allweddol Budd Daliadau Tai
- Mân-ddyledwyr

3.1.2 Treuliwyd **62.44 diwrnod** ar waith oedd yn mynd rhagddo yn ystod 2016/17 hyd at ddiwedd mis Mehefin, ac fe ddaw'r dyddiau hyn o'r ddarpariaeth oedd yn weddill ar gyfer gwaith o'r fath yn y flwyddyn flaenorol.

3.1.3 Mae atodlen o dargedau perfformiad am y cyfnod a ddaeth i ben ar 30/6/16 ynghlwm yn **Atodiad A.** Dylid nodi nad yw'r rheidrwydd ar y Gwasanaeth i gwblhau'r holl waith a oedd yn mynd rhagddo yn 2015/16 wedi cael llawer o effaith ar nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn.

**3.2 Gwaith Ychwanegol heb ei Gynllunio**

3.2.1 Ni chynhaliwyd unrhyw archwiliad ychwanegol oedd heb ei gynllunio yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd at 30 Mehefin 2016.

3.3 **Datganiad o Sicrwydd**

3.3.1 Mae gofyn i'r Pennaeth Archwilio ddarparu barn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw systemau llywodraethiant a rheoli risg yr Awdurdod ar y cyfan ynghyd â'i amgylchedd rheolaethau mewnol. Mae hyn yn cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus a Nodyn Cymhwyso Llywodraeth Leol CIPFA. Y farn gyffredinol yw un o'r mesurau sicrwydd a ddefnyddir gan yr Awdurdod wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol sy'n ofynnol dan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.

3.3.2 Mae'r barnau archwilio ar bob un o'r aseiniadau a wnaed yn ystod y flwyddyn hyd yma wedi cael eu categoreiddio fel a ganlyn:

- Sicrwydd Sylweddol
- Sicrwydd Rhesymol
- Sicrwydd Cyfyngedig
- Sicrwydd Isel Iawn

3.3.3. I gefnogi'r farn archwilio, mae'r argymhellion a wnaed yn ystod y flwyddyn wedi cael eu categoreiddio fel rhai blaenoriaeth Uchel, Canolig ac Isel, fel y cawsant eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 27 Gorffennaf 2015. Mae diffiniadau o gyfraddau risg yr argymhellion a'r farn archwilio ynghlwm yn **Atodiad B.** Rhoddir ystyriaeth i gysoni cyfraddau risg yr argymhellion gan Archwilio Mewnol gyda Matrics Rheoli Risg yr Awdurdod gan felly gyfnerthu'r broses rheoli risg ymhellach yn yr Awdurdod. Byddwn yn ceisio cymeradwyaeth y Pwyllgor yn hwyrach ymlaen.

3.3.4 Mae crynodeb o'r holl asesiadau archwilio a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn hyd yma gan gynnwys gwaith sy'n mynd rhagddo o 2015/16 ynghlwm yn **Atodiad C.** Mae'r atodlen yn crynhoi'r farn archwilio a'r argymhellion yng nghyswllt pob un maes a adolygwyd a bydd yn ffurfio'r sail ar gyfer y farn yn y Datganiad Sicrwydd Blynyddol ynglŷn â pha mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaethau mewnol yr Awdurdod ar y cyfan ar gyfer 2016/17. Ers 1 Ebrill 2016, mae 2 adroddiad terfynol wedi cael eu cyflwyno o Gynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2015/16 ac 6 o Gynllun Gweithredol 2016/17.

3.3.5 Aseswyd dau o'r archwiliadau cynlluniedig a gwblhawyd yn ystod y chwarter cyntaf fel rhai nad oeddynt yn darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd. Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 30 Mehefin 2016, aseswyd yr archwiliadau mewn perthynas â Rheolaethau

Allweddol Budd Daliadau Tai ac Ffioedd Rheoli Adeiladu - Cyfundrefnau Arolygu a Gorfodi fel rhai a oedd yn rhoddi lefel Gyfyngedig o Sicrwydd. Ceir manylion am yr archwiliadau hyn yn **Atodiad C.**

### 3.4 Dilyn i fyny ar Archwiliadau a Thracio Argymhellion

3.4.1 Mae Safonau Archwilio Mewnol y DU yn gofyn i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol ddilyn y cynnydd a wneir gyda chamau gweithredu a gymerir gan reolwyr sy'n codi o'r aseiniadau. Y rheolwyr sy'n gyfrifol am weithredu argymhellion archwilio y cytunwyd arnynt ac nid Archwilio Mewnol. Cyfrifoldeb Archwilio Mewnol yw adrodd ar y statws.

3.4.2 Mae'r Broses Dilyn i Fyny a Monitro a amlinellir mewn adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 8 Rhagfyr 2015 wedi cael ei chyflwyno er mwyn gwella trefniadau monitro ac adrodd ar gynnydd mewn perthynas â gweithredu argymhellion y cytunwyd arnynt.


3.4.3 Mae **Tabl 1** isod yn crynhoi statws gweithredu'r argymhellion ar 30 Mehefin 2016:

| **Tabl – 1 Statws argymehllion y cytunwyd arnynt ar 30/06/2016** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Statws** | **Uchel** | **Canolig** | **Cyfanswm** | **%** |
| Cwblhawyd | 42 | 165 | 207 | 72% |
| Yn Weddill | 12 | 68 | 80 | 28% |
| Cyfanswm | 54 | 233 | 287 | 100% |

3.4.4 Mae'r argymhellion ar hyn o bryd wedi eu categoreiddio fel rhai uchel, canolig neu isel yn unol â'r risg ganfyddedig fel yr amlinellir yn **Atodiad B.** Nid yw Archwilio Mewnol yn mynd ar ôl yr argymhellion isel yn ffurfiol ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn. Roedd canran y gyfradd weithredu ar 30 Mehefin 2016 yn **72%** ar gyfer cofnodi a gweithredu argymhellion 'uchel' a 'chanolig'.

3.4.5 Mae **Tabl 2** isod yn cynnwys graff sy'n dangos gweithrediad yr argymhellion gan bob Gwasanaeth:

**Tabl 2**



3.4.6 Mae copi o'r holl argymhellion Uchel a Chanolig sy'n parhau i fod angen sylw ynghlwm yn **Atodiad D**.

3.4.7 Mae rhestr o'r 3 archwiliad dilyn-i-fyny a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2016 a 30 Mehefin 2016 ynghlwm yn **Atodiad E**. Mae'n dangos nifer yr argymhellion a dderbyniwyd ac a weithredwyd wedyn gan reolwyr ym mhob maes, ynghyd â barn archwilio ddiwygiedig ynghylch digonolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol.

**3.5 Cyfeiriadau**

3.5.1 Yn ogystal â'r lefelau sicrwydd y cytunodd y gwasanaethau arnynt ac a ddarparwyd i gynorthwyo rheolwyr gwrdd ag amcanion yr Awdurdod, mae Archwilio Mewnol hefyd wedi ymgymryd ag ystod o gyfeiriadau/gwasanaethau ymgynghori sy'n cynnwys:

- Cyngor a chanllawiau i reolwyr ar amryw o faterion, gan gynnwys gweithredu'r system, cydymffurfio â pholisïau, rheoliadau a gweithdrefnau a gofynion rheolaethau mewnol.
- Hyfforddiant
- Ymchwiliadau arbennig gan gynnwys gwaith yn gysylltiedig â thwyll.

3.5.2 Cynlluniwyd y bydd 150 o ddyddiau yn cael eu neilltuo ar gyfer cyfeiriadau/ymgynghori yn ystod y flwyddyn ac roedd **39.26** o ddyddiau wedi cael eu treulio ar y gwaith hwn hyd at ddiwedd mis Mehefin 2016.

3.5.3 Mae crynodeb o ymchwiliadau arbennig a wnaed gan Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd at 30 Mehefin 2016 wedi'i gynnwys yn **Atodiad F** ac mae'n gyfanswm o **37.70** diwrnod.

**3.6 Absenoldeb Salwch**

3.6.1 Mae'r Gwasanaeth yn rheoli absenoldeb salwch yn unol â Pholisi Absenoldeb Salwch yr Awdurdod. Cafwyd **5 diwrnod** o absenoldeb salwch yn ystod y cyfnod a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2016 yn erbyn targed blynyddol o 45 diwrnod

**4. BLAENRAGLEN WAITH ARCHWILIO MEWNOL**

| Teitl yr Adolygiad a Drefnwyd | Maes Gwasanaeth | Statws Cyfredol |
|---|---|---|
| Gorchmynion Llys Gofal Plant – Gwaith yn mynd rhagddo 2015/16 | Gwasanaethau Plant | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Diogelu Corfforaethol – Gwaith yn mynd rhagddo 2015/16 | Corfforaethol | Drafft i'w adolygu |
| Tai Gofal Ychwanegol – Gweithdrefnau Comisiynu | Gwasanaethau Oedolion | Gwaith yn mynd rhagddo |
| Gwasanaethau Rheoli Adeiladu | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Gwaith yn mynd rhagddo |

**5. CASGLIAD**

5.1 Mae dadansoddiad o berfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn y cyfnod 1 Ebrill 2016 hyd at 30 Mehefin 2016 yn dangos bod y lefelau perfformiad ar darged. Fodd bynnag, bydd gallu'r gwasanaeth i gyflawni Cynllun Gweithredol 2016/17 yn dibynnu ar lefel y galw am adnoddau archwilio yng nghyswllt cyfeiriadau, gwaith heb ei gynllunio cyn diwedd y flwyddyn a lefelau absenoldeb salwch.

TARGEDAU PERFFORMIAD ARCHWILIO MEWNOL 2016/17 **ATODIAD A**

| **Disgrifiad** | **CSYM Gwirioneddol 2013/14** | **CSYM Gwirioneddol ar 31/3/15** | **CSYM Gwirioneddol ar 31/3/16** | **CSYM Targed 2016/17** | **CSYM Gwirioneddol ar 30/6/16** | **Cyfartaledd Cymru 2014/15** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** % yr Archwiliadau Cynlluniedig a Gwblhawyd | 81% | 92% | 60.32% | 80% | 24.19% | 83% |
| **2.** Nifer yr Archwiliadau | 51 | 46 | 38 | 60 | 15 | 106 |
| **3.** % Ymatebion 'Boddhaol' gan Gleientiaid | 100% | 100% | 100% | 100% | 100% | 98% |
| **4.** % yr Argymhellion a dderbyniwyd | 100% | 100% | 98% | 100% | 100% | 99% |
| **5.** % Gweithredu Argymhellion Lefel Uchel a Chanolig mewn archwiliadau Dilyn-i-fyny | 46% | 49% | 74% | 85% | 72% | D/B |
| **6.** % yr Archwiliadau a gwblhawyd o fewn yr amser a gynlluniwyd | D/B | D/B | 78.95% | 90% | 66.67% | 69% |
| **7.** % yr amser y codir amdano'n uniongyrchol yn erbyn y cyfanswm sydd ar gael | D/B | D/B | 59.74% | 70% | 59.92% | 65% |
| **8.** Nifer y dyddiadau ar gyfartaledd o'r cyfarfod cau i gyhoeddi'r adroddiad drafft | D/B | D/B | 6.61 diwrnod | 7 diwrnod | 7.85 diwrnod | 7.6 diwrnod |
| **9.** Nifer y dyddiau ar gyfartaledd rhwng yr ymateb i'r adroddiad drafft a chyhoeddi'r adroddiad terfynol | D/B | D/B | 2.41 diwrnod | 2 ddiwrnod | 3.57 diwrnod | 1.8 diwrnod |
| **10.** Y gost wirioneddol fesul diwrnod archwilio y codir amdano'n uniongyrchol | £245 | £238 | £318 | £250 | £280 | £249 |
| **11.** Nifer staff Archwilio | 5.5 | 5.6 | 5.68 | 5 | 5.68 | 8.2 |
| **12.** % y staff a adawodd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 12% |

MEHEFIN 2016

## ARGYMHELLION ARCHWILIO A'R FARN ARCHWILIO

### 1. DIFFINIADAU O'R LEFELAU SICRWYDD

Mae diffiniadau newydd o lefelau sicrwydd ar gyfer 2015/16 yn gliriach ac yn fwy cywir yn nodi'r flaenoriaeth y dylid ei rhoddi i'r argymhellion a wnaed. Gweler isod:

| LEFEL SICRWYDD | DIFFINIAD |
|---|---|
| SICRWYDD SYLWEDDOL | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda.<br>Dim angen i'r rheolwyr gymryd unrhyw gamau gweithredu neu angen iddynt gymryd camau lefel isel yn unig.<br>**Dim argymhellion lefel uchel a hyd at 2 o argymhellion blaenoriaeth ganolig yn cael eu gwneud.** |
| SICRWYDD RHESYMOL | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg ac/neu reolaeth fewnol yn rhesymol.<br>Mae angen i'r rheolwyr gymryd camau lefel ganolig i uchel.<br>**Ni wneir unrhyw argymhellion blaenoriaeth lefel uchel.** |
| SICRWYDD CYFYNGEDIG | Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg ac/neu reolaeth fewnol yn gyfyngedig.<br>Mae angen i'r rheolwyr gymryd camau lefel ganolig i isel.<br>**Gwneir nifer o argymhellion blaenoriaeth uchel/neu ganolig** |
| SICRWYDD LLEIAF | Mae diffygion sylweddol yn y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol.<br>Mae angen i'r rheolwyr gymryd camau lefel uchel mewn nifer o feysydd.<br>**Gwneir nifer sylweddol o argymhellion blaenoriaeth uchel.** |

### 2. Diffiniadau o Flaenoriaethau ar gyfer Argymhellion

Mae diffiniadau o'r blaenoriaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr argymhellion wedi cael eu llunio er mwyn gwella cysondeb yn y tîm archwilio a helpu'r lefel o ddealltwriaeth gan y sawl sy'n derbyn yr adroddiad. Gweler isod:

| BLAENORIAETH YR ARGYMHELLIAD | DIFFINIAD |
|---|---|
| UCHEL | Mae angen cymryd camau sylweddol oherwydd absenoldeb neu ddiffyg cydymffurfiaeth gyda phrosesau rheoli sylfaenol sy'n arwain at y potensial na fydd problemau llywodraethiant sylweddol, cam-ymarfer, risg neu gamgymeriad yn cael eu darganfod |
| CANOLIG | Mae angen cymryd camau pwysig i ddod â'r system reolaeth fewnol i fyny i safon dderbyniol neu i wneud i ffwrdd â lefel annerbyniol o ddiffyg cydymffurfiaeth gyda phroses rheoli gyfredol. |
| ISEL | Camau a allai wella'r rheolaeth fewnol yn gyffredinol ond nad yw'n hanfodol i'r system reolaeth gyffredinol. |

## Crynodeb o Argymhellion a Lefelau Sicrwydd 1-4-16 i 30-06-16 ATODIAD C

| | Teitl yr adroddiad | Dyddiad | Gwasanaeth | Cyfanswm yr Argymhellion Archwilio | Negeseuon allweddol | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gwirio Stoc TLIU<br>DLO Stoc Gwirio<br>Gwaith yn mynd rhagddo 2015/16 | Mai 2016 | Tai | Amherthasol | Cynhaliwyd gwiriad stoc blynyddol gan Wasanaeth Archwilio Mewnol yr Awdurdod yn Nepo'r UCA ar 28 Mawrth, 2016. Gwerth y stoc ar ddiwedd y flwyddyn oedd £134,515.08<br><br>**Barn:** Mae'r cofnodiadau stoc a gedwir yn y Depo yn ddigon cywir ac yn darparu cofnod dibynadwy o lefelau stoc fel yr oeddynt ar ddiwedd y flwyddyn. | Sylweddol |
| 2 | Rheolaethau Allweddol Budd-dal Tai<br>Gwaith yn mynd rhagddo 2015/16 | Mehefin 2016 | Tai | 12 | Dyma'r canfyddiadau allweddol o'r adolygiad hwn:<br>▪ Caiff diweddariadau ar weithdrefnau eu dosbarthu drwy e-bost i staff Budd-dal Tai fel sy'n briodol. Defnyddir fforymau perthnasol a chyfarfodydd rhanbarthol amrywiol hefyd i rannu arfer da.<br>▪ Mae angen diweddaru canllawiau'r Awdurdod i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda'r Canllawiau Gordaliadau Budd-dal Tai a gyhoeddwyd gan DWP yn ystod mis Chwefror 2015, ac a adolygwyd wedi hynny ym mis Gorffennaf 2015.<br>▪ Ni chanfuwyd bod tystiolaeth bob amser yn cael ei chadw ar ffeiliau hawlwyr yn unol â'r disgwyliad. | Cyfyngedig |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | <ul><li>Nid oedd cofnod o benderfyniadau a wnaed o ran y dull o adennill gordaliadau yn cael ei gadw ar ffeil. Disgwylir y byddai ffurflen Adennill Budd-dal Tai a ordalwyd a Gostyngiad Gormodol yn y Dreth Gyngor yn cael ei chwblhau fel cofnod o'r trywydd penderfyniadau a wnaed yn ystod y broses adfer.</li><li>Mae yna broblemau pan yn cysoni'r symiau a awdurdodwyd i'w dileu a'r swm gwirioneddol a ddilëwyd ar y system Northgate SX3. Roedd un achos lle yr oedd y swm a ddilëwyd ar gyfer hawliwr unigol yn fwy na'r hyn a awdurdodwyd gan y Swyddog Adran 151.</li><li>Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd i drafod gwaith monitro perfformiad a chymerir camau cadarnhaol i sicrhau bod cywirdeb yn gwella. Er bod y ffigwr yn dal i fod yn is na'r targed, gwelwyd gwelliant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.</li><li>Cymerwyd camau pellach i ychwanegu at y gordaliadau sy’n cael eu hadennill gordaliadau gyda chyfwerth ag un swyddog llawn amser yn treulio eu hamser yn delio gyda gordaliadau.</li></ul>**Barn:** Mae’r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Arweiniodd yr adolygiad at Farn Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig gydag un argymhelliad categori Uchel, pum argymhelliad categori Canolig a chwe argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda’r rheolwyr. | |
| 3 | Ysgol Llannerch-y-medd | Mai 2016 | Dysgu Gydol Oes | 12 | Dyma’r canfyddiadau allweddol o archwiliad o Ysgol Llannerch-y-medd a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun | Rhesymol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17:<br><br>• Cynhaliwyd profion ar sampl o gofnodion incwm prydau ysgol, brecwast ysgol a chofnodion incwm cyffredinol a chanfuwyd eu bod yn gywir ac yn cael eu cadw i safon foddhaol<br><br>• Canfuwyd bod cyllideb yr ysgol yn cael ei mabwysiadu'n flynyddol gan y corff llywodraethu a bod materion ariannol yn cael eu trafod yn rheolaidd<br><br>• Nid oedd yr ysgol bob amser yn llenwi ffurflen archebu cyn prynu<br><br>• Nid oedd y ffurflen adolygu tâl athrawon ar gyfer 2015/16 wedi cael ei dychwelyd i'r Adran Addysg cyn 1 Medi 2015<br><br>• Yr ysgol i gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1988<br><br>**Barn:** Barn archwilio Sicrwydd rhesymol yn gyffredinol o ganlyniad i'r adolygiad gyda dau argymhelliad categori canolig a thri argymhelliad categori isel yn cael eu cytuno gyda'r pennaeth. | |
| 4 | Ysgol Tywyn | Mehefin 2016 | Dysgu Gydol Oes | 4 | Dyma'r canfyddiadau allweddol o archwiliad o Ysgol Tywyn a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17:<br><br>• Roedd y cofnod prydau ysgolion yn cael ei gynnal i safon uchel yn yr ysgol, ond dylai lefel yr ôl-ddyledion gael ei monitro'n effeithiol yn | Sylweddol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | unol â Chanllawiau'r Adran Addysg<br><br>• Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei thrafod yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn cael ei mabwysiadu'n flynyddol gan y Corff Llywodraethu<br><br>• Mae cyfrifon cronfa'r ysgol yn cael eu cynnal i safon briodol ac yn cael eu harchwilio'n annibynnol ar sail flynyddol. Mae'r ddogfen "Cofnod Archwilio Cronfa'r Ysgol" yn cael ei chyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr yn flynyddol.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. | |
| 5 | Ysgol Llandegfan | Mehefin 2016 | Dysgu Gydol Oes | 1 | Dyma'r canfyddiadau allweddol o archwiliad o Ysgol Llandegfan a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17:<br><br>• Mae'r cofnod prydau ysgolion yn cael ei chynnal i safon uchel yn yr ysgol<br><br>• Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei thrafod yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn cael ei mabwysiadu'n flynyddol gan y Corff Llywodraethu<br><br>• Mae cyfrifon cronfa'r ysgol yn cael eu cynnal i safon briodol ac yn cael eu harchwilio'n annibynnol ar sail flynyddol. Mae'r ddogfen "Cofnod Archwilio Cronfa'r Ysgol" yn cael ei chyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr yn flynyddol. | Sylweddol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. | |
| 6 | Ysgol Y Graig | Mehefin 2016 | Dysgu Gydol Oes | 5 | Dyma'r canfyddiadau allweddol o archwiliad o Ysgol y Graig a gynhaliwyd fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17:<br>• Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei thrafod yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn cael ei mabwysiadu'n flynyddol gan y Corff Llywodraethu<br>• Roedd cofnodion incwm cyffredinol a ffioedd gwersi cerddoriaeth yn gywir ac yn cael eu cynnal i safon foddhaol<br>• Dylai prydau ysgol gael eu cofnodi'n gywir a dylai'r ysgol fonitro lefel yr ôl-ddyledion yn effeithiol yn unol â Chanllawiau'r Adran Addysg.<br>**Barn:** barn archwilio Sicrwydd rhesymol yn gyffredinol o ganlyniad i'r adolygiad gydag un argymhelliad categori canolig a phedwar argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r pennaeth. | Sylweddol |
| 7 | Ysgol Llanfair PG | Mehefin 2016 | Dysgu Gydol Oes | 5 | Cynhaliwyd archwiliad yn Ysgol Llanfair PG fel rhan o'r cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17.<br>Dyma ganfyddiadau allweddol yr adolygiad:<br>• Roedd cofnod prydau ysgol yn cael ei gynnal i safon uchel yn yr ysgol | Rhesymol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei thrafod yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn cael ei mabwysiadu’n flynyddol gan y Corff Llywodraethu<br><br>**CAMAU ALLWEDDOL Y CYTUNWYD ARNYNT**<br><br>• Dylai archebion gael eu cwblhau cyn derbyn nwyddau<br><br>• Dylai’r ysgol adolygu ffioedd gosod yr ysgol bob blwyddyn<br><br>• Yr ysgol i gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol â Deddf Diogelu Data 1988<br><br>**Barn:** Barn archwilio Sicrwydd rhesymol yn gyffredinol o ganlyniad i'r adolygiad gyda dau argymhelliad categori Canolig a thri argymhelliad categori Isel yn cael eu cytuno gyda'r pennaeth. | |
| 8 | Ysgol Esceifiog | Mehefin 2016 | Dysgu Gydol Oes | 4 | Cynhaliwyd archwiliad o Ysgol Esceifiog fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol a gymeradwywyd ar gyfer 2016/17.<br><br>Dyma’r canfyddiadau Allweddol o'r adolygiad:<br><br>• Mae'r cofnod prydau ysgolion yn cael ei gynnal i safon uchel yn yr ysgol<br><br>• Mae cyllideb yr ysgol yn cael ei thrafod yn rheolaidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn cael ei mabwysiadu’n flynyddol gan y Corff Llywodraethu | Sylweddol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Mae cyfrifon cronfa'r ysgol yn cael eu cynnal i safon briodol ac yn cael eu harchwilio'n annibynnol ar sail flynyddol. Mae'r ddogfen "Cofnod Archwilio Cronfa'r Ysgol" yn cael ei chyflwyno i Fwrdd y Llywodraethwyr yn flynyddol.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol yn dda. | |
| 9 | Ffioedd Rheoli Adeiladu – Trefniadau Arolygu & Gorfodaeth | Mehefin 2016 | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | 8 | Dyma'r canfyddiadau allweddol o'r adolygiad hwn:<br>▪ Nid yw Taliadau Rheoli Adeiladu yn cael eu hadolygu'n flynyddol.<br>▪ Nid oes gweithdrefnau o ran nodi a sut i ymdrin ag achos / achos posibl o dorri'r Rheoliadau neu Weithdrefnau ynghylch cofnodi arolygiad / au.<br>▪ Nid oedd unrhyw weithdrefnau yn bodoli ar gyfer gweinyddu ad-daliadau neu achos / achos posibl o dorri'r Rheoliadau Adeiladu.<br>▪ Ni fedrir cofnodi ymweliadau safle ar system CIVICA.<br>▪ Dim ffurflenni datgan diddordeb ffurfiol wedi cael eu llenwi gan swyddogion yn yr adain Rheoli Adeiladu.<br>▪ Dim gwaith cysoni yn cael ei wneud o ran anfonebu a chasglu incwm ar y system CIVICA.<br><br>**Barn:** Mae'r trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risgiau a rheolaeth fewnol yn gyfyngedig. Arweiniodd yr adolygiad at Farn Archwilio Sicrwydd Cyfyngedig gydag wyth argymhelliad categori Canolig yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr. | Cyfyngedig |

**ATODIAD D**

**Argymhellion Blaenoriaeth Uchel gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol sydd heb gael sylw ar 30/06/2016**

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad | Dyddiad yr argymhelliad | Dyddiad gweithredu y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| 1 | Rheoli System - Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau 1961. 14/15 | 2.2 Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cadw cofnod ar gyfer yr holl ddefnyddwyr i dystio eu bod wedi gweld, darllen, deall a chytuno i lynu wrth yr holl bolisïau TGCh allweddol gan gynnwys y Polisi Diogelwch TGCh (ar ôl ei gymeradwyo) a'r Polisi Defnydd Derbyniol. | 07/10/2014 | 31/03/2015 Newidiwyd y dyddiad i 30/09/2015 | Swyddog Busnes a Monitro'r Cyngor | SIRO a Swyddog Adran 151 - Gofynnwyd am wybodaeth gan awdurdodau eraill yng Nghymru mewn perthynas â'r datrysiadau a oedd yn cael eu defnyddio ganddynt. Yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd, rhoddwyd arddangosiadau cychwynnol dan ddarpar gyflenwyr ym mis Ionawr 2015. Yna, paratowyd dogfen manyleb tendr a chyhoeddwyd rhybudd tendr (GwerthwchiGymru) ar 8 Ebrill 2015 - y dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau oedd 8 Mai 2015. Derbyniwyd pump o dendrau.<br><br>Cyflwynwyd adroddiad yn gofyn am gyllid i gyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Mehefin. Nid oedd y Pwyllgor Gwaith yn barod i gefnogi'r prosiect (oherwydd gwrthwynebiad y Swyddog Adran 151) a chafodd yr eitem ei thynnu oddi ar raglen cyfarfod ffurfiol y Pwyllgor Gwaith 15 Mehefin.<br><br>Yn unol â chyfarwyddyd yr Uwch Swyddog Cyfrifol, bydd y dasg yn parhau hyd at, ond nid yn cynnwys, gosod y contract – cynhelir cyfarfod ar 18 Mehefin i roi trefn derfynol ar y canlyniadau o'r broses gwerthuso tendrau a rhoi atborth i'r cyflenwyr.<br><br>Gwaith yn mynd rhagddo. Adroddwyd arno yn y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol ar 13/10/2015 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Diweddariad 15/06/2016 - Mae'r contract ar gyfer y cymhwysiad polisi newydd wedi cael ei lofnodi a gwaith yn cael ei wneud ar y cynllun gweithredu ar hyn o bryd. Bydd hyfforddiant ar gyfer defnyddwyr gweinyddol (cynrychiolwyr o’r Gwasanaethau) yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf 2016. Gofynnir i staff dderbyn un polisi'r mis, ar hyn o bryd mae 3 o bolisïau Diogelu Data, 1 TGCh a pholisi Iechyd a Diogelwch. |
| 2 | Rheolaethau System - Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau 1961. 14/15 | 2.3 Dylid sefydlu gweithdrefn sy'n sicrhau nad yw dechreuwyr sydd angen mynediad i rwydwaith, data a systemau’r Cyngor yn cael mynediad o'r fath hyd nes y bydd TGCh wedi cael tystiolaeth bod y defnyddiwr wedi cadarnhau ei fod wedi gweld, darllen, deall a chytuno i lynu wrth y Polisïau Diogelwch a Diogelwch Data. Os yw defnyddwyr wedi cael mynediad ond yna’n methu â darparu tystiolaeth o'r fath fel sy'n ofynnol uchod, tynnir y cyflester oddi arno hyd nes y bydd y dystiolaeth wedi ei darparu. | 07/102014 | 31/03/2015 Newidiwyd y dyddiad i 30/12/2015 | Rheolwr Trawsnewid Busnes TGCh | TGCh - Unwaith y bydd y feddalwedd cydymffurfio â pholisi yn ei lle, rhoddir pythefnos i staff newydd gymeradwyo'r polisïau.<br><br>Ar ôl gweithredu’r feddalwedd cydymffurfio â pholisi, cynigir bod y system yn cael ei gosod fel ei bod yn agor ar yr holl gyfrifiaduron personol pan fydd y defnyddiwr yn mewngofnodi - bydd hyn yn parhau pob tro y byddant yn mewngofnodi nes bod y polisïau wedi cael eu derbyn. Byddai TGCh hefyd yn ymchwilio i'r posibilrwydd yn y tymor hwy bod mynediad i'r Rhyngrwyd yn cael ei dynnu’n oddi wrth ddefnyddwyr newydd yn otomatig a dim ond ei roi yn ôl wedi derbyn tystiolaeth eu bod wedi ymrwymo i lynu wrth bolisïau TGCh allweddol.<br><br>Adolygiad SIRO & Swyddog Adran 151 - Ymchwilio i gyflwyno sgrîn mewngofnod sy'n cynnwys datganiad i ddefnyddwyr ei gymerdwyo yn tystio eu bod wedi darllen, deall a chytuno i lynu wrth Bolisïau TGCh allweddol.<br><br>Ar ôl gweithredu'r feddalwedd cydymffurfiaeth polisi, bydd dechreuwyr newydd yn cael pythefnos i ymrwymo i bolisïau a bydd y neges yn ymddangos ar eu cyfrifiadur hyd nes y bydd y polisïau wedi eu derbyn a bydd defnydd o'r rhyngrwyd yn cael ei dynnu oddi arnynt os nad |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | ydynt wedi derbyn y polisïau allweddol. Fodd bynnag, mae gweithrediad y feddalwedd cydymffurfieth polisi yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gan grŵp corfforaethol sy'n cael ei gadeirio gan y SIRO - gweler uchod.<br><br>Mae prosiect sy'n cael ei arwain gan y Swyddog / Monitro SIRO wedi cael y dasg o weithredu system rheoli / derbyn polisïau - mae hyn yn dal i fynd rhagddo.<br><br>Unwaith y bydd datrysiad wedi ei sefydlu bydd hyn yn fodd i GCh gyflawni'r argymhelliad hwn. |
| 3 | Rheolau Systemau – Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau 1961.14/15 | 8.3 Yn unol ag arfer gorau a Rheolau Gweithdrefnau Ariannol y Cyngor, dylid gwahanu'r dyletswyddau a ganlyn yn systemau a ganlyn y Cyngor:<br><br>Dyledwyr a'r Cyfriflyfr – Dylid adolygu mynediad yr ariannwr at y system dyledwyr a'r cyfriflyfr er mwyn sicrhau y cynhelir y gwaith o wahanu dyletswyddau rhwng y rhai hynny sy'n derbyn incwm a'r rhai sy'n cofnodi incwm.<br><br>Dylai gwaith cysoni, yn cynnwys systemau dyledwyr, derbynebu arian, a chysoniadau banc gael eu hadolygu gan weithiwr annibynnol er mwyn sicrhau cywirdeb.<br><br>Dylai addasiadau/nodiadau credyd/gwaith dileu dyledion i ddyledwyr gael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan weithiwr nad oes | 08/09/2014 | 31/12/2014 dyddiad wedi newid i 31/12/2015 | Pennaeth Adnoddau | Adolygu Swyddogion - Ar gyfer y systemau ariannol, bydd y cyfrifoldeb o sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu'n ddigonol yn cael ei gynnwys mewn disgrifiadau swydd priodol yn sgil ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cyllid fel y trefnwyd.<br><br>Dyledwyr / Cyfriflyfr / Credydwyr – Bydd y gwaith sy'n ymwneud â'r system ariannol yn rhan o ail-lansio CIVICA.<br><br>Cyflogres - Bydd dyletswyddau'r Gyflogres a'r Sefydliad yn cael eu gwahanu yn y system gyflogres yn sgil cyswllt rhwng y Swyddog A151 a Phennaeth y Proffesiwn - Adnoddau Dynol.<br><br>Mae'r Gofrestr Asedion wedi'i chwblhau. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | ganddo gyfrifoldeb am gofnodi'r trafodion hyn.<br><br>Credydwyr - Dylai adroddiad diwygiadau Cyflenwyr gael ei adolygu gan weithiwr ar lefel oruchwyliol nad oes ganddo fodd i newid manylion cyflenwyr, gwaith cofnodi anfonebau, cymeradwyo anfonebau a chaniatáu taliadau.<br><br>Sefydliad Adnoddau Dynol / y gyflogres - dylai swyddogaethau gael eu cyfyngu i swyddogion nad oes ganddynt fodd i brosesu'r gyflogres neu rhaid i gofnodion y sefydliad hwnnw a osodwyd gan y gyflogres gael eu hadolygu gan weithiwr annibynnol i sicrhau eu bod yn ddilys Dylai'r swyddog sy'n gyfrifol am redeg y gyflogres fod yn annibynnol ar brosesu'r gyflogres er mwyn sicrhau y cedwir y cywirdeb. Dylai adroddiadau eithrio gael eu rhedeg a'u gwirio gan weithiwr ar lefel oruchwyliol (annibynnol) yn ôl i'r dogfennau ffynhonnell. Dylai'r adroddiadau amrywiant gael eu gwirio gan weithiwr ar lefel oruchwyliol (annibynnol) er mwyn sicrhau cywirdeb. Dylid adolygu hawliau mynediad holl ddefnyddwyr systemau cyflogres / Adnoddau Dynol er mwyn sicrhau priodoldeb, yn enwedig felly'r swyddog sy'n gyfrifol am gysoni'r gyflogres ac adolygu. | | | | |
| 4 | Monitro Adroddiad Sicrwydd Trydydd | Arg 3: Dylid cynnal adolygiad corfforaethol rheolaidd o'r holl wendidau a'r argymhellion / camau a | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglenni | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Parti 1736.11/12 | adnabuwyd mewn adroddiadau Sicrwydd Trydydd Parti er mwyn adnabod unrhyw themâu cyffredin; er mwyn sicrhau cysondeb mewn ymatebion ac fel na ddyblygir ymdrech mewn ymatebion o'r fath. | | | | |
| 5 | Monitro Adroddiad Sicrwydd Trydydd Parti 1736.11/12 | Arg 5: Dylid rhoi gwybod i'r ganolfan gorfforaethol yn brydlon am wendidau sylweddol a adnabuwyd mewn adroddiadau, pa un ydynt yn adroddiadau drafft neu derfynol, neu drwy ddull arall a dylid cymryd camau priodol i wirio'r sefyllfa. | 07/10/2014 | 31/12/2014 | Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglenni | |
| 6 | Poilsiau Corfforaethol 1761.11/12 | Adolygu a gweithredu'r Adroddiad Polisïau Corfforaethol 1761 2011/12. | 07/10/2014 | 31/12/2014 dyddiad wedi newid i 29/04/2016 | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | 23/02/2016 - Gwaith yn mynd rhagddo yn dilyn penderfyniad ym mis Hydref 2015 i ddyrannu cyllid. Trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda darparwr ynghylch contract.<br><br>30/06/2016 - Contract wedi'i lofnodi gyda chyflenwr<br><br>2016/01/03 - Hyfforddiant ar gyfer gweinyddwyr systemau i gael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2016. Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd i'r UDA ym Mai 2016 a nodwyd 7 o bolisïau allweddol yr UDA ar gyfer eu derbyn yn ystod y 12 mis cyntaf. Bydd gweithredu'r broses derbyn polisïau yn cychwyn ym mis Medi 2016.<br><br>Adroddiadau chwarterol ar lefelau derbyn y polisïau i'w gyflwyno i'r UDA (dyddiadau i'w gytuno) ynghyd ag adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio. |
| 7 | Partneriaethau – Trefniadau Llywodraethu 003.15/16 | 1.2 Dylid sefydlu a chadw cofrestr ganolog o bartneriaethau er mwyn cofnodi'r partneriaethau y mae'r Cyngor yn ymwneud â nhw; dylai'r gofrestr ganolog nodi:<br><br>• Y sefydliad partner;<br>• Prif swyddogaethau ac | 03/02/2016 | 30/04/2016 | Prif Weithredwr Cynorthwyol | Paratowyd Cofrestr Ganolog ddrafft ym mis Tachwedd 2015 fel sylfaen ar gyfer datblygiad pellach. Penaethiaid Gwasanaeth i adolygu 2016/09/02; UDA i adolygu'r Gofrestr Ganolog erbyn 29/02/2016.<br><br>Mae ail ddrafft o'r gofrestr wedi'i baratoi ar sail argymhellion yr Adroddiad Archwilio Mewnol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | amcanion y partneriaethau;<br>• A yw'r bartneriaeth yn strategol neu weithredol;<br>• Y swyddog / cyswllt arweiniol;<br>• Gweithdrefnau atebolrwydd ac adrodd;<br>• Dyddiad adnewyddu'r cytundeb partneriaeth. | | | | Mae'r Swyddog Sgriwtini wedi cael ei enwi fel y person sy'n gyfrifol am y gofrestr. Drafft pellach i gael ei baratoi erbyn diwedd mis Medi. |
| 8 | Partneriaethau – Trefniadau Llywodraethu 003.15/16 | 2.2 Dylid monitro er mwyn sicrhau bod trefniadau partneriaeth y Cyngor yn gweithio'n effeithiol i sicrhau perfformiad gwell yn unol ag amcanion corfforaethol y Cyngor. Dylai gwaith monitro gynnwys adolygiad o berfformiad ariannol y partneriaethau er mwyn sicrhau bod trefniadau partneriaeth yn cyflawni'r arbedion adnoddau a gynlluniwyd ac yn parhau i ddarparu gwerth mewn perthynas â'r adnoddau a fuddsoddwyd ynddynt. Dylai partneriaethau allweddol gael eu cynnwys yn Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor a dylid adolygu perfformiad y partneriaethau bob chwe mis. | 03/02/2016 | 30/04/2016 | Prif Weithredwr Cynorthwyol | Trefniadau monitro i gael eu datblygu a'u gweithredu yn 2016/17. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi cadarnhau rôl monitro partneriaethau. Mae Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2016/17 wedi cael ei pharatoi i gynnwys monitro rhai o'r prif bartneriaethau allweddol. Dylai Aelodau Sgriwtini gwblhau adolygiad o'r broses fonitro yn ystod mis Ebrill 2017. Y cam nesaf yw datblygu gweddill y trefniadau monitro blynyddol, gan gynnwys materion ariannol erbyn diwedd mis Medi 2016. |
| 9 | Rheoli Parhad Busnes – Dilyn i fyny 049.15/16 | 1.1a Dylai Cynllun Parhad Busnes cynhwysfawr gael ei gwblhau a'i gylchredeg i aelodau'r Tîm Parhad Busnes a rheolwyr fel y bo'n briodol. | 08/03/2016 | 30/06/2016 | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | Wedi ei ail-adrodd o Adroddiad Parhad Busnes 007 2015/16.<br><br>Mae Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol Drafft wedi cael ei baratoi. Mae'n ofynnol profi cadernid y cynllun ac mae senario wedi cael ei lunio ar gyfer y prawf. Mae'r Penaethiaid wedi dyrannu rhan o'u cyfarfod nesaf ar 12/04/2016 at y diben hwn. Yn ogystal, bydd sesiwn friffio ar BGM yn cael ei drefnu ar gyfer rheolwyr canol ym mis Tachwedd 2016. Ar hyn o bryd, mae dwy o ffrydiau gwaith â materion cynnydd a gweithredoedd sy'n parhau i fod angen sylw ac fe'u trafodwyd yng nghyfarfod y Gweithgor ar |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | 01/03/2016. Mae gwaith i gydlynu gyda chynlluniau Adfer TGCh mewn Argyfwng yn mynd rhagddo ac mae trefniadau ar gyfer nodi a chael a mynediad i leoliadau eraill wedi ei raglennu i gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai 2016. Cynhelir cyfarfod nesaf y Gweithgor ar 04/05/2016 a bydd yn trafod y Cynllun Adfer TGCh mewn Argyfwng. Bydd y Cynllun Adfer TGCh mewn Trychineb a'r Cynllun Adfer Adeiladau yn cefnogi dogfennau ar gyfer y Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol. Bydd cynnydd ar y Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol yn cael ei adrodd i'r UDA ym mis Mehefin.<br>Diweddariad 30/06/2016 – Cyflwynwyd adroddiad cynnydd ar BCM i'r Gweithgor ar 05/04/16 a 27/05/16, gan gynnwys Adfer ar ôl Trychineb a TGCh. Cyflwyniad ar BCM i'r Penaethiaid ar 12/4/16. Gwaith heb ei gwblhau eto ar gynllun adfer adeiladau oherwydd nifer y safleoedd amgen a nodwyd gan y gwasanaethau a'r angen i ystyried agweddau TGCh. Y Gwasanaethau Eiddo sy'n arwain ar y Cynllun Adfer Adeiladau ac wedi cael ei ailraglennu i'w gwblhau erbyn Medi 2016. Ni chafodd yr adroddiad cynnydd ei gyflwyno i'r UDA ym mis Mehefin yn ôl y bwriad oherwydd absenoldeb salwch y Swyddog arweiniol yn y gwasanaeth NWEP. Bydd angen cytuno ar ddyddiad diwygiedig fel y gellir adrodd ym mis Medi 2016. |
| 10 | Rheoli Parhad Busnes – Dilyn i fyny 049.15/16 | 1.1b Dylai copi o'r Cynllun Parhad Busnes gael ei gadw hefyd mewn lleoliad hwylus a diogel oddi ar y safle a dylai fod ar gael fel dolen gwefan ar serfiwr a gynhelir ar safle oddi ar y safle er mwyn sicrhau y gellir cael mynediad ato hyd yn oed os yw systemau gwybodaeth y Cyngor wedi cael eu heffeithio. | 08/03/2016 | 30/06/2016 | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | Wedi ei ailadrodd o Adroddiad Parhad Busnes 007 2015/16.<br>Byddir yn defnyddio Resilience Direct ar gyfer cadw copi o'r Cynllun Parhad Busnes. Mae gweinyddwyr a fydd yn defnyddio llwyfan Resilience Direct wedi derbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r system ar 03/07/2016. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Diweddariad 30/06/2016 - Rhoddwyd copi o'r Cynllun BCM Drafft ar safle Resilience Direct ym mis Ebrill. Mae sesiynau ymwybyddiaeth mynediad ar gyfer gweinyddwyr eto i'w trefnu ar draws Gogledd Cymru. |
| 11 | Rheoli Parhad Busnes – Dilyn i fyny 049.15/16 | 4.1 Dylai'r Cynllun Parhad Busnes Corfforaethol cynhwysfawr ymgorffori trefniadau ar gyfer Rheoli Adferiad Adeiladau. | 08/03/2016 | 30/06/2016 | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | Wedi ei ail-adrodd o Adroddiad Parhad Busnes 007 2015/16.<br><br>Mae'r trefniadau ar gyfer adnabod a chael mynediad i leoliadau adeiladau wedi eu rhaglennu i gael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mai 2016.<br><br>Diweddariad 30/06/2016 - Gwaith heb ei gwblhau eto ar y Cynllun Adferiad Adeiladu oherwydd nifer y safleoedd amgen a nodwyd gan y gwasanaethau ac mae angen ystyried agweddau TGCh. Mae'r Adain Eiddo yn arwain ar y Cynllun Adferiad Adeiladau ac mae wedi cael ei ail-raglennu ar gyfer ei gwblhau erbyn Medi 2016. |
| **Cyllid** | | | | | | |
| 12 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio 025.15/16 | 6.2a Mae llog yn cronni o daliadau llog sy'n ddyledus a dylai'r llog a gronnwyd ar y benthyciad o'r Cynllun Benthyciadau Pontio gael ei adfer, a hynny dan y telerau a'r amodau a nodir yn y cytundeb cyfleuster. | 16/12/20 15 | 31/12/2015 | Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau | |
| 13 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio 025.15/16 | 6.2e Dylai gwybodaeth ariannol am y Cynllun Benthyciadau Pontio fod ar gael fel bod modd i'r Adran Dai fonitro'n ariannol a/neu wneud gwaith cysoni'n rheolaidd (monitro derbynebau taliadau llog). | 16/12/20 15 | 31/12/2015 | Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau | |

**Argymhellion Blaenoriaeth Ganolig gan Archwilio Mewnol sydd heb gael sylw ar 30/06/2016**

| Cyf | Adroddiad | Argymhelliad | Dyddiad yr argymhelliad | Dyddiad gweithredu y cytunwyd arno | Swyddog Cyfrifol | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Corfforaethol** | | | | | | |
| 14 | Staff Asiantaeth 1940.14/15 | 6.6 Dylai unrhyw ddefnydd newydd o weithwyr asiantaeth fod yn unol â Pholisi CSYM a dylid trafod dewisiadau eraill yn lle defnyddio Gweithwyr Asiantaeth gyda Swyddogion Adnoddau Dynol. Mae'r Polisi Gweithwyr Asiantaeth diwygiedig yn awr yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau gwblhau Atodiad 1 - RHESWM DROS GYFLOGI i GWEITHIWR ASIANTAETH – a'i ddychwelyd i AD cyn i unrhyw weithwyr asiantaeth gael eu cyflogi. | 13/08/2014 | 31/07/2014 | Prif Weithredwr | Gofyn i Benaethiaid Gwasanaeth gyfarwyddo staff perthnasol i gydymffurfio â'r Polisi Gweithwyr Asiantaeth diwygiedig o ran y gofyniad i gwblhau ffurflen yn Atodiad A a'i hanfon at Adnoddau Dynol cyn cyflogi unrhyw staff asiantaeth, contract, hunangyflogedig ac ymgynghorwyr. |
| 15 | Rheolaethau System - Mynediad Rhesymegol a Gwahanu Dyletswyddau 1961.14/15 | 3.1b Dylai'r Polisi Diogelwch TGCh gynnwys cyfrifoldebau a gweithdrefnau diffiniedig.<br>Dylid cofnodi'n ffurfiol pwy yw'r gweinyddwyr system adrannol a dylid gofyn iddynt gadarnhau eu bod yn derbyn yr holl gyfrifoldebau diffiniedig. Dylai pob gweinyddwyr system adrannol ymgyfarwyddo â'r Polisi Diogelwch TGCh a gweithredu'r polisi lle bo angen. | 08/09/2014 | 31/03/2015 | Rheolwr Gwasanaethau Technegol | Bydd y polisi Diogelwch TGCh yn cael ei ddiwygio i gynnwys y gofyniad hwn a dygir y polisi i sylw perchnogion asedau gwybodaeth yn y gwasanaethau . Unwaith y bydd y feddalwedd cydymffurfiaeth polisi wedi ei sefydlu bydd raid i'r swyddogion priodol adolygu / cymeradwyo polisïau TGCh allweddol. |
| 16 | Llywodraethu Gwybodaeth 009.15/16 | 1.2a Dylai'r Adran Gaffael sicrhau bod Cytundebau Prosesu Data yn cael eu cynnwys yn y cyfnod tendro / dyfynbrisiau a'u cynnwys fel atodiad ar wahân gyda phob contract perthnasol newydd. | 21/10/2015 | 30/11/2015 | Swyddog Caffael | Cynhaliwyd cyfarfod ar 22/2/2016 i drafod mesurau diogelwch o ran data personol wrth gaffael. Bydd y Swyddogaeth Gwybodaeth Corfforaethol yn creu cynllun gweithredu yn manylu ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn y contractau a'i anfon i'r UDA yn yr ychydig wythnosau nesaf. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 17 | Llywodraethu Gwybodaeth 009.15/16 | 1.2b Dylai rheolwyr adolygu sut rhedir contractau lle mae contractwr trydydd parti yn prosesu data personol ar ran y Cyngor i benderfynu a gorfodi Cytundeb Prosesu Data ar y contract. | 21/10/2015 | 30/09/2015 | Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol | Mae gwaith wedi cychwyn ar y mater hwn, fodd bynnag, o ran argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch caffael gwasanaethau, bydd angen adolygiad ehangach o'r mesurau diogelu data wrth gaffael gwasanaethau sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol. Mae amser yn ffactor o ran yr adolygiad y gofynnwyd amdano gan SCG oherwydd rhaid gwneud hyn cyn y gellir cwblhau'r argymhelliad. Dylid diwygio'r dyddiad targed.<br><br>15/06/16 - Dim cynnydd oherwydd mae'r ymdrechion ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar sicrhau fod DPA yn cael ei gynnwys ym mhob contract perthnasol newydd / yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol wedi bod mewn cyfarfodydd gyda'r adran Gaffael ac yn gobeithio cyflwyno adroddiad i'r UDA ynghylch rhestr wirio ar gyfer contractau yn y dyfodol agos. |
| 18 | Llywodraethu Gwybodaeth 009.15/16 | 1.2c Dylai'r SIRO sicrhau bod yr holl gontractau 'Categori 1' a weithredir gan y Cyngor yn cael eu cynnwys mewn Cytundebau DP yn unol ag argymhellion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. | 21/10/2015 | 30/09/2015 | Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol | 15/06/16 – Perchenogion Asedau Gwybodaeth (PAG) / Penaethiaid sy'n gyfrifol am weithredu'r argymhelliad hwn. Cyflwynwyd adroddiad i'r UDA er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r mater hwn. Mae rhestr wirio yn y broses o gael ei gwblhau fel teclyn i sicrhau nad yw elfennau pwysig yn cael eu colli wrth lunio contract. |
| 19 | Llywodraethu Gwybodaeth 009 2015/16 | 1.4a Dylai PAG sy'n gyfrifol am safleoedd y tu allan i'r pencadlys (canolfannau hamdden, sefydliadau gwasanaethau cymdeithasol ac ati) adolygu systemau rheoli data personol a chyfleusterau storio ar y safle fel y gallant roi sicrwydd ynghylch priodoldeb y mesurau sydd wedi cael eu sefydlu i storio cofnodiadau, eu symud eu cadw a'u gwaredu. | 21/10/2015 | 30/06/2016 – newid o 31/01/2016 | Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol | 10/2/16 - cynnydd gyda'r argymhelliad hwn wedi cael ei ohirio oherwydd mae capasiti wedi cael ei ddargyfeirio i weithredu Rhybudd Gorfodaeth yr ICO. Bydd yr eitem hon yn cael ei chodi gan y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol maes o law. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | Llywodraethu Gwybodaeth 009 2015/16 | 1.10 Dylai Swyddogion Cydymffurfiaeth sicrhau bod adolygiad o'r holl hysbysiadau preifatrwydd presennol yn cael ei gynnal a diweddariadau a newidiadau'n cael eu gwneud fel sy'n briodol; dylai'r holl hysbysiadau preifatrwydd gael eu trosglwyddo i'r templed hysbysiad preifatrwydd a dylid anfon copïau at y Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol fel y gall ddiweddaru'r cofnod canolog. | 21/10/2015 | 31/05/2016 - newid o 30/09/2015 | Swyddog Gofal Cwsmer | Oherwydd y Rhybudd Gorfodaeth a dderbyniwyd ym mis Hydref 2015, mae'r gwaith hwn wedi cael ei ohirio, ond byddir yn ailgychwyn arno yn ystod y misoedd nesaf. Newidiwyd y dyddiad targed i ddiwedd Mawrth 2016.<br>Bellach, mae yna ddangosydd misol i dracio pob hysbysiad preifatrwydd newydd. 19.4.16 – diweddariad. Newidiwyd y dyddiad targed i ddiwedd mis Mai – rhywfaint o waith ar ôl i'w gwblhau mewn perthynas â'r Rhybudd Gorfodaeth. |
| 21 | Fframwaith Rheoli Risg 011. 15/16 | 6.1 Dylai Penaethiaid Gwasanaethau sicrhau y caiff Cynlluniau Cyflenwi Gwasanaeth eu cyflwyno'n brydlon ac o fewn amser penodol gyda'r holl adrannau wedi'u cwblhau gan gynnwys cysylltiadau â'r Cofrestri Risg. | 21/09/2015 | 31/12/2015 | Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglenni | 02/03/2016 Fframwaith Rheoli Perfformiad a Chynllunio Corfforaethol yn cynnwys y gofynion cyllidebol wedi'i anfon at bob Pennaeth Gwasanaeth yn amlinellu ac yn rhoi gwybod iddynt sut y cysylltir gwahanol agweddau. Dim ond pedwar o'r naw gwasanaeth a gyflwynodd fersiynau draft o'r Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth ar amser. Ddechrau mis Mawrth roedd pump yn parhau i fod angen eu cyflwyno ac mae'r mater hwn wedi'i drosglwyddo i'r Penaethiaid. |
| 22 | Dilyniant Parhad Busnes 049.15/16 | 1.3 Dylai gwasanaethau sicrhau bod Cynlluniau Parhad Busnes a Threfniadau Cynllunio Argyfwng yn gyfredol ac yn weithredol; dylai'r Cynlluniau Darparu Gwasanaethau gynnwys trefniadau Parhad Busnes a Chynllunio Argyfwng. | 03/08/2016 | 30/04/2016 | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd | Wedi ei ail-adrodd o Adroddiad Parhad Busnes 007 2015/16.<br>Diweddariad 30/06/2016 - Adroddiad cynnydd i'r Penaethiaid ym Medi 2016. |
| **Cyllid** | | | | | | |
| 23 | Rheoli'r Trysorlys 1983.14/15 | 1.9 Dylai prosesau a gweithdrefnau Rheoli'r Trysorlys gael eu cofnodi'n llawn ac yn eglur a rhoi'r dyddiad arnynt er mwyn nodi pwy fedr gymeradwyo'r dogfennau gofynnol ac i wahanu dyletswyddau. | 06/05/2014 | 30/09/2015 | Cyfrifydd Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys | Ailadroddwyd yn Adroddiad Rheoli'r Trysorlys 1932.13 / 14 (Cyfeirnod 1.8) |
| 24 | Trethi Cenedlaethol | 8.1a Dylai gweithdrefnau adennill | 13/05/2014 | 31/07/2015 | Rheolwr | Mae polisi corfforaethol ac atodiadau manwl ar |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Annomestig 1988.14/15 | dydledion cael eu cymhwyso'n gyson yn unol â pholisiau cytunedig y Cyngor. | | | Gweithrediadau | ffurf drafft ac mae'r rhain yn cael eu dilyn yn ymarferol. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn adolygu gweithdrefnau casglu dyledion ac adennil o fewn y Cyngor dros y 7 – 12 mis nesaf. Yn dilyn canlyniad hwn, UDA a Pwyllgor Gwaith ystyried mabwsiadu'r polisi drafft yn ffurfiol.<br><br>Ailadrodd argymhelliad adroddiad archwilio 2013/14 (1920 13/14). |
| 25 | Trethi Cenedlaethol Annomestig 1988.14/15 | 8.1b Dylai dyledion sydd heb eu hadennill ar ôl cwblhau'r broses adennill dyledion gael eu hanfon ymlaen at feilïaid / swyddogion gorfodaeth y Cyngor yn brydlon. | 13/05/2014 | 31/07/2015 | Rheolwr Gweithrediadau | Yn ddiweddar, cyfeiriwyd achosion at Asiantau Gorfodi yn fwy amserol. Mae adolygiad yn cael ei gynnal i leihau'r cyfnod cyn-gorfodi drwy gyfuno dau lythyr yn un.<br><br>Ailadrodd argymhelliad adroddiad archwilio 2013/14 (1920 13/14). |
| 26 | Trethi Cenedlaethol Annomestig 1988.14/15 | 8.2 Dylai cyfrifon sydd wedi eu hatal gael eu hadolygu'n rheolaidd a dylid cadw tystiolaeth o'r adolygiad ar ffeil. | 13/05/2014 | 31/07/2015 | Rheolwr Gweithrediadau | Mae'r ataliadau gyda "dyddiad gorffen" yn cael eu dileu yn otomatig gan y system. Bydd y rheini sy'n dal i fod ar "agor" yn cael eu hadolygu erbyn diwedd mis Gorffennaf.<br><br>Ailadrodd argymhelliad adroddiad archwilio 2013/14 (1920 13/14). |
| 27 | Ysgol Pentraeth 1960.2014/15 | 4.2.5 Dylai'r Adain Incwm wneud ymholiadau i sicrhau fod yr arian a fanciwyd gan yr ysgol (sef £302.70) mis Ionawr 2014 yn y Swyddfa Bost wedi ei gyfrifo amdano'n gyflawn a chywir yng nghyfriflyfr y Cyngor. | 11/12/2014 | 31/01/2015 dyddiad wedi newid i 30/06/2015 | Swyddog Incwm | Gofynnwyd am gopi o'r adroddiad 22/06/2015. Targed cwblhau tasg 30/06/2015. |
| 28 | Mân – ddyledwyr 1982.14/15 | 3.1a Dylid cymryd camau adennill yn unol â Pholisi Bilio Mân Ddyledwyr y Cyngor, Casglu ac Adfer. | 01/04/2015 | 31/08/2015 | Swyddog Incwm | Ar gyfer dyled a godwyd ers Ebrill 2014 mae hyn yn cael ei wneud. Ar gyfer dyledion hŷn nid yw penderfyniadau yn cydymffurfio a'r polisi. Adfer yn cael ei dargedu ar sail faint ac oed gyda'r nod o leihau'r dadansoddiad oedran gogwyddo tuag at ddyledion hŷn. |
| 29 | Mân – ddyledwyr | 3.4 Dylid cyflwyno'r gweithdrefnau | 14/04/2015 | 31/08/2015 | Swyddog | Mae gan yr holl ataliadau newydd ddyddiad |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1982.14/15 | canlynol er mwyn darparu rheolaethau ychwanegol dros atal cyfrifon:<br><br>- Dylid defnyddio'r cyfleuster yn CIVICA i osod terfynau amser priodol ar ataliadau ym mhob achos.<br><br>- Dylid cofnodi'r rheswm dros atal camau adennill yn y cyfleuster nodiadau ar y system.<br><br>- Dylai adroddiad ar yr holl ataliadau gael ei adolygu gan swyddog perthnasol yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod yr holl resymau dros ataliadau yn parhau i fod yn ddilys.<br><br>Dylid cadw dogfennaeth sy'n cefnogi ataliadau ar ffeil gan roi rheswm dros y penderfyniad i atal, gan gynnwys enw a llofnod y swyddog sy'n awdurdodi'r ataliad. | | | Incwm | gorffen. Mae rhestrau wedi cael eu llunio ar gyfer yr holl ataliadau eraill ac mae gwaith arnynt yn parhau naill ai i gael gwared ar yr ataliad, canslo anfonebau ac ati. Angen adolygu'r dyddiad targed oherwydd maint y gwaith. |
| 30 | Budd-daliadau Tai 1997.14/15 | 9.1 Fel y bwriadwyd, dylid cymryd camau i sicrhau bod y perfformiad o ran cywirdeb yn cyrraedd y targed a osodwyd o 99%. | 14/04/2015 | 30/06/2015 | Rheolwr Gweithrediadau | Mae ataliadau gyda "dyddiad gorffen" yn cael eu dileu'n otomatig gan y system. Mae'r rheini sydd yn dal i fod ar agor yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. |
| 31 | Bryn Trewan 1993.14/15 | 2 Dylid cyhoeddi anfonebau ar gyfer y flwyddyn gyfredol i'r rheini sy'n gyfrifol am dalu yn ôl chwiliad o'r gofrestrfa tir (ATODIAD B) | 05/06/2015 | 31/07/2015 | Swyddog Incwm | Gwnaed chwiliadau trwy'r Gofrestrfa Tir. Trefnir cyfarfod yn y Gwasanaeth Cyllid i gytuno ar ffordd ymlaen. |
| 32 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio 025 15/16 | 2.6 Dylai'r Adran Dreth Gyngor sicrhau bod adolygiad blynyddol yn cael ei gynnal ar bob eiddo gwag ac eiddo eithriedig a restrir ar y System Dreth Gyngor er mwyn sicrhau bod y system yn gywir, yn gyfredol a bod ffioedd wedi cael eu codi lle mae hynny'n | 16/12/2015 | 04/01/2016 | Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | angenrheidiol, gan gynnwys y disgresiwn i godi premiwm hyd at 100% o'r dreth gyngor safonol ar ail gartrefi petaent yn dymuno gwneud hynny yn y dyfodol. | | | | |
| 33 | Rheoli Fflyd a Gyrwyr 016.15/16 | 3.4a Dylai cyfrifoldeb am reoli'r contract tanwydd LPG gael ei egluro rhwng y Peiriannydd Gwasanaethau Adeiladu a'r Rheolwr Caffael. | 19/01/2016 | 31/03/2016 | Swyddog Caffael | |
| 34 | Rheoli Fflyd a Gyrwyr 016.15/16 | 3.4b Dylid cadarnhau cyfnod ymestyn y contract cyfredol rhwng yr Awdurdod a'r Weinyddiaeth Amddiffyn Fasnachol i gyflenwi tanwydd LPG. | 19/01/2016 | 31/03/2016 | Swyddog Caffael | Darparwyd y manylion hyd at 22/12/2015. |
| 35 | Y Dreth Gyngor 1987.14/15 | 4.2 Dylai cyfrifon ataliedig cael ei adolygu gan uwch swyddog yn rheoliadd a thystiolaeth ei gadw ar ffeil. | 13/05/2014 | 31/03/2014 newid i 30/09/2015 | Rheolwr Gweithrediadau | Wedi ei ail-adrodd o adroddiad archwilio 2013/14 (1921 13/14)<br>Mae ataliadau gyda 'dyddiadau diwedd' yn cael eu dileu yn awtomatig gan y system.<br>Mae'r rhai sy'n aros ar agor yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. |
| 36 | Y Dreth Gyngor 036.15/16 | 2.1 Dylid cysoni'n brydlon nifer y biliau Treth Gyngor a gynhyrchwyd yn unol â'r ffeiliau bilio a'r biliau a gyhoeddwyd yn ôl y doced post a gafwyd gan y contractwr. Dylai uwch swyddog lofnodi'r cysoniad i dystio i'r ffaith bod y gwiriad wedi ei wneud. | 30/03/2016 | 30/04/2016 | Rheolwr Gweithrediadau | |
| 37 | Y Dreth Gyngor 036.15/16 | 3.2c Dylai ffurflenni ar gyfer rhoi gwybod am statws deiliadaeth, meddiant sengl a newidiadau mewn amgylchiadau fod ar gael ar wefan y Cyngor / dylai gynnwys datganiad bod y wybodaeth a ddarperir yn gywir. | 30/03/2016 | 30/03/2016 | Goruchwyliwr refeniw | Mae integreiddio e-ffurflenni i system Northgate wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth yn y Cynllun Darparu Gwasanaeth – datblygwyd ffurflenni Victoria a bwriedir iddynt fod yn gwbl weithredol erbyn Mehefin 2016. |
| 38 | Trethi Cenedlaethol Annomestig (NDR) 037.15/16 | 2.1 Dylid cysoni'n brydlon nifer y biliau NDR a gynhyrchwyd yn unol â'r ffeiliau bilio a'r biliau a gyhoeddwyd yn ôl y doced post a gafwyd gan y contractwr. Dylai uwch swyddog | 30/03/2016 | 30/04/2016 | Rheolwr Gweithrediadau | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | lofnodi'r cysoniad i dystio i'r ffaith bod y gwiriad wedi ei wneud. | | | | |
| 39 | Prif Waith Cyfrifeg 1984 2014/15 | 6.1 Dylai'r gwaith cysoni bancio gael ei gynnal yn fisol ac yn brydlon o ddiwedd y mis perthnasol. Dylai cofnodiadau cysoniadau banc gael eu gwirio, eu hadolygu, eu llofnodi a'u dyddio gan uwch swyddog o fewn y Gwasanaeth Cyllid yn fisol er mwyn cadarnhau bod y gwaith cysoni wedi cael ei wneud yn unol â'r rheolaethau. | 16/06/2016 | 30/06/2016 - newid o 31/12/2015 | Rheolwr Cyfrifeg | |
| 40 | Prif Waith Cyfrifeg 040 2015/16 | 1.2.3 Dylid ymchwilio yn brydlon i eitemau yn y cyfrif 'dal' dros dro a'i glirio allan yn fisol. | 18/04/2016 | 31/05/2016 | Swyddog incwm | |
| 41 | Prif Waith Cyfrifeg 040 2015/16 | 2.1.2 Dylid cysoni Dyledwyr yn fisol. | 18/04/2016 | 31/05/2016 | Cyfrifydd CIVICA | |
| **Tai** | | | | | | |
| **42** | Digartrefedd 1868.14/15 | 2.1 Mae angen gwella agweddau allweddol ar weithdrefnau Digartrefedd er mwyn adlewyrchu'r pwyslais cynyddol ar atal digartrefedd.<br><br>Mae angen gwella Gweithdrefnau i:<br><br>- Adlewyrchu newidiadau gweinyddol gan gynnwys cyflwyno'r ffurflen asesu cyfunol newydd a System Orchard;<br><br>- Y defnydd o'r system ariannol CIVICA newydd;<br><br>- Cynnwys mwy o fanylion, ee gweinyddiaeth y Gronfa Atal Digartrefedd, gwarchod eiddo pobl ddigartref. | 28/01/2015 | 30/10/2015 | Prif Swyddog Tai | |
| 43 | Digartrefedd 1868.14/15 | 3.1 Dylid ailddyrannu'n ffurfiol ddyletswyddau allweddol y Swyddog Llety gan gynnwys trefnu arolygiadau | 28/01/2015 | 30/10/2015 | Prif Swyddog Tai | Fel rhan o Amodau Trwyddedu, archwilir llety Gwely a Brecwast gan yr Adran Iechyd yr Amgylchedd. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | blynyddol o adeiladau a ddefnyddir i ddarparu Gwely a Brecwast neu lety brys ar gyfer ymgeiswyr digartref. | | | | Gohiriwyd y weithred hon nes bod y Tîm Opsiynau Tai newydd wedi ei sefydlu - dyddiad cychwyn 10/08/2015 – mae'r weithred hon yn dod o fewn cylch gwaith y Swyddogion Datrysiadau (dal angen penodi i 1 swydd). Mae swyddogion yn derbyn hyfforddiant ar hyn o bryd.<br><br>Bydd y defnydd o lety Gwely a Brecwast yn awr yn cael ei ddylanwadu gan y meini prawf 'addasrwydd' fel y cyfeirir atynt yn Neddf Tai Cymru 2014, a ddaeth i rym 27/04/2015.<br><br>Mae'r gweithdrefnau a roddir ar waith gyda'r Rheolwr Opsiynau Tai i sicrhau cydymffurfiaeth yn cynnwys:<br><br>- Ffurfioli'r weithdrefn arolygu (arolygiadau blynyddol ac arferol)<br><br>- Creu cronfa ddata o'r holl lety Gwely a Brecwast a ddefnyddir i gynnwys disgrifiad o'r eiddo a'r ystafell a'r mwynderau a'r cyfleusterau sydd ar gael ym mhob llety. |
| 44 | Digartrefedd 1868.14/15 | 6.5 Dyliai rheolwyr ailgyflwyno gwiriadau ffurfiol i sicrhau bod pobl y dal i fyw mewn llety Gwely a Brecwast y telir amdano er mwyn sicrhau mai dim ond taliadau dilys a wneir. | 28/01/2015 | 30/10/2015 | Prif Swyddog Tai | Mae'n cynnwys archwiliadau rheolaidd o lety Gwely a Brecwast.<br><br>Nid yw'r agwedd hon ar reoli llety Gwely a Brecwast wedi cael sylw oherwydd pwysau staffio yn y tîm digartrefedd (fel yr oedd) a pharatoi ar gyfer gweithredu Deddf Tai (Cymru) 2014.<br><br>Mae'r weithred hon yn rhan o rôl y Tîm Opsiynau Tai sydd newydd gael ei alstrwythuro a bydd y dyletswyddau hyn yn cael eu rhoi i'r Swyddogion Datrysiadau o fewn y tîm. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 45 | Digartrefedd 1868.14/15 | 6.7a Dylid neilltuo'n ffurfiol y cyfrifoldeb am gynnal gwiriad systematig (a chymryd camau cywiro fel y bo angen) o'r holl daliadau Budd-dal Tai a wnaed i gyfrif daliannol y Cyngor drwy gyfeirio at y rhestr wythnosol o daliadau ac edrych ar y gronfa ddata o leoliadau Gwely a Brecwast.<br>Gellid cynnwys colofnau ychwanegol yn y gronfa ddata i gadw cofnod o ddyddiad cychwyn yr hawliad Budd-dâl Tai, swm y budd-dal a ddyfarnwyd, cost y llety, a'r dyddiad yr hysbyswyd yr Adain Budd-daliadau Tai bod y cleient wedi gadael y llety. | 28/01/2015 | 30/10/2015 | Prif Swyddog Tai | Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei weithredu gan y Tîm Opsiynau Tai.<br><br>Heb ei weithredu. |
| 46 | Bryn Trewan 1993.2014/15 | 4 Dylai'r Gwasanaeth adolygu'r cyfraddau cyfredol a phenderfynu a ddylid cynyddu'r cyfraddau a ailgodir yn unol â gwariant bob blwyddyn. | 05/06/2015 | 30/10/2015 | Rheolwr Gwasanaethau Technegol | |
| 47 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio 025.15/16 | 3.1b Dylai'r Adran Dai sicrhau bod modd cefnogi bob ffurflen flaenoriaethau gyda'r asesiad blaenoriaeth i ddangos y cafwyd asesiad teg a bod y penderfyniadau wedi'u dilysu. | 16/12/2015 | 31/12/2015 | Rheolwr Busnes | |
| 48 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio 025.15/16 | 4.2 Dylai'r Adran Dai sicrhau fod y cytundeb gyda Grŵp Cynefin yn cael ei adolygu a'i adnewyddu er mwyn sicrhau fod y cytundeb yn adlewyrchu gweithdrefnau cyfredol a bod y ddwy ochr yn cytuno â'r rhain. | 16/12/2015 | 31/03/2016 | Rheolwr Busnes | 12/4/2016 Heb ei adolygu fel y'i bwriadwyd erbyn 31[ain] o Fawrth 2015/16, ond caiff ei adolygu yn ystod chwarter cyntaf 2016/17. |
| 49 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio 025.15/16 | 6.1b Dylai cofnodion ar gyfer cynlluniau'r dyfodol / cynlluniau newydd gael eu cadw'n ganolog er mwyn sicrhau bod modd i'r holl staff perthnasol gael at wybodaeth i | 16/12/2015 | 31/03/2016 | Rheolwr Busnes | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | weithio'n lle staff sydd yn sâl / ar wyliau. | | | | |
| 50 | Tai Fforddiadwy, Troi Tai'n Gartrefi, Cynllun Benthyciadau Pontio 025.15/16 | 6.1c Dylai gwybodaeth ariannol am bob cynllun newydd fod ar gael i'r Adran Dai er mwyn ei monitro'n ariannol a/neu ei chysoni'n rheolaidd. | 16/12/2015 | 31/03/2016 | Rheolwr Busnes | |
| 51 | Strategaeth Dai 035 2015/16 | 1.2 Dylai Tai sicrhau bod y newidiadau sy'n dylanwadu ar Amcanion Corfforaethol yn codi o'r Strategaeth Dai yn cael eu cyfleu i randdeiliaid mewnol allweddol yn ogystal â phartneriaid allanol. | 04/05/2016 | 31/05/2016 | Swyddog Strategaeth Dai a Datblygu | |
| **Gwasanaethau Oedolion** | | | | | | |
| 52 | Oriau Gofal Cartref 1949.14/15 | 4.1 Dylid llunio cynllun manwl o sut y byddir yn cynnal y gostyngiad yn y Gwasanaeth er mwyn sicrhau bod modd i'r Uned gynllunio i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon o fewn y tair blwyddyn nesaf.<br><br>Dylid cofnodi gwaith adolygu oriau a sicrhau ei fod ar gael wrth ofyn amdano. | 13/08/2014 | 31/12/2014 wedi newid i 01/01/2016 | Rheolwr Busnes | Dylid adnabod dull gweithredu er mwyn rhoi sicrwydd mewn perthynas ag ansawdd gwasanaethau unwaith y caiff gwasanaethau gofal mewnol eu hallanoli. Gweithredu gwaith cipio data newydd / dangosyddion perfformiad allweddol / monitro contractau / prosesau talu gyda darparwyr.<br><br>Monitro parhaus ynghylch prosesau sicrwydd ansawdd, diogelu a pharhad gwasanaethau. Mae'r tasgau a ganlyn wedi'u hadnabod yn y cynllun prosiect er mwyn sicrhau y bydd yr uned yn gweithredu'n effeithiol ac effeithlon ac yn gweithio'n agos gyda'r darparwyr allanol fydd yn darparu'r gwasanaethau sy'n fewnol ar hyn o bryd.<br><br>Mae grŵp prosiect wedi'i sefydlu ac ar hyn o bryd mae'n cyfarfod bob pythefnos ac mae cynllun prosiect manwl wedi'i roi yn ei le. Mae cyfarfod ar y 23ain o Fehefin (2015) er mwyn gwerthuso opsiynau a bydd yn cynnwys adolygiad o'r holl oriau cyfredol a ddarperir gan ddarparwyr mewnol ac allanol o fewn pob bro |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | ar draws yr Ynys. |
| **Dysgu Gydol Oes** | | | | | | |
| 53 | Ysgol Cemaes 028 2015/16 | 4.1.1 Dylid sicrhau bod Incwm Prydau Ysgol yn cael eu cofnodi'n gywir o fewn cofrestr PY7, CT182a, CT183a a'r PY40 yn unol â chyfarwyddiadau'r Adran Addysg. Dylai'r cofrestrau prydau ysgol gael eu harwyddo gan yr unigolyn sy'n casglu'r arian, gogyfer cael tystiolaeth ysgrifenedig fod yr arian cywir wedi ei dderbyn a gan bwy. | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |
| 54 | Ysgol Cemaes 028 2015/16 | 4.1.3 Dylai'r ysgol ddilyn canllawiau'r Adran Addysg ar gasglu ôl-ddyledion incwm prydau ysgol ac ymgymryd â chamau buan i sicrhau nad ydynt yn codi i lefel na all y rhiant dalu. | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |
| 55 | Ysgol Cemaes 028 2015/16 | 4.2.1 Dylai'r ysgol gwblhau ffurflen hysbysu archeb o flaen llaw ym mhob achos, nid ar ôl derbyn yr anfoneb neu'r nwyddau. Mewn achos o argyfwng gellir rhoddi archeb ar lafar a rhyddhau archeb ysgrifenedig yn ystod y diwrnod gwaith nesaf. | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |
| 56 | Ysgol Cemaes 028 2015/16 | 4.2.2 Cyn talu unrhyw anfoneb dylid sicrhau bod y blychau perthnasol ar y ffurflen hysbysu archeb wedi'u cwblhau, yn unol â'r gweithdrefnau penodedig, i | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | dystiolaethu bod y profion rhag ardystiol priodol wedi'u cyflawni ac i gynnal trywydd archwilio. Yr unig eithriad yw mewn argyfwng neu waith sydd angen ei gwblhau a'i awdurdodi o fewn y diwrnod canlynol. | | | | |
| 57 | Ysgol Cemaes 028 2015/16 | 4.3.1 Dylai fod yr ysgol yn gweinyddu gosodiadau'r ysgol yn unol â chanllawiau Rheolau Gosod Ysgolion Sir drwy ddefnyddio gosodiadau a bod llogwr yn arwyddo'r ffurflen cyn llogi'r adeilad. | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |
| 58 | Ysgol Cemaes 028 2015/16 | 4.3.2 I dystio bod y llogwr yn ymwybodol o dermau gosod y Cyngor ac wedi cytuno â'r telerau, dylid sicrhau bod y sawl sy'n llogi'r adeilad yn dychwelyd y bonyn gwyn ar waelod y ffurflen wedi'i arwyddo i'r ysgol cyn caniatáu'r gosodiad. | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |
| 59 | Ysgol Cemaes 028 2015/16 | 4.3.4 Dylid sicrhau bod yr ysgol yn sefydlu ffioedd gogyfer llogi'r ysgol a bod y ffioedd hyn yn cael eu mabwysiadu gan gorff llywodraethol yr ysgol. | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |
| 60 | Ysgol Cemaes 028 2015/16 | 4.3.5 Ni ddylid bancio incwm am logi'r ysgol i gronfa'r ysgol, dylid nodi incwm gosodiadau ynghyd â bancio megis incwm arian cinio ar ffurflen CT202 | 04/01/2106 | 31/01/2016 | Pennaeth | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | "Ffurflen Bancio Dadansoddiad Incwm Girobank i Ysgolion". | | | | |
| 61 | Ysgol Cemaes 028 2015/16 | 4.4.1 Dylid sicrhau bod cyfrifon y gronfa yn cael eu harchwilio'n flynyddol yn unol â "Canllawiau i Lywodraethwyr a Phrifathrawon ar Reolaeth Cronfeydd Ysgol" a'u cyflwyno gerbron y Corff Llywodraethol. | 04/01/2016 | 31/01/2016 | Pennaeth | |
| 62 | Ysgol Gynradd Bodedern 029 2015/16 | 5.5.1 Dylid sicrhau bod ffurflenni adolygiad tâl athrawon yn cael eu hanfon ymlaen yn brydlon i'r Tîm Contractau a Phensiynau. | 29/02/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | |
| 63 | Ysgol Gynradd Bodedern 029 2015/16 | 5.7.1 Mae angen i'r ysgol gofrestru gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998. | 29/02/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | |
| 64 | Ysgol Gynradd Bodedern 029 2015/16 | 5.8.1 Dylid llunio Polisi CCTV a sicrhau bod y system yn cyrraedd gofynion statudol cyfredol. Dylid cynnwys yn ogystal yr angen am asesiad blynyddol o berfformiad yr offer. | 29/02/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | |
| 65 | Ysgol Talwrn 029 2015/16 | 4.3.1 Dylid sicrhau bod derbynneb yn cael ei llenwi'n gywir a'i llofnodi gan yr | 15/03/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | aelod o staff sy'n derbyn yr incwm a'i rhoi i'r talwr wrth ei dderbyn. | | | | |
| 66 | Ysgol Talwrn 029 2015/16 | 4.6.1 Dylid llunio asesiad risg ar gyfer y risgiau sydd ynghlwm ag ymateb i'r larwm diogelwch pan fo'n canu. | 15/03/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | |
| 67 | Ysgol Talwrn 029 2015/16 | 4.7.1 Dylid sicrhau bod profion o'r larwm tân yn cael eu cynnal a'u cofnodi'n wythnosol yn ddi-ffael, yn cynnwys yn ystod absenoldeb y Pennaeth. | 15/03/2016 | 31/03/2016 | Pennaeth | |
| 68 | Ôl-ddyledion Prydau Ysgol - Adolygiad Thematig (Ysgol Parch.Thomas Ellis) 047 2015/16 | 1.5 Dylai'r Pennaeth gwblhau gwiriadau goruchwylio manwl o gofnodion prydau ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn gywir yn unol ag arweiniad y Gwasanaeth Addysg. | 21/04/2016 | 30/04/2016 | Pennaeth | |
| 69 | Ôl-ddyledion Prydau Ysgol - Adolygiad Thematig (Ysgol Parch.Thomas Ellis) 047 2015/16 | 4.4 Dylai'r Pennaeth sicrhau bod yr ysgol yn dilyn gweithdrefnau'r Gwasanaeth Addysg ar gyfer delio ag ôl-ddyledion prydau ysgol er mwyn sicrhau bod ôl-ddyledion yn cael eu rheoli'n effeithiol ac na chaniateir iddynt gynyddu i lefel broblemus. | 21/04/2016 | 30/04/2016 | Pennaeth | |
| 70 | Ôl-ddyledion Ysgol Prydau Bwyd - Adolygiad Thematig (Ysgol Llanfawr) 047 2015/16 | 1.3b Dylai'r Pennaeth gwblhau gwiriadau goruchwylio manwl o gofnodion prydau ysgol er mwyn sicrhau eu bod yn gyflawn ac yn gywir yn unol ag arweiniad y | 21/04/2016 | 31/05/2016 | Pennaeth | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwasanaeth Addysg. | | | | |
| 71 | Ôl-ddyledion Ysgol Prydau Bwyd - Adolygiad Thematig (Ysgol Llanfawr) 047 2015/16 | 4.1 Dylai'r Pennaeth sicrhau bod yr ysgol yn dilyn gweithdrefnau'r Gwasanaeth Addysg ar gyfer delio ag ôl-ddyledion prydau ysgol er mwyn sicrhau bod ôl-ddyledion yn cael eu rheoli'n effeithiol ac na chaniateir iddynt gynyddu i lefel broblemus. | 21/04/2016 | 31/05/2016 | Pennaeth | |
| 72 | Ôl-ddyledion Ysgol Prydau Bwyd - Adolygiad Thematig (Ysgol Kingsland) 047 2015/16 | 4.1 Dylai'r Pennaeth sicrhau bod yr ysgol yn dilyn gweithdrefnau'r Gwasanaeth Addysg ar gyfer delio ag ôl-ddyledion prydau ysgol er mwyn sicrhau bod ôl-ddyledion yn cael eu rheoli'n effeithiol ac na chaniateir iddynt gynyddu i lefel broblemus. | 21/04/2016 | 31/05/2016 | Pennaeth | |
| 73 | Ysgol Llanerchymedd 058 2016/17 | 4.2.1 Dylid sicrhau fod yr ysgol yn codi anfoneb gogyfer adfer costau llogi'r ysgol gan y Pwyllgor Cymuned yn rheolaidd. | 10/05/2016 | 31/05/2016 | Pennaeth | |
| 74 | Ysgol Llanerchymedd 058 2016/17 | 4.2.2 Dylid sicrhau fod taliadau gan y Cyngor Cymuned am hurio'r ysgol yn cael ei dalu i'r Cyngor yn hytrach nag i gronfa'r ysgol gan mai incwm y Cyngor ydyw ac nid yr ysgol. | 10/05/2016 | 31/05/2016 | Pennaeth | |
| 75 | Ysgol Llanerchymedd 058 2016/17 | 4.11.1 Dylai'r ysgol sicrhau fod cofnodion yn cael eu diweddaru'n flynyddol a bod pob aelod o staff yn cwblhau "Datganiad i Yrwyr Cerbydau Preifat neu'r Cyngor". | 10/05/2016 | 31/05/2016 | Pennaeth | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 76 | Ysgol Llanfair PG 057 2016/17 | 4.5.1 Dylai'r ysgol sicrhau fod cofnodion yn cael eu diweddaru'n flynyddol a bod pob aelod o staff yn cwblhau "Datganiad i Yrwyr Cerbydau Preifat neu'r Cyngor". | 15/06/2016 | 30/06/2016 | Pennaeth | |
| 77 | Ysgol Esceifiog 055 2016/17 | 4.1.1 Gan edrych i'r dyfodol, dylai'r ysgol gwblhau'r archeb o flaen llaw ym mhob achos, nid ar ôl derbyn yr anfoneb neu'r nwyddau. Mewn achos o argyfwng gellir rhoddi archeb ar lafar a rhyddhau archeb ysgrifenedig yn ystod y diwrnod gwaith nesaf. | 16/06/2016 | 30/06/2016 | Pennaeth | |
| 78 | Dilyniant i Archwiliadau Ysgolion (Ysgol Bodorgan) 050 2015/16 | 3.1.6 Dylid sicrhau bod y cofnod misol CT182a yn cael ei gwblhau'n gywir a'i arwyddo gan y Pennaeth ar ôl y bancio diwethaf i gadarnhau cywirdeb y wybodaeth. | 15/06/2016 | 30/06/2016 | Pennaeth | |
| 79 | Dilyniant i Archwiliadau Ysgolion (Ysgol Bodorgan) 050 2015/16 | 3.1.18 Dylid sicrhau bod cyfansoddiad y Corff Llywodraethu yn bodloni gofynion yr Offerennau Statudol perthnasol. | 15/06/2016 | 30/06/2016 | Pennaeth | |

**ATODIAD E**

# RHESTR O ARCHWILIADAU DILYN I FYNY

| | Disgrifiad | Archwiliwr | Dyddiad yr Archwiliad | Dyddiad Dilyn i Fyny | Nifer yr Argymhellion | Argymhellion sy'n parhau i fod angen sylw ac ar y gweill | Uchel | Canolig | Isel | Barn Archwilio Wreiddiol | Barn Archwilio Ddiwygiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Argymhellion Ysgolion – Ysgol Pentraeth Dilyn i Fyny | NA | Mawrth 15 | Mehefin 16 | 11 | 6 (3 Ar y Gweill) | 0 | 6 | 0 | Rhesymol | Rhesymol |
| 2 | Argymhellion Ysgolion – Ysgol Henblas Dilyn i Fyny | NA | Medi 14 | Mehefin 16 | 5 | 2 (Ar y Gweill) | 0 | 1 | 1 | Sylweddol | Sylweddol |
| 3 | Argymhellion Ysgolion – Ysgol Bodorgan Dilyn i Fyny | NA | Awst 15 | Mehefin 16 | 19 | 7 | 0 | 6 | 1 | Rhesymol | Rhesymol |
| 4 | Fframwaith Rheoli Risg – Dilyn i Fyny | SAJ | Medi 15 | Mehefin 16 | 3 | 1 | 0 | 1 | 0 | Rhesymol | Rhesymol |
| 5 | Mân-ddyledwyr Dilyn i Fyny | EWP | Ebrill 15 | Mehefin 16 | 18 | 9 (3 Ar y Gweill) | 0 | 6 | 3 | Cyfyngedig | Cyfyngedig |

**CRYNODEB O YMCHWILIADAU ARBENNIG – 1 EBRILL 2016 I 30 MEHEFIN 2016**

| Rhif y Dasg | Math o Ddigwyddiad | Nifer y Dyddiau | Sylwadau / Canlyniad |
|---|---|---|---|
| 055.16/15 | Dwyn arian, lladrad, Ysgol Llannerch-y-medd | 7.36 | Lladrad yn Ysgol Llannerch-y-medd wedi i rywun ddwyn y goriadau i'r neuadd gymunedol ac ystafell y Mudiad Meithrin o gartref un o drefnwyd y Mudiad. Dim colled ariannol i'r awdurdod ond cafodd dros £500.00 ei ddwyn gan y Mudiad. Mae'r Heddlu wedi cwblhau eu hymchwiliadau ond neb wedi eu hamau o gyflawni'r drosedd. Rhoddwyd cyngor i bennaeth yr ysgol ynghylch diogelu'r ysgol a'i chynnwys. Y gofalwr, y pennaeth a'r deiliad goriadau swyddogol yn unig sydd yn cadw'r goriadau i ran gymunedol yr ysgol yn awr. |
| 052. 15/16 | Cyfeiriad ynghylch Taflen Amser – Cludiant Cymunedol Môn (MCT) | 4.73 | Cafwyd cyfeiriad gan yr Adran Priffyrdd ac Eiddo ynglŷn â'r posibilrwydd fod aelod o staff MCT yn ffugio ei daflenni amser er elw ariannol. Yn ôl yr ymchwiliadau, canfuwyd bod yr aelod o staff efallai wedi codi nifer ei oriau ond nid oedd wedi mynd y tu draw i'r oriau contract yr oedd yn derbyn tâl amdanynt beth bynnag, ac o'r herwydd nid oedd unrhyw golled ariannol droseddol i'r Awdurdod. Efallai bod problemau rheoli ac mae'r Adran Briffyrdd ac Eiddo wrthi'n rhoi sylw iddynt. Mae ymchwiliad arall hefyd wrthi'n cael ei gynnal ynghylch perthnasau staff ac mae'r adran ac AD wrthi'n delio gyda'r mater hwn. Mae'r ffeil yn parhau i fod ar agor hyd oni fydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau. |
| | Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio (RIPA) – ymchwil i weithdrefnau ac ati | 1.22 | Ymchwil i'r amryfal faterion yn ymwneud â RIPA cyn y cyfarfod gyda swyddogion awdurdodedig eraill. |
| | Derbynebion am Geisiadau Cynllunio | 2.43 | Codwyd pryderon bod slipiau cydnabod yn cael eu rhoddi yn lle derbynebion yn yr Adran Gynllunio. Mae ymholiadau wedi cadarnhau bod yr arian a dderbyniwyd yn dilyn rhannu slipiau o'r fath wedi cael ei gofnodi a'i fancio'n gywir. Rhoddwyd cyngor y dylai derbynebion swyddogol gael eu rhoddi yn y dyfodol. |
| | Adroddiad Atal Trosedd mewn Ysgolion Cynradd | 3 | Yn dilyn nifer o achosion o ladrad/colli arian mewn Ysgolion Cynradd, mae gwerthusiad atal trosedd ac arfer dda wrthi'n cael ei gynnal, gyda golwg ar ddarparu adroddiad ar gyfer yr Adran Addysg yn amlinellu'r gwelliannau a'r arferion da y gallai Ysgolion Cynradd yr Awdurdod eu hystyried. |
| | Rhaid eraill sy'n mynd rhagddynt/parhaus HB/CTR, RIPA, NFI | 16 | |
| **CYFANSWM DYDDIAU** | | **37.74** | |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

Atodiad F

**CRYNODEB O YMCHWILIADAU ARBENNIG – 1 EBRILL 2016 I 30 MEHEFIN 2016**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| **DYDDIAD:** | **25 Gorffennaf 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **PRYDERON, CWYNION A CHWYTHU CHWIBAN 2015-2016** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Sicrwydd ar gydymffurfiaeth â pholisi** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Swyddog Monitro** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Swyddog Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol Est. 2588 bjxcs@ynysmon.gov.uk** |

**PRYDERON A CHWYNION**

**Cyflwyniad a Chrynodeb**

1. Cynhyrchir yr adroddiad hwn er mwyn darparu gwybodaeth ar faterion a godwyd o dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2015 – 31 Mawrth 2016. Am y tro cyntaf, mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys crynodeb lefel uchel o faterion chwythu chwiban a nodwyd ar gyfer yr un cyfnod.

2. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol ond dim ond y rhai hynny lle nad yw'r achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth. Bydd cwynion defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu delio â nhw fel rhan o'r Polisi Gwasanaethau Cymdeithasol – Gweithdrefn Sylwadau a Chwynion ar gyfer Plant ac Oedolion. Adroddir yn ôl ar y rhain yn flynyddol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

3. Gall cwynion ddarparu gwybodaeth werthfawr am y ffordd yr ydym yn perfformio, barn defnyddwyr am ein gwasanaethau, sut y gellir gwella ac ar beth y dylid canolbwyntio.

4. Yn ystod y cyfnod dan sylw, cofnodwyd 261 o bryderon a derbyniwyd 59 o gwynion ffurfiol. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn diffinio pryder fel mynegiant o anfodlonrwydd y gellir ei ddatrys 'yn y fan a'r lle' yn ystod y pwynt cyswllt cyntaf neu yn fuan wedi hynny. Fel arfer, mae cwyn yn rhywbeth sydd â natur fwy difrifol, efallai na fydd modd adfer y sefyllfa ac yn gyffredinol bydd angen ymchwilio i'r amgylchiadau cyn y gellir rhoi ymateb neu ddatrys y sefyllfa.

5. Mae nifer y cwynion a dderbyniwyd wedi disgyn i 59, o 65 yn 2014-15 a 66 yn 2013-14. Y nifer uchaf o gwynion a gafwyd ers dechrau cadw ystadegau oedd 89 o gwynion a gofnodwyd yn unol â'r Polisi yn 2011-12.

6. Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth am gwynion bob mis.

7. Mae graddfa gyffredinol ymateb i gwynion, o fewn y cyfyngiad amser penodol (20 diwrnod gwaith), yn 70%. Pan fydd ymatebion yn hwyr, disgwylir i wasanaethau anfon 'ymateb

dros dro' i'r achwynydd er mwyn eu hysbysu am y cynnydd ac er mwyn egluro'r rhesymau am yr oedi.

8. O'r 59 o gwynion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod, cafodd 10 eu cadarnhau'n llawn, cafodd 6 eu cadarnhau'n rhannol ac fe gafodd 43 eu gwrthod. Cyfeiriwyd 5 cwyn at yr Ombwdsmon ond ni dderbyniwyd unrhyw un ohonynt ar gyfer ymchwiliad.

**Crynodeb o'r Pryderon a'r Cwynion yn ôl Gwasanaeth ar gyfer 2015-2016**

| Gwasanaeth | Nifer y pryderon | Nifer y cwynion | Nifer y cwynion a gafodd eu cadarnhau / eu cadarnhau'n rhannol | Nifer yr ymatebion hwyr |
|---|---|---|---|---|
| Adran Prif Weithredwr | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Yn cynnwys mwy nag un gwasanaeth | 0 | 2 | 0 | 1 |
| Cyllid | 11 | 16 | 2 wedi'u cadarnhau a 3 wedi'u cadarnhau'n rhannol | 8 |
| Priffyrdd | 1 | 4 | 1 wedi'i chadarnhau'n rhannol | 1 |
| Tai | 12 | 9 | 4 wedi'u cadarnhau a 2 wedi'u cadarnhau'n rhannol | 3 |
| Hamdden | 5 | 1 | 1 | 0 |
| Cyfreithiol | 0 | 1 | 0 | 0 |
| Dysgu Gydol Oes* | 10 | 2 | 1 | 0 |
| Cynllunio | 15 | 8 | 0 | 1 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 0 | 4 | 0 | 0 |
| Rheoli Gwastraff | 207 | 11 | 2 | 4 |
| **Cyfanswm** | **261** | **59** | **16** | **18** |

* Ac eithrio ysgolion

9. Mae'r Cyngor hefyd yn cofnodi'r canmoliaethau a dderbynnir, cofnodwyd 561 yn ystod y cyfnod perthnasol. Yn ogystal, derbyniwyd 2059 o sylwadau cadarnhaol yn yr Oriel a 513 ym Mharc Gwledig y Morglawdd.

**Crynodeb o'r Canmoliaethau yn ôl Gwasanaeth ar gyfer 2015-2016**

| **Gwasanaeth** | **Canmoliaeth** |
|---|---|
| Datblygiad Economaidd | 3 |
| Addysg | 46 |
| Cyllid | 2 |
| Priffyrdd | 48 |
| Tai | 18 |
| Hamdden | 4 |
| Cynllunio | 145 |
| Gwarchody Cyhoedd | 264 |
| Rheoli Gwastraff | 31 |
| Gwasanaethau Mewnol | |
| Adnoddau Dynol | 49 |
| TGCh | 137 |
| **Cyfanswm** | **747** |

10. **Gwersi a Ddysgwyd**

Mae'r Polisi Pryderon a Chwynion yn rhoi pwyslais ar ddysgu gwersi o gwynion a gwella gwasanaethau o ganlyniad. Cafodd y materion a nodwyd isod eu hadnabod fel gwersi a ddysgwyd ond doedd dim angen rhoi cynlluniau gweithredu ffurfiol ar waith o ganlyniad i unrhyw un ohonynt:-

- Amseroedd ymateb cyflymach i ymholiadau cychwynnol a llythyrau (Cyllid)
- Atgoffa staff am safonau gwasanaethau cwsmer a'r angen i sicrhau bod yr holl achosion yn parhau i gael eu delio â nhw petai staff yn absennol (Tai)
- Angen hyfforddiant a sgriptiau dwyieithog ar gyfer Canolfannau Treftadaeth

Cafodd mân faterion systemau a hyfforddiant hefyd eu hadnabod ac mae'r rhain wedi cael eu delio â nhw ar lefel gwasanaeth.

## 11. Cwynion i'r Ombwdsmon

Mae gan y Polisi Pryderon a Chwynion, fel ei drydydd cam, yr opsiwn i gyfeirio'r gŵyn at yr Ombwdsmon os yw'r achwynydd yn dal i fod yn anfodlon ag ymateb y Cyngor.

Yn ystod 2015/16, cyfeiriwyd 5 cwyn at yr Ombwdsmon ond, ar ôl edrych ar y cwynion ac ymatebion y Cyngor, penderfynodd yr Ombwdsmon beidio ag ymchwilio i'r cwynion. Roedd y cwynion hyn yn berthnasol i'r Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

## 12. Cwynion yn erbyn Aelodau Etholedig

Bydd unrhyw gŵyn yn erbyn aelod etholedig yn seiliedig ar achos neu achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad Aelodau gyda'r Ombwdsmon yn gweithredu awdurdodaeth 'hidliad cyntaf' (e.e. asesu teilyngdod).

Yn ystod 2015/16, derbyniwyd 2 gŵyn o'r fath. Ni ymchwiliwyd i un o'r cwynion ac mae'r gŵyn arall yn cael ei hymchwilio iddi ar hyn o bryd.

Yn ychwanegol at hynny, roedd 4 o gwynion wedi eu cario o 2014/15:-

- un apêl yn erbyn penderfyniad gan Dribiwnlys Achos Panel Dyfarnu Cymru a arweiniodd at gosb;
- ymchwiliwyd i ddwy gŵyn ond daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd angen unrhyw gamau pellach;
- cafodd un ymchwiliad ei ddechrau ond daethpwyd ag ef i ben ychydig yn ddiweddarach.

## 13. Cwynion yn ymwneud ag iaith

Derbyniwyd un cwyn yn ystod y flwyddyn. Caiff y gŵyn hon ei chofnodi o dan y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes. Cofnodir hi hefyd ym mharagraff 10 o dan "Gwersi a Ddysgwyd".

Roedd y gŵyn yn ymwneud ag aelod o staff mewn safle treftadaeth yn siarad Saesneg â grŵp o ymwelwyr lle mai Cymraeg oedd eu dewis iaith. Mae'r mater wedi'i ddelio ag ef. Mae sgript ddwyieithog wedi'i chynhyrchu ac mae staff bellach wedi'u hyfforddi ac yn hyderus wrth gyflwyno gwybodaeth yn newis iaith eu cynulleidfa.

**CHWYTHU CHWIBAN**

14. Mae Polisi Chwythu Chwiban y Cyngor wedi'i gynllunio er mwyn annog a galluogi gweithwyr i godi'r pryderon hynny, sy'n dod o fewn cwmpas y Polisi, heb fod ofn cael eu herlid neu eu gwahaniaethu yn eu herbyn. Chwythu chwiban yw'r term poblogaidd a ddefnyddir pan fydd aelod o staff (sy'n cynnwys contractwyr ond nad yw'n ymwneud â'r cyhoedd neu aelodau etholedig) yn codi pryderon am dwyll, trosedd, perygl neu risg difrifol a allai fygwth y cyhoedd, eu cydweithwyr neu enw da'r Cyngor.

15. Mae dogfen Canllawiau ar Chwythu'r Chwiban hefyd wedi'i chyhoeddi er mwyn cefnogi staff i godi unrhyw bryderon yn ymwneud â Chwythu'r Chwiban.

16. Dyma'r tro cyntaf mae Chwythu'r Chwiban wedi'i adrodd arno'n gorfforaethol, ac mae lefel y wybodaeth sy'n cael ei darparu wedi'i chytuno arni gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Cydnabyddir y gallai'r broses ddatblygu dros amser (yn enwedig o ran casglu gwybodaeth ac adrodd yn ôl arni) ond, oherwydd natur sensitif materion o'r fath a goblygiad cyfreithiol y Cyngor i amddiffyn y rhai sy'n Chwythu'r Chwiban, dim ond gwybodaeth gyfyngedig a ddatgelir byth.

**Crynodeb o'r Cwynion Chwythu Chwiban yr Adroddwyd arnynt gan Wasanaethau ar gyfer 2015-16**

| Dyddiad codi'r mater | Math o ddatgeliad / Adroddwyd i | Natur y pryder | Ymchwiliad | Canlyniad | Gwersi a ddysgwyd/unrhyw drefniadau newydd | Canlyniad au wedi'u hadrodd yn ôl i'r chwythwr chwiban? |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7.7.15 | Lefel gyntaf* – rhoddwyd gwybod i'r Pennaeth Gwasanaeth (Oedolion) | Arferion gwaith yn un o Gartrefi Preswyl y Cyngor | Oedd | Cadarnhawyd y mater gwreiddiol tra cafodd y materion eilaidd eu hystyried ond eu gadael i ddatrysiad lleol | Camau wedi'u cymryd i sicrhau y glynir wrth unrhyw bolisïau mewn perthynas â gweithwyr wrth gefn bob amser | Do |
| 21.9.15 | Lefel gyntaf* – rhoddwyd gwybod i'r Swyddog Monitro | Methu â dilyn proses mewn perthynas â gwaredu ased. | Oedd | Ataliwyd y gwarediad. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fel eitem "Rhan 2". | Disgwyl Adroddiad Archwilio mewnol ond diwygiwyd y Canllawiau ar y Cod Ymddygiad i Swyddogion | Do |
| 1.12.15 | Lefel gyntaf* –rhoddwyd | Materion cydymffurfia | Oedd | Rhoddwyd gwybod i'r | Cyllid ychwanegol | Do |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | gwybod i'r Swyddog Monitro | eth a safonau o fewn gweithdrefn au | | UDA. Cynllun gweithredu er mwyn ymateb i bryderon. Rhoddwyd gwybod i Aelodau. | wedi'i glustnodi a Chynllun Gweithredu ar y gweill ac wedi'i dynnu at sylw Aelodau. | |
| 24.03.16 | Lefel gyntaf* – rhoddwyd gwybod i'r Swyddog Monitro | Honiad o gamddefnyd dio proses | O dan ymchwiliad | Anhysbys ar hyn o bryd | Anhysbys ar hyn o bryd | Ddim eto |

* Ystyr datgeliad lefel gyntaf yw rhywbeth yr adroddwyd arno o fewn y Cyngor, yn wahanol i ddatgeliad ail lefel (i Reolyddion) neu ddatgeliad trydydd lefel (i'r cyfryngau).

17. **Penderfyniad / Argymhelliad**

- Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod yr adroddiad hwn yn darparu sicrwydd rhesymol fod y Cyngor yn cydymffurfio â'i bolisi Pryderon a Chwynion a'i Bolisi Chwythu Chwiban.

- Mae'r Pwyllgor yn cytuno bod swyddogion yn ymgymryd â gwaith pellach er mwyn sicrhau y bydd y broses yn canolbwyntio fwy ar:-

  - sicrhau'r gwersi a ddysgwyd a newidiadau sy'n codi o ganlyniad ac a weithredir gan y Gwasanaethau;

  - dadansoddi'r data corfforaethol cyffredinol a defnyddio'r wybodaeth yn y ffordd orau;

  - asesu os oes rôl gyfochrog a rôl ategol i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol allu ystyried unrhyw batrymau sy'n codi.

LB
6/7/2016

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **25 GORFFENNAF 2016** |
| **PWNC:** | **ADOLYGIAD BLYNYDDOL AR REOLI TRYSORLYS AM 2015/16** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD H E JONES** |
| **SWYDDOG(ION) ARWEINIOL:** | **R MARC JONES** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **CLAIRE KLIMASZEWSKI/ELFED ROBERTS (EST. 1865/2608)** |

**Natur a rheswm am adrodd**

Cydymffurfio a'r rheoliadau a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a chyda Cynllun Dirprwyo'r Cyngor ar gyfer Materion Trysorlys am y cyfnod 2015/16 (Atodiad 8 o Ddatganiad Rheoli Trysorlys 2015/16). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ac yna i'r Cyngor lawn yn dilyn ei sgriwtineiddio gan y Pwyllgor hwn.

**Crynodeb**

Mae'n rhaid i'r Cyngor hwn, yn unol â rheoliadau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, gynhyrchu adolygiad blynyddol ar reoli trysorlys yn adlewyrchu gweithgareddau Rheoli Trysorlys a'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol am 2015/16. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion côd ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côd) a Chôd Pwyllog CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Y Côd Pwyllog).

Yn ystod 2015/16, y gofynion lleiaf ynglŷn ag adrodd yn ôl oedd bod y Cyngor llawn yn derbyn yr adroddiadau canlynol:-

- Strategaeth flynyddol y trysorlys o flaen y flwyddyn (a dderbyniwyd ar 26 Chwefror 2016);
- Adroddiad diweddaru canol y flwyddyn ar y trysorlys a dderbyniwyd ar 10 Mawrth 2016);
- Adroddiad blynyddol ar ôl y flwyddyn ac yn disgrifio'r gweithgaredd o'i gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Mae'r amgylchedd rheoleiddiol yn rhoi'r cyfrifoldeb i Aelodau i adolygu a sgriwtineiddio polisi a gweithgareddau rheoli trysorlys. O'r herwydd, mae'r adroddiad hwn yn bwysig gan ei fod yn darparu manylion am y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac mae'n tynnu sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Mae'r Cyngor hwn yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio gyda'r gofynion o dan y Côd i'r Pwyllgor Archwilio sgriwtineiddio'r holl adroddiadau rheoli trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn.

Er mwyn cefnogi rôl sgriwtini aelodau'r Pwyllgor Archwilio cafwyd hyfforddiant i aelodau ar faterion rheoli trysorlys yn ystod mis Gorffennaf 2014 a bydd cwrs gloywi'n cael ei gynnal yn ystod 2016.

Yn ystod 2015/16, cydymffurfiodd y Cyngor â'r anghenion deddfwriaethol a rheoleiddiol. Mae'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol allweddol sy'n manylu ar effaith gweithgareddau cyfalaf yn ystod y flwyddyn gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

| Data ar gyfer **Dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol** | **2014/15 Gwirioneddol £000** | **2015/16 Gwreiddiol £000** | **2015/16 Gwirioneddol £000** |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf<br>• Dim-CRT<br>• CRT<br>• Cyfanswm | <br>15,769<br>5,518<br>21,287 | <br>15,520<br>8,590<br>24,110 | <br>16,369<br>27,607<br>43,976 |
| Cyfanswm Gofyniad Cyllido Cyfalaf<br>• Dim-CRT<br>• CRT<br>• Cyfanswm | <br>85,926<br>22,650<br>108,576 | <br>92,787<br>43,836<br>136,623 | <br>84,297<br>43,360<br>127,657 |
| Benthyca Gros | 89,590 | 126,000 | 110,744 |
| Dyled Allanol | 89,590 | 165,000 | 110,744 |
| Buddsoddiadau *<br>• Mwy na blwyddyn<br>• O dan flwyddyn<br>• Cyfanswm | <br><br>10,983<br>10,983 | | <br>-<br>16,210<br>16,210 |

Gellir gweld dangosyddion pwyllog a thrysorlys eraill ym mhrif gorff yr adroddiad hwn. Mae'r Swyddog Adran 151 hefyd yn cadarnhau y benthycwyd arian i bwrpas cyfalaf yn unig ac na chafodd y terfynau benthyca statudol (y terfyn awdurdodedig), eu torri.

Gwelwyd yr un amgylchedd heriol yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16 â'r blynyddoedd cynt, sef dychweliadau isel ar fuddsoddiadau.

**Argymhellion**

Argymhellir bod y Pwyllgor yn:-

**(i)** Nodi bod y ffigyrau canlyniad yn yr adroddiad hwn yn parhau dros dro hyd nes bydd archwiliad y Datganiad Cyfrifon 2015/16 wedi ei gwblhau a'i lofnodi; bydd unrhyw addasiadau arwyddocaol i'r ffigyrau sy'n gynwysiedig yn yr adroddiad hwn yn cael eu hadrodd fel yn briodol;
**(ii)** Nodi'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys dros dro ar gyfer 2015/16 yn yr adroddiad hwn;
**(iii)** Ystyried yr adroddiad rheoli trysorlys blynyddol am 2015/16 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith nesaf gydag unrhyw sylwadau.

**Atodiadau:**

Atodiad 1 - Crynodeb o Werth y Portffolio ar 31 Mawrth 2016
Atodiad 2 - Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Mawrth 2016
Atodiad 3 - Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 15 Gorffennaf 2016
Atodiad 4 - Yr Economi a Graddfeydd Llog – Sylwebaeth gan Capita Asset Services

**Papurau Cefndirol:**

Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys 2015/16
Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys am 2015/16
Adroddiad ar yr Adolygiad Canol Blwyddyn o Reoli Trysorlys 2015/16

## 1. CYFLWYNIAD

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ac yn crynhoi'r swyddogaethau/gweithgareddau/ canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2015/16:-

- Gweithgaredd Cyfalaf;
- Effaith y gweithgaredd hwn ar ddyled waelodol y Cyngor (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf);
- Y dangosyddion pwyllog a thrysorlys gwirioneddol;
- Sefyllfa gyffredinol y trysorlys gan nodi sut y mae'r Cyngor wedi benthyca mewn perthynas â'r ddyled hon a'r effaith ar falansau buddsoddi;
- Crynodeb o symudiadau'r gyfradd log am y flwyddyn;
- Gweithgareddau manwl o ran dyledion; a
- Gweithgareddau buddsoddi manwl.

## 2. GWARIANT AC ARIANNU CYFALAF Y CYNGOR 2015/16

**2.1** Mae'r Cyngor yn ymgymryd â gwariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Fe all y gweithgareddau hyn fod naill ai:-

- Wedi eu cyllido ar unwaith trwy ddefnyddio adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau refeniw ac ati) nad ydynt yn cael effaith ar angen y Cyngor i fenthyca; neu

- Wedi eu cyllido trwy fenthyca: gallai hynny fod trwy fenthyca wedi ei gynllunio neu fel arall. Os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os gwneir penderfyniad i beidio defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn creu'r angen i fenthyca.

**2.2** Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn ffurfio un o'r dangosyddion pwyllog sydd eu hangen. Mae'r tabl isod yn dangos gwariant cyfalaf gwirioneddol a sut y cafodd ei ariannu.

| | 2014/15 Gwirioneddol (£m) | 2015/16 Amcangyfrif (£m) | 2015/16 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Gwariant Cyfalaf heb fod yn CRT | 16 | 15 | 16 |
| Gwariant Cyfalaf CRT | 5 | 9 | 28 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **21** | **24** | **44** |
| Wedi ei gyllido yn y flwyddyn y tu allan i'r CRT: | 11 | 8 | 18 |
| Wedi ei gyllido gan y CRT yn y flwyddyn | 5 | 6 | 3 |
| Gwariant Cyfalaf heb ei gyllido – tu allan i'r CRT | **5** | **10** | **2** |
| **Gwariant Cyfalaf CRT a gafodd ei gyllido drwy fenthyciad** | **0** | **0** | **21** |

## 3. ANGEN CYFFREDINOL Y CYNGOR I FENTHYCA

**3.1** Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthyca ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r CFR yn deillio o weithgaredd cyfalaf y Cyngor a pha adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2015/16 a ariannwyd drwy fenthyca (gweler y tabl uchod), a gwariant cyfalaf a ariannwyd drwy fenthyciad ac yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei dalu trwy refeniw neu adnoddau eraill.

**3.2** Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido o ran yr angen hwn i fenthyca. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae gwasanaeth y trysorlys yn trefnu sefyllfa ariannol y Cyngor er mwyn sicrhau bod digon o arian ar gael i gyfarfod â'r cynlluniau cyfalaf a'r gofynion mewn perthynas â llif arian. Gellir cael yr arian hwn trwy fenthyca gan gyrff allanol (fel y Llywodraeth, trwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) neu'r marchnadoedd arian), neu trwy ddefnyddio adnoddau arian dros dro o fewn y Cyngor.

### 3.3 Gostwng y CFR

**3.3.1** Ni chaniateir i anghenion benthyca'r Cyngor (CFR) godi am byth. Mae yna reoliadau statudol yn eu lle i sicrhau bod asedau cyfalaf yn gyffredinol yn cael eu codi ar refeniw dros fywyd yr ased. Mae'n rhaid i'r Cyngor godi tâl refeniw blynyddol a elwir yn isafswm darpariaeth refeniw - MRP er mwyn gostwng y CFR. I bob pwrpas, ad-daliad yw hwn o'r angen i fenthyca. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian ar gael i gwrdd ag ymrwymiadau cyfalaf. Yn ogystal, gellir benthyca dyled allanol neu ei thalu'n ôl ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y CFR.

**3.3.2** Gellir gostwng cyfanswm y CFR hefyd drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- godi mwy na'r tâl refeniw statudol (MRP) ym mhob blwyddyn trwy Ddarpariaeth Refeniw Wirfoddol (VRP).

**3.3.3** Cafodd Polisi MRP 2015/16 y Cyngor (fel sy'n ofynnol dan gyfarwyddyd LlCC) ei gymeradwyo fel rhan o adroddiad strategaeth rheoli trysorlys 2015/16 ar 26 Chwefror 2014.

**3.3.4** Dangosir isod CFR y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ac mae'n cynrychioli dangosydd pwyllog allweddol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw PFI a chynlluniau prydlesu ar y fantolen a fyddai'n cynyddu anghenion benthyca'r Cyngor, y CFR. Nid oedd cynlluniau o'r fath yn ystod y flwyddyn.

| CFR Cronfa'r Cyngor | 2014/15 Gwirioneddol (£m) | 2015/16 Cyllideb (£m) | 2015/16 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 85 | 93 | 86 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | 5 | | 2 |
| Llai MRP/VRP* | (4) | (4) | (4) |
| Balans Cau | 86 | 92 | 84 |

| CFR CRT | 2013/14 Gwirioneddol (£m) | 2014/15 Cyllideb (£m) | 2014/15 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Balans agoriadol | 24 | 44 | 23 |
| Ychwanegu gwariant cyfalaf heb ei gyllido (fel uchod) | - | - | 21 |
| Llai MRP/VRP* | (1) | (1) | (1) |
| Balans Cau | 23 | 43 | 43 |

**Yn cynnwys defnydd gwirfoddol o dderbyniadau cyfalaf*

**3.3.5** Mae'r gweithgaredd benthyca yn cael ei gyfyngu gan ddangosyddion pwyllog ar gyfer benthyca gros a'r CFR, a chan y trothwy a awdurdodwyd.

## 3.4 Benthyca gros a'r CFR

Er mwyn sicrhau bod lefelau benthyca yn ddarbodus dros y tymor canolog a dim ond ar gyfer dibenion cyfalaf, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthyca allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon o unrhyw ofyniad cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Mae hynny'n golygu nad yw'r Cyngor yn benthyca i gefnogi gwariant refeniw. Mae'r dangosydd hwn yn caniatáu peth hyblygrwydd i'r Cyngor fenthyca ymlaen llaw i'w anghenion cyfalaf. Mae'r tabl isod yn nodi sefyllfa fenthyca gros y Cyngor yn erbyn y CFR. Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r dangosydd pwyllog hwn.

| | 31 Mawrth 2015 Gwirioneddol (£m) | 31 Mawrth 2016 Cyllideb (£m) | 31 Mawrth 2016 Gwirioneddol (£m) |
|---|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca Gros | 89.6 | 110.7 | 110.7 |
| CFR | 108.6 | 136.6 | 127.7 |

**3.4.1** Fel rhan o'r broses o gyllido gwariant cyfalaf ar gyfer 2015/16, defnyddiwyd benthyciadau i gyllido'r bwlch rhwng yr adnoddau a oedd ar gael (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf a chyfraniadau refeniw) a'r gwariant cyfalaf. Yn wyneb cyfraddau llog ar y farchnad ar hyn o bryd a'r rheini a ragwelir, ynghyd â risgiau credyd gwrthbartïon, penderfynwyd parhau i fewnoli benthyciadau o leiaf yn y tymor byr. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor, yn lle benthyca'n allanol gan PWLB, yn defnyddio ei arian wrth gefn ei hun. Mae'r strategaeth hon wedi ei gweithredu yn awr drwy gydol pob un o'r bum mlynedd ddiwethaf. O ganlyniad i barhau â'r Strategaeth yma, cynyddodd y bwlch rhwng CFR a benthyca allanol yn ystod 2015/16 gan £19m. Mae'r benthyca gros ar 31 Mawrth 2016 yn llai na'r CFR a ragwelwyd am y 2 flynedd ddilynol. Mae'r sefyllfa hon o ran benthyciadau gros wedi cynyddu yn ystod 2015/16 oherwydd y benthyciad a gafwyd gan PWLB i brynu allan o'r Cyfrif Refeniw Tai sy'n disodli'r hen daliadau cymhorthdal i Lywodraeth Cymru. Mae hyn hefyd wedi cael effaith sylweddol ar y gofyniad benthyca cyfalaf.

**3.5** Y dangosyddion eraill yn ymwneud â dyled yw:

**3.5.1** **Y trothwy awdurdodedig** - y trothwy awdurdodedig yw'r "cyfyngiad benthyca fforddiadwy" sy'n angenrheidiol yn unol ag adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Unwaith y mae hwn wedi ei bennu, nid oes gan y Cyngor rym i fenthyca uwchlaw'r lefel hon. Mae'r tabl isod yn dangos bod y Cyngor wedi llwyddo i gadw o fewn y trothwy awdurdodedig o ran benthyciadau gros yn ystod 2015/16.

**3.5.2** **Y terfyn gweithredol** - y terfyn gweithredol yw'r sefyllfa fenthyca a ddisgwylir ar gyfer y Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae cyfnodau lle mae'r sefyllfa wirioneddol naill ai yn is neu'n uwch na'r terfyn yn dderbyniol ar yr amod nad yw'n mynd dros y trothwy awdurdodedig.

**3.5.3** **Costau ariannu gwirioneddol fel cyfran o'r ffrwd refeniw net** - mae'r dangosydd hwn yn nodi'r patrwm o ran cost cyfalaf (benthyca a chostau ymrwymiadau tymor hir arall llai incwm buddsoddi) yn erbyn y ffrwd refeniw net.

| | 2015/16 |
|---|---|
| Cyfyngiad awdurdodedig | £165.0m |
| Sefyllfa o ran uchafswm benthyciadau gros | £110.7m |
| Terfyn Gweithredol | £126.0m |
| Sefyllfa benthyca gros ar gyfartaledd | £110.7m |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net - CF | 6.06% |
| Costau ariannu fel cyfran o ffrwd refeniw net – CRT | 13.83% |

Y rheswm pam fod y costau ar gyfer cyllido Cronfa'r Cyngor ychydig yn is na chanran y ffrwd refeniw na'r hyn a amcangyfiwyd yn y datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2015/16 (6.53%) net oedd oherwydd costau cyllido a oedd yn is na'r disgwyl, ynghyd â llai o incwm na'r disgwyl o fuddsoddiadau a ffrwd refeniw net a oedd yn uwch na'r disgwyl.

## 4. SEFYLLFA TRYSORLYS AR 31 MAWRTH 2014

**4.1** Caiff sefyllfa dyledion a buddsoddiad y Cyngor ei drefnu gan y gwasanaeth rheoli trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer gweithgareddau refeniw a chyfalaf, diogelwch ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli'r risgiau yn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau i sicrhau'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy'r adroddiadau i aelodau y manylir arnynt yn y crynodeb a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2015/16. Roedd ffigyrau buddsoddi a benthyca'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16 fel a ganlyn:-

| | 31 MAWRTH 2015 | | | 31 MAWRTH 2016 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedrwydd Cyfartalog (bl) | £000 | Graddfa Cyfartalog (%) | Aeddfedr-wydd Cyfartalog (bl) |
| Dyled: Holl Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 89,585 | 5.72 | 25.4 | 110,741 | 5.72 | 24.9 |
| CFR | 108,582 | | | 127,657 | | |
| Gor/(tan) fenthyca | (18,997) | | | (16,916) | | |
| Buddsoddiadau tymor sefydlog (y cyfan < I flwyddyn a reolir yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog | Nil | | | 5,000 | 0.50 | |
| Buddsoddiadau dim rhybudd (yr holl wedi ei reoli'n fewnol) | 10.983 | 0.36 | | 11,209 | 0.35 | |
| Cyfanswm y Buddsoddiadau | 10,983 | 0.36 | | 16,209 | 0.40 | |

Gweler dadansoddiad manylach yn Atodiad 1. Ni ddaethpwyd dros ben y trothwyon ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiadwy yn ystod y flwyddyn.

**4.2** Dadansoddir benthyca ymhellach drwy gyfnodau aeddfedu:-

| | 31 MAWRTH 2015 | | 31 MAWRTH 2016 | | Cyfyngiadau 2014/15 a 2015/16 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | % o'r cyfanswm | £m | % o'r cyfanswm | % o'r cyfanswm (Uchel) | % o'r cyfanswm (Isaf) |
| Cyfanswm benthyciadau | 89.6 | 100 | 110.7 | 100 | | |
| Llai na 12 mis | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 20 | 0 |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 0.0 | 0.0 | 5.5 | 4.97 | 20 | 0 |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 15.5 | 17.3 | 14.5 | 13.10 | 50 | 0 |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 8.8 | 9.8 | 4.2 | 3.79 | 75 | 0 |
| 10 mlynedd a mwy | 65.3 | 72.9 | 86.5 | 78.14 | 100 | 0 |

**4.3** Ni aildrefnwyd unrhyw ddyled yn ystod y flwyddyn oherwydd roedd y 1% gwahaniaethol cyfartalog rhwng graddfeydd benthyca newydd PWLB a graddfeydd ad-dalu'n fuan yn gwneud aildrefnu'n anhyfyw. Benthyciad newydd allanol – cymerwyd £21.169m yn ystod y flwyddyn i gyllido Prynu Allan o system gymhorthdal CRT Llywodraeth Cymru.

**4.4** Mae rhan o adneuon y Cyngor yn cael eu dal mewn cyfrifon adneuon dim rhybudd sy'n talu llog ar raddfeydd sy'n agos ar y gyfradd sylfaenol bresennol, £11.0m ar

0.35% (31 Mawrth 2015 11m ar 0.36%). Roedd un swm yn cael ei adneuo am gyfnod o lai na blwyddyn sef £5m ar gyfradd log o 0.50% (31 Mawrth 2015 Dim).

## 5. STRATEGAETH TRYSORLYS AM 2015/16

**5.1** Roedd y strategaeth ar gyfer 2015/16 yn cynnwys disgwyliad y byddai'r Cyfradd Banc yn aros yn isel ond yn codi (cychwyn yn Chwarter 1 2015) ac y byddai cyfraddau benthyca sefydlog tymor canol a thymor hir yn codi'n raddol yn ystod 2015/16. Roedd disgwyl i gyfraddau tymor byr neu amrywiadwy fod yn ffordd ratach o fenthyca yn ystod y cyfnod. Yn sgil parhad yr ansicrwydd ar ôl argyfwng ariannol 2008 parhawyd i fod yn wyliadwrus ac roedd buddsoddiadau yn parhau i gael eu dominyddu gan ystyriaethau'r risg gwrthbartïon isel gan arwain at ddychweliadau gweddol isel o gymharu â'r cyfraddau benthyca.

**5.2** Yn y sefyllfa hon, y strategaeth ar gyfer y trysorlys oedd gohirio benthyca i osgoi costau cadw lefelau uwch o fuddsoddiadau a gostwng risg gwrthbartïon.

**5.3** Roedd y symudiad gwirioneddol yn yr elw o giltiau yn golygu ychydig o newid yn ystod pedwar mis cyntaf y flwyddyn yng nghyfraddau PWLB ond yna roedd y tueddiad yn mynd at i lawr am weddill y flwyddyn gyda gwrthdroad rhannol ym mis Chwefror.

**5.2** Roedd y sefyllfa economaidd a'r PWLB a'r cyfraddau buddsoddi fel y gwelir nhw yn Atodiad 4.

## 6. CANLYNIADAU BUDDSODDI AR GYFER 2015/16

**6.1** Parhaodd y Gyfradd Banc ar raddfa hanesyddol isel o 0.5% drwy gydol y flwyddyn; bellach mae wedi aros yr un fath ers saith mlynedd. Prin iawn fu unrhyw newid yn nisgwyliadau'r farchnad am gychwyn y tynhau ariannol yn chwarter 1 2016 ond yna symudodd yn ôl i o gwmpas chwarter 2, 2018 erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd cyfraddau adneuon yn parhau i fod yn isel drwy gydol y flwyddyn a hynny'n bennaf oherwydd effeithiau'r Cynllun Cyllido i Fenthyca.

**6.2** Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuon tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod) er cadwyd y gallu i fuddsoddi hyd at gyfnodau hwy (er ni ddefnyddiwyd). Roedd disgwyl i falansau arian parod o £30m fod ar gael yn amrywio rhwng £15m a £35m. Gosodwyd y gyllideb ar 0.75% neu £225k ar ôl addasu ar gyfer graddfeydd uwch ar fuddsoddiadau presennol. Fel y mae'n digwydd, cafwyd dychweliad o £88k (0.36%) ar falansau a oedd ar gyfartaledd, yn £20.4m. Roedd y balans arian parod yn is na'r disgwyl yn rhannol oherwydd parhau i fewnoli benthyca. Roedd y dychweliad is nag a gyllidebwyd i'w briodoli i gyfraddau gwaeth na'r disgwyl ar fuddsoddiadau, gyda chyfraddau'n parhau i ddisgyn yn ystod y flwyddyn.

## 7. DIOGELWCH AC ANSAWDD CREDYD

**7.1** Ni chafodd unrhyw un o'r sefydliadau yr oedd gennym fuddsoddiadau ynddynt unrhyw anhawster i ad-dalu buddsoddiadau a llog ar amser ac yn llawn yn ystod y flwyddyn.

**7.2** Yn ystod 2015/16, parhaodd graddfeydd credyd i fod yn wael ar draws amrediad o'n gwrthbartïon arferol. Ers diwedd 2008, mae wedi bod yn heriol adneuo gyda gwrthbartïon priodol. Ym mis Rhagfyr 2008, cafwyd caniatâd gan y Cyngor i ymestyn yr hyblygrwydd gyda gwrthbartïon i ddelio gyda newidiadau yn y farchnad; roedd hyn yn cynnwys y gallu i fuddsoddi'r cyfan o'n gwarged gyda'r llywodraeth ganolog os bydd angen. Lledaenwyd y rhestr ymhellach yn Ebrill 2010 i gynnwys sefydliadau gwladol a sefydliadau rhannol wladol ac eglurwyd y rhestr honno ym Mawrth 2013 mewn perthynas â banciau yn y DU sydd wedi eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol a meini prawf 2014/15. Roedd penderfyniadau blaenorol wedi ymestyn hyblygrwydd i fuddsoddi gydag awdurdodau lleol. Mae Atodiad 2 yn dangos ym mha sefydliadau yr oedd y Cyngor wedi adneuo arian ar 31 Mawrth 2015 a chyfraddau'r cwmnïau hynny.

**7.3** Effaith ymarferol y polisïau hyn oedd fel a ganlyn: Yn ystod y flwyddyn parhawyd i ddefnyddio cyfrifon dim rhybudd gyda sefydliadau blaenllaw ar y stryd fawr (Santander, HSBC, RBS a Bank of Scotland) ar gyfer llif arian o ddydd i ddydd. Yn ychwanegol at hyn, rhoddwyd £5m mewn cyfrifon adnau 3 mis gyda Nationwide ar gyfradd uwch o 0.50%.

## 8. GWEITHGAREDD YN YSTOD 2015/16

**8.1** Adroddwyd eisoes fod yr Awdurdod hwn yn paratoi i dynnu allan o'r system cymhorthdal CRT ar 2 Ebrill 2015. Ar adeg adrodd ar weithgareddau trysorlys ar gyfer chwarter 3 2014/15, roedd hi'n hysbys y byddai'r 'prynu allan' yn cael ei gyllido gan PWLB ond roedd swm y setliad a'r cyfraddau llog ar y benthyciad yn parhau i fod dan ystyriaeth. Cafodd effaith bosibl y prynu allan ei hadlewyrchu yn y papurau ar bennu'r gyllideb a gyflwynwyd i'r Aelodau ar gyfer 2015/16 gan gynnwys y Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2015/16 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn ei sgriwtinieiddio ar 9 Chwefror 2015). Gellir cadarnhau fod y prynu allan wedi digwydd a bod y CRT bellach yn hunan-gyllido. Roedd union strwythur y benthyciadau a drefnwyd gan y Cyngor i gyllido ei hunan-gyllido o'r CRT yn adlewyrchu gofynion y cynllun busnes CRT, gofynion cyffredinol y Cyngor a rhai cyfyngiadau (e.e. cyfnod isaf unrhyw fenthyciad ar gyfartaledd) a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Cafodd y benthyciadau felly eu trefnu fel cyfres o gyfraddau llog uwch gan PWLB a oedd yn berthnasol yn unig i awdurdodau hunan-gyllido CRT yng Nghymru ac efallai bod hynny'n golygu bod y benthyciadau hyn, o bersbectif ailstrwythuro, yn llai hyblyg nag arfer.

## 9. GWEITHGAREDD ERS 2015/16

**9.1** Mae canlyniad refferendwm yr UE ar 23 Mehefin 2016 i adael yr Undeb Ewropeaidd a'r ansefydlogrwydd gwleidyddol ar ôl y canlyniad wedi creu sioc economaidd a welodd gwerth y bunt yn gostwng; cafodd effaith ar brisiau ar y farchnad stoc ac arweiniodd at ostwng rhagolygon tymor hir banciau'r DU o sefydlog i negyddol. Mae holl adneuon y Cyngor mewn banciau y mae eu rhagolygon wedi gostwng. Fodd bynnag, mae eu cyfraddau tymor byr i'r tymor canolig yn parhau i fod o fewn y cyfraddau a gymeradwywyd yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2015/16. Mae statws y banciau ac adneuon y Cyngor yn cael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau'r risg leiaf bosib i'r Cyngor. Mae cyfraddau sylfaenol y banciau wedi cael ei chadw ar yr un gyfradd, sef 0.50%, fodd bynnag, rhagwelir y bydd y gyfradd yn cael ei thorri yn y dyfodol er mwyn cefnogi'r UE yn ystod y cyfnod ansicr yn dilyn refferendwm yr UE. Er y byddai hyn yn tanseilio ymhellach y llog a geir ar adneuon, byddai'n gostwng y gost o fenthyca gan PWLB gan wneud benthyca allanol ar gyfer gwariant cyfalaf yn fwy deniadol. Mae Atodiad 3 yn dangos adneuon presennol y Cyngor a chyfraddau'r sefydliadau ariannol y mae'r adneuon wedi eu buddsoddi ynddynt (fel yr oeddynt ar 15 Gorffennaf 2016). Er bod cyfraddau banciau'r DU yn gyffredinol wedi cael eu gostwng ers y refferendwm, ychydig iawn o newid fu yng nghyfraddau'r sefydliadau y mae'r awdurdod yn adneuo arian ynddynt.

## 10. CASGLIAD

**10.1** Mae adolygiad o'r Perfformiad Rheoli Trysorlys ar gyfer 2015/16 wedi ei ddarparu. Roedd y flwyddyn yn weddol sefydlog a'r gweithgaredd mwyaf arwyddocaol oedd benthyciad o £21.169m gan PWLB ar gyfer prynu allan o'r cymhorthdal blynyddol CRT i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn arbed arian i'r Cyngor ac, yn ychwanegol yn cynnig mwy o hyblygrwydd gyda'r CRT iddo reoli ei stoc ei hun. Roedd gan y cyngor falansau ariannol priodol bob amser er bod y graddfeydd llog isel yn golygu nad oedd fawr o ddychweliad. Fodd bynnag, mae hyn yn gyson â Strategaeth Rheoli Trysorlys 2016 a'i amcanion allweddol sef risg isel a sicrhau bod digon o arian i dalu credydwyr y Cyngor ac ati. Ceir manylion yn atodiad 1 am sefyllfa ariannol offerynnau ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2016.

**R MARC JONES**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A**
**SWYDDOG ADRAN 151** **25 GORFFENNAF 2014**

**ATODIAD 1**

**Crynodeb o Werth y Portffolio**
**Ar 31 Mawrth 2016**

| **ASEDAU ARIANNOL** | **Enwebol / Prif (£)** | **Gwerth Teg (£)** |
|---|---|---|
| Arian (cyfrifon llog) (1) | 11,209,812 | 11,239,940 |
| Adneuon Cyfnod Sefydlog | 5,000,000 | 5,004,184 |
| **FINANCIAL LIABILITIES** | | |
| Benthyciad PWLB – Aeddfedu | 110,484,478 | 181,198,276 |
| Benthyciad PWLB – Blwydd-dal | 347,664 | 450,712 |



**Gwrthbartïon**

| | | |
|---|---|---|
| **(1)** | Arian (cyfrifon llog) | |
| | Santander | 6,783,222 |
| | Bank of Scotland | 707,475 |
| | HSBC | 3,718,240 |
| | RBS | 875 |
| | | 11,209,812 |
| **(2)** | Adneuon Cyfnod Sefydlog | |
| | Cymdeithas Adeiladu Nationwaide | 5,000,000 |

**ATODIAD / APPENDIX 2**

.

**Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 31 Mawrth 2016 ***
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 31 March 2016***



| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating *** | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **707** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.40** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis/ Red - 6 months** |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | **3,718** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.25** | **AA-** | **F1+** | **Aa2** | **P-1** | **AA-** | **A-1+** | **Oren – 12 mis / Orange – 12months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **6,783** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.40** | **A** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **1** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.25** | **BBB+** | **F2** | **A3** | **P-2** | **BBB+** | **A-2** | **Glas - 12 mis / Blue - 12 months** |
| Dim yn berthnasol | Cymdeithas Adeiladu Nationwide | **5,000** | **Adneuon am 3 mis** | | **0.50** | **A** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-3** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartion yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2014/15 / The Counterpart Criteria can be found at Appendix 6 of the 2014/15 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

**Graddfeydd Credyd Gwrthbartion buddsoddi a'r adneuon a ddelir gyda phob un ar 15 Gorffennaf 2016 ***
**Credit ratings of investment counterparties and deposits held with each as at 31 July 2016***

| Grŵp Bancio/ Banking Group | Sefydliad/ Institution | Adneuon / Deposit £'000 | Hyd (Galw tymor sefydlog) / Duration (Call / Fixed Term**) | Cyfnod (O/I)/ Period (From - To) | Graddfa Dychweliad/ Rate of Return % | Graddfa Tymor Hir Fitch Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Fitch Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Moody's Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Moody's Short Term Rating *** | Graddfa Tymor Hir Standard & Poor's (S&P) Long Term Rating *** | Graddfa Tymor Byr Standard & Poor's (S&P) Short Term Rating *** | Lliw Sector/Hyd Awgrymiedig/ Sector Colour / Suggested Duration |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloyds Banking Group plc | Bank of Scotland plc | **7,411** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.40** | **A+** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch – 6 mis/ Red - 6 months** |
| HSBC Holdings plc | HSBC Bank plc | **2,423** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.25** | **AA-** | **F1+** | **Aa2** | **P-1** | **AA-** | **A-1+** | **Oren – 12 mis / Orange – 12months** |
| Santander Group plc | Santander UK plc | **7,499** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.40** | **A** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-1** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| The Royal Bank of Scotland Group plc | The Royal Bank of Scotland plc | **2** | **Galw/ Call** | **d/b** | **0.25** | **BBB+** | **F2** | **A3** | **P-2** | **BBB+** | **A-2** | **Glas - 12 mis / Blue - 12 months** |
| Dim yn berthnasol | Cymdeithas Adeiladu Nationwide | **5,000** | **Adneuon am 3 mis** | | **0.50** | **A** | **F1** | **A1** | **P-1** | **A** | **A-3** | **Coch - 6 mis / Red – 6 months** |
| Cyfanswm Adneuon | | **22,736** | | | | | | | | | | |

* Ceir y Rhestr Meini Prawf Gwrthbartion yn Atodiad 6 o'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2014/15 / The Counterpart Criteria can be found at Appendix 6 of the 2014/15 Treasury Management Strategy Statement.

** Sef tymor ar pwynt y buddsoddi/Being term at the point of investment.

**ATODIAD/APPENDIX 4**

# The Economy and Interest Rates

Market expectations for the first increase in Bank Rate moved considerably during 2015/16, starting at quarter 3 2015 but soon moving back to quarter 1 2016. However, by the end of the year, market expectations had moved back radically to quarter 2 2018 due to many fears including concerns that China's economic growth could be heading towards a hard landing; the potential destabilisation of some emerging market countries particularly exposed to the Chinese economic slowdown; and the continuation of the collapse in oil prices during 2015 together with continuing Eurozone growth uncertainties.

These concerns have caused sharp market volatility in equity prices during the year with corresponding impacts on bond prices and bond yields due to safe haven flows. Bank Rate, therefore, remained unchanged at 0.5% for the seventh successive year. Economic growth (GDP) in the UK surged strongly during both 2013/14 and 2014/15 to make the UK the top performing advanced economy in 2014. However, 2015 has been disappointing with growth falling steadily from an annual rate of 2.9% in quarter 1 2015 to 2.1% in quarter 4.

The Funding for Lending Scheme, announced in July 2012, resulted in a flood of cheap credit being made available to banks which then resulted in money market investment rates falling materially. These rates continued at very low levels during 2015/16.



The sharp volatility in equity markets during the year was reflected in sharp volatility in bond yields. However, the overall dominant trend in bond yields since July 2015 has been for yields to fall to historically low levels as forecasts for inflation have repeatedly been revised downwards and expectations of increases in central rates have been pushed back. In addition, a notable trend in the year was that several central banks introduced negative interest rates as a measure to stimulate the creation of credit and hence economic growth.


The ECB had announced in January 2015 that it would undertake a full blown quantitative easing programme of purchases of Eurozone government and other bonds starting in March at €60bn per month. This put downward pressure on Eurozone bond yields. There was a further increase in this programme of QE in December 2015. The anti-austerity government in Greece, elected in January 2015 eventually agreed to implement an acceptable programme of cuts to meet EU demands after causing major fears of a breakup of the Eurozone. Nevertheless, there are continuing concerns that a Greek exit has only been delayed.

As for America, the economy has continued to grow healthily on the back of resilient consumer demand. The first increase in the central rate occurred in December 2015 since when there has been a return to caution as to the speed of further increases due to concerns around the risks to world growth.


On the international scene, concerns have increased about the slowing of the Chinese economy and also its potential vulnerability to both the bursting of a property bubble and major exposure of its banking system to bad debts. The Japanese economy has also suffered disappointing growth in this financial year despite a huge programme of quantitative easing, while two of the major emerging market economies, Russia and Brazil, are in recession. The situations in Ukraine, and in the Middle East with ISIS, have also contributed to volatility.

The UK elected a majority Conservative Government in May 2015, removing one potential concern but introducing another due to the promise of a referendum on the UK remaining part of the EU. The government maintained its tight fiscal policy stance but the more recent downturn in expectations for economic growth has made it more difficult to return the public sector net borrowing to a balanced annual position within the period of this parliament.


**Gross Domestic Product Analysis (GDP)**



Inflation Rate Forecasts




**Public Works Loans Board Rates 2015-16**




| | 1 | 1-1.5 | 2.5-3 | 3.5-4 | 4.5-5 | 9.5-10 | 24.5-25 | 49.5-50 | 1 month variable |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/15 | 1.130% | 1.210% | 1.510% | 1.710% | 1.900% | 2.490% | 3.150% | 3.110% | 1.320% |
| 31/3/16 | 1.130% | 1.160% | 1.330% | 1.470% | 1.610% | 2.280% | 3.110% | 2.920% | 1.310% |
| High | 1.350% | 1.470% | 1.860% | 2.120% | 2.350% | 3.060% | 3.660% | 3.580% | 1.370% |
| Low | 1.010% | 1.040% | 1.190% | 1.330% | 1.470% | 2.100% | 2.980% | 2.810% | 1.310% |
| Average | 1.212% | 1.302% | 1.608% | 1.814% | 2.004% | 2.653% | 3.348% | 3.216% | 1.336% |
| Spread | 0.340% | 0.430% | 0.670% | 0.790% | 0.880% | 0.960% | 0.680% | 0.770% | 0.060% |
| High date | 05/08/2015 | 06/08/2015 | 02/07/2015 | 15/07/2015 | 14/07/2015 | 14/07/2015 | 02/07/2015 | 14/07/2015 | 30/10/2015 |
| Low date | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 21/03/2016 |

| | 1 Year | 5 Year | 10 Year | 25 Year | 50 Year |
|---|---|---|---|---|---|
| 1/4/15 | 1.13% | 1.90% | 2.49% | 3.15% | 3.11% |
| 31/3/16 | 1.13% | 1.61% | 2.28% | 3.11% | 2.92% |
| Low | 1.01% | 1.47% | 2.10% | 2.98% | 2.81% |
| Date | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 | 11/02/2016 |
| High | 1.35% | 2.35% | 3.06% | 3.66% | 3.58% |
| Date | 05/08/2015 | 14/07/2015 | 14/07/2015 | 02/07/2015 | 14/07/2015 |
| Average | 1.21% | 2.00% | 2.65% | 3.35% | 3.22% |


Apr 2015 - Mar 2016 PWLB maturity certainty rates
4.00%
3.50%
3.00%
2.50%
2.00%
1.50%
1.00%
0.50%
1-Apr-15
1-May-15
1-Jun-15
1-Jul-15
1-Aug-15
1-Sep-15
1-Oct-15
1-Nov-15
1-Dec-15
1-Jan-16
1-Feb-16
1-Mar-16
1 Year
5 Year
10 Year
50 Year
50 year target %

Investment Rates 2015-16

Bank Rate remained at its historic low of 0.5% throughout the year; it has now remained unchanged for seven years.  Deposit rates remained depressed during the whole of the year, primarily due to the effects of the Funding for Lending Scheme.




***Allan gan / From: CAPITA ASSET SERVICES – TREASURY SOLUTIONS***

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2015-16

# Cyngor Sir Ynys Môn

Cyhoeddwyd: Mehefin 2016
Cyfeirnod y ddogfen: 356A2016



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Andy Bruce, Fflur Jones, Dyfrig Williams a Jeremy Evans o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Yr adroddiad hwn 4

Gwaith archwilio perfformiad 2015-16 5

Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd o fewn meysydd blaenoriaeth wrth iddo ailstrwythuro ei drefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu ac mae'n hunanymwybodol o hyd 6

Argymhellion 6

## Adroddiad manwl

Perfformiad

Mae'r Cyngor yn parhau i wella perfformiad ar draws ei feysydd blaenoriaeth ac mae wedi cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009, er ei fod yn cydnabod yr angen i wella mewn rhai gwasanaethau 9

Y defnydd o adnoddau

Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol priodol sy'n parhau i wella 15

Llywodraethu

Mae aelodau a swyddogion yn parhau i gydweithredu'n effeithiol o fewn fframwaith arweinyddiaeth a llywodraethu newydd ac mae'r prosesau corfforaethol ar gyfer ymateb i adroddiadau ac argymhellion gan reoleiddwyr allanol yn ddigonol 20

## Atodiadau

Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn 23

Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol 24

Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16 26

# Adroddiad cryno

## Yr adroddiad hwn

1 Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Rhagfyr 2015. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd). Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

2 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2015-16, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi, yn yr adroddiad hwn, a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2016-17.

3 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

4 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Gwaith archwilio perfformiad 2015-16

5 Nodir y gwaith a gyflawnwyd ers yr Adroddiad Gwella Blynyddol a'r Asesiad Corfforaethol diwethaf, gan gynnwys gwaith y 'rheoleiddwyr perthnasol', isod.

| Enw'r prosiect | Disgrifiad byr |
|---|---|
| Cydnerthedd Ariannol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ar gyfer arbedion gofynnol ac yn eu cyflawni. |
| Archwiliad 'Cynllun Gwella' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o gynlluniau cyhoeddedig y Cyngor ar gyfer cyflawni amcanion gwella. |
| Archwiliad o 'Asesiad o Berfformiad' Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru | Adolygiad o asesiad o berfformiad cyhoeddedig y Cyngor, gan gynnwys profi a dilysu gwybodaeth am berfformiad. |
| Adroddiad Blynyddol AGGCC | Adolygiad a gwerthusiad blynyddol o berfformiad swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor ar gyfer 2014-15. |
| Rheoli perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru: Meincnodi costau gwasanaethau cymdeithasol yn erbyn perfformiad | Adolygiad ledled cynghorau'r Gogledd er mwyn ymchwilio i werth dangosyddion perfformiad y gwasanaethau cymdeithasol cyfredol a'r cysylltiadau, os o gwbl, â chostau. |
| Comisiynydd y Gymraeg: Adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor | Asesiad o effeithiolrwydd y cynllun wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor i'r cyhoedd yn Gymraeg. |
| Gwaith dilynol Swyddfa Archwilio Cymru | Rhoi sicrwydd bod gan y Cyngor brosesau corfforaethol priodol ar waith ar gyfer ymateb i adroddiadau, olrhain y modd y caiff argymhellion eu gweithredu a chyflwyno adroddiadau ar gynnydd i'r pwyllgor priodol. |
| Swyddfa Archwilio Cymru Adroddiadau Cenedlaethol | • Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru<br>• Partneriaethau diogelwch cymunedol<br>• Cynhyrchu incwm a chodi tâl<br>• Trefniadau'r Cyngor ar gyfer ariannu gwasanaethau trydydd sector |

## Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd o fewn meysydd blaenoriaeth wrth iddo ailstrwythuro ei drefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu ac mae'n hunanymwybodol o hyd

6 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur a sicrhau gwelliant yn ystod 2016-17.

7 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a mae'r Cyngor yn parhau i wella perfformiad ar draws ei feysydd blaenoriaeth ac mae wedi cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009, er ei fod yn cydnabod yr angen i wella mewn rhai meysydd gwasanaeth;

b mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol priodol sy'n parhau i wella; ac

c mae Aelodau a swyddogion yn parhau i gydweithredu'n effeithiol o fewn fframwaith arweinyddiaeth a llywodraethu newydd ac mae ganddo brosesau corfforaethol digonol ar gyfer ymateb i adroddiadau ac argymhellion gan reoleiddwyr allanol.

## Argymhellion

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

9 Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw argymhellion ffurfiol. Fodd bynnag, ceir materion â llai o flaenoriaeth, a elwir yn gynigion ar gyfer gwella, yn ein hadroddiadau eraill ond gellir cyfeirio atynt yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn. Byddwn yn parhau i fonitro cynigion ar gyfer gwella yn ystod ein gwaith asesu gwelliant.

10 Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i'r Cyngor yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o argymhellion mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2015-16 yn Atodiad 3.

11 Yn ogystal, nododd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg feysydd i'w gwella yn eu hadroddiadau arolygu a'r llythyrau a gyhoeddwyd ganddynt i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Gellir eu gweld yn www.cssiw.org.uk, www.estyn.llyw.cymru a www.comisiynyddygymraeg.org.

# Adroddiad manwl



# Perfformiad

## Mae'r Cyngor yn parhau i wella perfformiad ar draws ei feysydd blaenoriaeth ac mae wedi cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009, er ei fod yn cydnabod yr angen i wella rhai gwasanaethau

### Gwerthusiad Estyn o berfformiad ysgolion

12 Mae cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar Ynys Môn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. Ystyrir hyn wrth werthuso'r perfformiad yn y Cyngor.

13 Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen[1] wedi gwella yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Yn 2015, mae'r perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn ychydig islaw'r perfformiad yng Nghymru ar gyfartaledd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd[2] wedi gwella yn ystod y pedair blynedd diwethaf ac, yn 2015, mae'r perfformiad mewn perthynas â'r dangosydd hwn ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru.

14 Mae perfformiad yn nangosydd pynciau craidd cyfnod allweddol 3 wedi gwella'n gyson yn ystod y tair blynedd diwethaf ac, yn 2015, mae uwchlaw cyfartaledd Cymru. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad o ran trothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg, a'r dangosydd pynciau craidd wedi gwella yn ystod y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae cyfradd y gwelliant ar gyfer y tri dangosydd yn arafach na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni pum gradd A* i A neu gymwysterau cyfwerth wedi gostwng ers 2012 ac yn 2015, mae'n is na chyfartaledd Cymru.

15 Yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim uwchlaw cyfartaledd Cymru. Mae cyfraddau presenoldeb ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd wedi gwella'n araf yn ystod y pedair blynedd diwethaf, ond nid ydynt bellach yn cymharu'n ffafriol â chyfraddau presenoldeb mewn awdurdodau tebyg.

1 Mae **dangosydd y Cyfnod Sylfaen** yn cyfeirio at ganran y disgyblion sy'n cyflawni'r perfformiad disgwyliedig (canlyniad lefel 5) mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen; llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf; datblygiad mathemategol; a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

2 Mae'r **dangosydd pynciau craidd** yn cyfeirio at ganran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae hyn yn cyfateb i lefel 4 neu uwch yng nghyfnod allweddol 2 a lefel 5 neu uwch yng nghyfnod allweddol 3. Mae'r dangosyddion perfformiad ar gyfer cyfnodau allweddol 2 a 3 y Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar asesiadau athrawon. Mae'r dangosyddion perfformiad ar gyfer cyfnod allweddol 4 yn seiliedig ar gymwysterau a ddilyswyd yn allanol fel TGAU.

## Mae gwasanaethau'r Cyngor i oedolion a phlant yn parhau i wella ond mae angen cynnydd pellach mewn nifer o feysydd a nodwyd yn adroddiad blaenorol AGGCC

16 Cyhoeddodd AGGCC ei Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014-2015 ym mis Hydref 2015 ac mae ar gael ar ei gwefan.

17 Canfu AGGCC fod y Cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau sydd ar gael ym maes gwasanaethau i oedolion a'i fod yn llwyddo i gyflawni ei nod o gefnogi pobl i fod mor annibynnol a hunangynhaliol â phosibl. Mae perfformiad y Cyngor o ran cyflawni yn erbyn ei gynllun busnes yn gadarn ac mewn sawl maes, mae'n cyrraedd ei dargedau. Gwnaed camau sylweddol o ran moderneiddio gwasanaethau, ac ymgysylltu â chymunedau yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Ceir rhai canlyniadau cadarnhaol sy'n dangos effaith y newidiadau, megis y cynnydd mewn cymorth i ofalwyr. Fodd bynnag, ni fu cymaint o gynnydd wrth ddatblygu gwasanaethau i oedolion ifancach, ac mae angen gwerthuso effaith lawn y newid i oedolion hŷn er mwyn sicrhau nad ydynt yn wynebu unrhyw risgiau diangen.

18 Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r risgiau o fewn gwasanaethau plant lle mae gwelliant yn fregus. Canfu AGGCC ganlyniadau da o ran cyrraedd targedau perfformiad o fewn gwasanaethau plant, ond mae angen gwelliant parhaus o ran ansawdd y gwasanaethau oherwydd bu'r broses ddatblygu yn arafach. Noda'r Cyngor y gellid priodoli hyn i'r ffaith bod angen caniatáu amser i'r gwelliannau ymsefydlu.

19 Canfu AGGCC fod gwelliannau ym maes cymorth corfforaethol, goruchwylio a chraffu wedi bod o fudd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r gallu i roi cynlluniau gwella ar waith yn broblem yn y gwasanaeth, ac adlewyrchir hyn yn y diffyg cynnydd mewn perthynas â nifer o feysydd i'w gwella a nodwyd yn adroddiad y llynedd.

20 Er y gwnaed cynnydd da ym maes gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau plant, mae cynnydd sylweddol yn y galw o fewn gwasanaethau plant yn ystod 2015-16, ynghyd â'r ymgyrch barhaus i sicrhau arfer cyson ar draws y gwasanaeth, wedi cyflwyno heriau. Mae Pennaeth y Gwasanaeth wedi sicrhau cefnogaeth yr Uwch Dîm Arwain i'r cynllun gweithredu presennol a'r cynllun gweithredu tymor canolig, a sefydlwyd Bwrdd Trawsnewid y gwasanaethau plant i ddarparu fframwaith y gellir ei ddefnyddio i fesur cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu.

21 Fel rhan o'r gwaith a wnaed gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar Gynaliadwyedd Gwasanaethau Cymdeithasol yn y chwe chyngor yn y Gogledd, lluniwyd dogfen i'r Cyngor a oedd yn cyflwyno'r canlynol:

a y galw yn y dyfodol am wasanaethau cymdeithasol ar Ynys Môn drwy feincnodi amcanestyniadau o'r boblogaeth ar gyfer plant a phobl hŷn; a

b chyfres o ddadansoddiadau ar ffurf graff a oedd yn cyfuno data ariannol a data perfformiad ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ar Ynys Môn dros sawl blwyddyn ac a oedd hefyd yn gosod y Cyngor yng nghyd-destun y 21 cyngor arall yng Nghymru.

22 Nid oedd unrhyw argymhellion na chasgliadau o'r gwaith hwn gan ein bod wedi rhoi pecyn data i bob Cyngor a oedd yn dangos y wybodaeth o safbwynt gwerth am arian ac wedi hwyluso gweithdy ar gyfer ardal gyfan y Gogledd i Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ac uwch reolwyr allweddol eraill. Cawsom adborth cadarnhaol ar yr allbwn ac rydym yn aros i weld sut y bydd y Cyngor yn defnyddio'r dull gweithredu hwn fel rhan o'i brosesau herio mewnol.

## Mae'r Cyngor yn parhau i lunio gwerthusiadau cytbwys o'i berfformiad ac yn cydymffurfio â Mesur Llywodraeth Leol 2009, ond mae sawl dangosydd cenedlaethol wedi gostwng o gymharu â'r flwyddyn flaenorol

23 Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur a daeth Tystysgrif Asesiad Gwella yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Tachwedd 2015 i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur.

24 Lluniodd y Cyngor asesiad cytbwys o'i berfformiad yn 2014-15 a chydnabu ostyngiad mewn perfformiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nododd y Cyngor fod nifer y dangosyddion perfformiad yn y chwartel uchaf[3] wedi gostwng o 17 yn 2013-14 i 10 yn 2014-15. Yn yr un modd, bu cynnydd bach yn nifer y dangosyddion perfformiad yn y chwartel isaf - o 13 yn 2013-14 i 15 yn 2014-15. Er y bu cynnydd yn nifer y dangosyddion perfformiad yn y chwarter canol uchaf, o chwech yn 2013-14 i wyth yn 2014-15, bu cynnydd cyfatebol hefyd yn nifer y dangosyddion perfformiad yn y chwartel canol isaf, o bump yn 2013-14 i naw yn 2014-15.

25 Mae'n ofynnol i'r Cyngor hefyd baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau. Daeth Tystysgrif Cynllun Gwella yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Mai 2015 i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur.

3 Chwartelau yw'r gwerthoedd sy'n rhannu rhestr o rifau yn chwarteri - yn y cyd-destun hwn, er mwyn bod yn y chwartel uchaf, mae angen i berfformiad y Cyngor ei osod ymhlith y chwarter uchaf o blith yr holl gynghorau yng Nghymru.

## Gwerthusiad Comisiynydd y Gymraeg o berfformiad Ynys Môn

26 Creodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd). Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2016. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

27 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

28 Gwnaeth y Comisiynydd gynnwys meysydd i'w gwella yn ei adroddiadau arolygu a'r llythyrau a gyhoeddwyd ganddo i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Maent ar gael ar ei wefan.

## Mae'r Cyngor, gan ymateb i wendidau o ran diogelwch gwybodaeth, yn gwneud cynnydd o ran ymdrin ag argymhellion y Comisiynydd Gwybodaeth

29 Nodwyd pryderon gennym yn flaenorol, yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol a'n Hasesiad Corfforaethol ym mis Tachwedd 2015, am drefniadau diogelu gwybodaeth y Cyngor. Nodwyd adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Gorffennaf 2013 gennym, yn dilyn cyfres o achosion tor-diogelwch difrifol, a ddaeth i'r casgliad mai sicrwydd cyfyngedig iawn a ddarparwyd gan drefniadau'r Cyngor.

30 Ymatebodd y Cyngor yn gadarnhaol i adroddiad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan roi cynllun gweithredu ar waith a oedd yn cyfuno argymhellion y Swyddfa ag argymhellion adroddiadau archwilio mewnol. Hefyd, sefydlodd y Cyngor Fwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol i ddarparu'r arweiniad angenrheidiol. Mewn adroddiad arall gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ym mis Ionawr 2015, lleihawyd statws risg y Cyngor o 'goch' i 'oren' a thynnwyd y Cyngor o gategori monitro ffurfiol Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Er gwaethaf y statws risg is hwn a chynnydd y Cyngor wrth ymdrin â nifer o argymhellion, roedd rhai gwendidau o hyd ac ym mis Hydref 2015, cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth Hysbysiad Gorfodi o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Daeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i'r casgliad bod y Cyngor wedi torri'r Seithfed Egwyddor Diogelu Data drwy fethu â chymryd mesurau diogelwch priodol rhag achosion o brosesu data personol heb awdurdod neu'n anghyfreithlon ac achosion o golli, dinistrio neu ddifrodi data personol yn ddamweiniol.

31 Yn dilyn hyn, lluniodd Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol y Cyngor gynllun gweithredu diwygiedig yn ymdrin â Hysbysiad Gorfodi Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a naw argymhelliad. Blaenoriaethodd y Cyngor yr argymhellion pwysicaf a noda ei fod wedi cwblhau chwech o'r naw argymhelliad, a bod tri wedi'u cwblhau'n rhannol. Yn arbennig, noda'r Cyngor y meysydd pwysig canlynol fel rhai yr ymdriniwyd â hwy:

a mae dangosyddion perfformiad allweddol bellach ar waith ar gyfer diogelu data a chyflwynir adroddiadau ar y dangosyddion hyn;

b mae rhaglen hyfforddi orfodol ar waith ar gyfer diogelu data ac mae'r Cyngor yn gobeithio datblygu pecyn e-ddysgu;

c caiff cyfraddau cwblhau hyfforddiant bellach eu monitro a'u dogfennu'n briodol;

ch mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn trafod y broses o weithredu system derbyn polisïau gyda'i ddarparwr gwasanaeth ac, yn ogystal, mae wedi ymgymryd â phroses gofrestru â llaw er mwyn rhoi sicrwydd; ac

d mae'r Cyngor yn cynnal gwaith monitro cyson a rheolaidd er mwyn gorfodi'r polisi desgiau clir.

## Mae camau gweithredu i wella swyddogaeth caffael a rheoli contractau'r Cyngor yn mynd rhagddynt yn dda

32 Nodwyd gennym yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol a'n Hasesiad Corfforaethol ym mis Rhagfyr 2015 y cynhaliodd KPMG raglen o wiriadau ffitrwydd caffael yn 2013 ar draws pob awdurdod lleol ar ran Gweinidog Cyllid Llywodraeth Cymru. Diben y gwiriad ffitrwydd oedd nodi p'un a oedd gallu caffael y sefydliad yn ddigonol a galluogi cynghorau unigol i nodi eu cryfderau a meysydd i'w gwella. Ystyriodd Pwyllgor Archwilio'r Cyngor ei wiriad ffitrwydd caffael ym mis Ebrill 2014. Nododd y gwiriad fod y Cyngor yn perfformio'n wael ym maes caffael o gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru.

33 Er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r argymhellion a wnaed, sefydlodd y Cyngor brosiect gwella caffael. Mae tîm y prosiect yn cyflwyno adroddiadau ar gynnydd i fwrdd corfforaethol ac i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ddwywaith y flwyddyn.

34 Gwnaeth y Cyngor gynnydd da drwy fabwysiadu strategaeth gaffael newydd a datblygu Strategaeth Rheoli Contractau, sy'n canoli'r trefniadau ar gyfer rheoli rhai o'r prif gontractau. Cynyddodd y Cyngor hefyd nifer y staff ar y tîm caffael er mwyn gwella gallu'r tîm.

35 Yn dilyn hynny, cynhaliodd y Cyngor hunanasesiad mewnol o'i swyddogaeth gaffael yn seiliedig ar y gwiriad ffitrwydd cychwynnol. Daeth canlyniadau'r hunanasesiad i'r casgliad bod aeddfedrwydd y Cyngor yn gwella ac yn datblygu tuag at sefyllfa o gydymffurfio. Fodd bynnag, er mwyn rhoi mwy o sicrwydd, mae'r Cyngor wedi comisiynu asesiad annibynnol o'i swyddogaeth gaffael y bwriedir ei gynnal ym mis Gorffennaf 2016. Bu'r Cyngor hefyd mewn cysylltiad â Gwerth Cymru a fydd yn darparu cymorth iddo yn ystod y 12 mis nesaf.

36 Fel rhan o raglen archwilio'r Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2016-17, rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal astudiaeth genedlaethol sy'n ymdrin â'r trefniadau ar gyfer caffael nwyddau a gwasanaethau ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn dilyn hyn, byddwn yn rhoi adborth i'r Cyngor ar ganfyddiadau perthnasol sy'n deillio o'r adroddiad cenedlaethol.

# Y defnydd o adnoddau

## Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol priodol sy'n parhau i wella

37 Ar 10 Rhagfyr 2015, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar ddatganiadau cyfrifyddu'r Cyngor, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae'r Llythyr Archwilio Blynyddol ar gael yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

### Mae'r Cyngor wedi datblygu fframwaith corfforaethol priodol ar gyfer gwaith cynllunio ariannol, ond gallai wella'r cysylltiadau rhwng ei Gynllun Corfforaethol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig

38 Mae systemau rheoli ariannol da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon. Mae systemau rheoli ariannol da:

- a yn helpu awdurdodau i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor;
- b yn helpu awdurdodau i ddarparu gwasanaethau i gyflawni rhwymedigaethau statudol a diwallu anghenion cymunedau lleol;
- c yn hanfodol er mwyn sicrhau systemau llywodraethu corfforaethol da;
- ch yn ymwneud cymaint â rheoli perfformiad a chyflawni amcanion strategol ag â rheoli arian;
- d yn sail i ansawdd gwasanaethau a gwella gwasanaethau;
- dd yn sail i atebolrwydd i randdeiliaid am warchod a defnyddio adnoddau; ac
- e yn ddisgyblaeth reoli allweddol.

39 Sicrheir cydnerthedd ariannol pan fydd gan awdurdod systemau a phrosesau cadarn i reoli ei risgiau a'i gyfleoedd ariannol yn effeithiol a sicrhau sefyllfa ariannol sefydlog.

40 Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol effeithiol ar gyfer cynllunio ariannol yn y Cyngor. Caiff gweledigaeth y Cyngor ei mynegi'n glir yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2013-17 a'i Gynllun Trawsnewid ar gyfer 2013-16. Ceir fframwaith ar gyfer cyflawni amcanion gwella'r Cyngor sy'n gysylltiedig â chynlluniau darparu gwasanaeth a chynlluniau ariannol. Caiff Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ei ddiweddaru bob blwyddyn ac mae'n darparu gwybodaeth helaeth am strategaeth cynllunio ariannol y Cyngor. Er bod gan y Cyngor nifer o bolisïau sy'n cefnogi ei drefniadau cynllunio ariannol, nid oes cysylltiadau amlwg rhwng y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r broses o gyflawni ei Gynllun Corfforaethol na'i nodau; nid yw ychwaith yn cynnwys unrhyw Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) penodol.

41 Mae'n ofynnol i bob un o wasanaethau'r Cyngor lunio cynllun darparu gwasanaethau blynyddol, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'i berfformiad, ei rôl wrth gyfrannu at y Cynllun Corfforaethol a dadansoddiad o unrhyw risgiau posibl. Fodd bynnag, gall ansawdd cynlluniau darparu gwasanaethau blynyddol amrywio ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen dull gweithredu mwy cyson er mwyn bwydo i mewn i'r broses cynllunio ariannol. Er mwyn helpu i wella cysondeb, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull gweithredu newydd, lle y mae'n rhaid i benaethiaid gwasanaethau alinio eu blaenoriaethau gwasanaeth ag amcanion corfforaethol a'u cynlluniau darparu gwasanaethau â'r broses o bennu'r gyllideb.

42 Mae'n ofynnol i wasanaethau'r Cyngor gynnal dau adolygiad hunanasesu blynyddol. Mae'r cyntaf yn canolbwyntio ar eu sefyllfa ariannol, sy'n helpu i lywio'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r broses o bennu'r gyllideb. Mae'r ail adolygiad yn canolbwyntio ar berfformiad blynyddol y gwasanaeth, sy'n helpu i lywio'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Mae grŵp priodol o swyddogion ac aelodau, gan gynnwys Arweinydd y Cyngor, Aelodau perthnasol o'r Cabinet, y Cabinet Cysgodol a'r Pwyllgor Craffu, yn herio hunanasesiad adolygu pob gwasanaeth.

43 Yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, ni chaiff gwasanaethau newid eu cynlluniau arbed ac eithrio drwy broses ailgyllidebu ffurfiol. Bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i roi mwy o eglurder ynghylch p'un a yw'r Cyngor yn llwyddo i gyflawni ei gynlluniau arbed yn hytrach na darganfod arbedion mewn meysydd lle nad oedd wedi'u rhagweld, fel y digwyddodd weithiau yn y gorffennol. Pan nad yw cynlluniau arbed yn eitemau un-tro syml, bydd yn rhaid i reolwyr cyllidebau gydymffurfio ag egwyddorion rheoli prosiect i sicrhau bod arbedion yn ymsefydlu'n gadarn o flwyddyn i flwyddyn.

44 Er gwaethaf setliad grant heriol gan Lywodraeth Cymru, pennodd y Cyngor gyllideb fantoledig ar gyfer 2015-16 drwy nodi gwerth £4.3 miliwn o arbedion o'i wasanaethau, ynghyd â chynnydd o 4.5 y cant yn y Dreth Gyngor.

45 Mae cyllideb y Cyngor ar gyfer 2015-16 yn rhoi sylw priodol a pherthnasol i'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol. Roedd y tybiaethau a wnaed gan y Cyngor wrth nodi'r diffyg yn gynhwysfawr, yn rhesymol ac maent wedi'u hategu gan ddata cadarn.

## Mae adran gyllid y Cyngor yn fwy sefydlog ac mae'r trefniadau ar gyfer rheolaeth ariannol, gan gynnwys prosesau ar gyfer pennu'r gyllideb ac ymgynghori, wedi gwella

46 Fel y nodwyd gennym yn Adroddiad Gwella Blynyddol ac Asesiad Corfforaethol mis Rhagfyr 2015, newidiodd proses y Cyngor ar gyfer pennu'r gyllideb yn sylweddol ar gyfer ei gyllideb yn 2015-16. Fel rhan o'r broses, symudwyd o dargedau arbedion wedi'u llywio gan yr Adran Gyllid i broses gynhwysfawr lle yr ymgynghorwyd â gwasanaethau, cynghorwyr a'r cyhoedd. Roedd swyddogion ac aelodau yn gefnogol iawn o blaid y newidiadau hyn a'r ffordd yr oeddent yn gwella dealltwriaeth a pherchenogaeth gyffredin o fewn y broses o bennu'r gyllideb.

47 Cyflwynwyd newidiadau pellach ar gyfer y broses o bennu'r gyllideb ar gyfer 2016-17, sef 'Cyllid Môn 2016-17'. Mae'r newidiadau yn cynnwys herio pob un o linellau'r gyllideb mewn perthynas â'i hanghenion a'i hamcangyfrifon, yn seiliedig ar b'un a yw'r gwasanaeth yn statudol neu'n anstatudol. Yn ogystal, caiff gwasanaethau eu herio i ystyried ffyrdd newydd o gyflwyno eu darpariaeth. Dechreuodd y broses yn ystod haf 2015 pan ofynnwyd i wasanaethau gyflwyno cynigion ffurfiol yn cynnwys arbedion, a fyddai, yn eu tro, yn destun heriau gwasanaeth ac asesiad o'u dichonoldeb. Ar ôl hynny, cyflwynwyd y cynigion ger bron gweithdai i aelodau ac fel rhan o drefniadau ymgynghori â'r cyhoedd.

48 Mae'r Cyngor wedi rhoi nifer o bolisïau ar waith er mwyn helpu i reoli ei gyllid, sy'n amlinellu manylion y cyfrifoldebau, yr amserlenni a'r canllawiau yn glir. Cyflwynwyd rhai mentrau yn ystod 2014-15, megis sicrhau bod gwasanaethau yn atebol am eu cynlluniau arbedion a chanoli cronfeydd wrth gefn gwasanaethau unigol i'w defnyddio fel y bo'r angen ar ôl derbyn cymeradwyaeth gan yr Adran Gyllid. Ail-lansiwyd system cyfriflyfr cyffredinol y Cyngor, Civica, ar ôl anawsterau yn ystod ei blwyddyn gyntaf, yn llwyddiannus a bellach ceir mwy o hyder yn y wybodaeth ariannol sydd ar gael i wasanaethau'r Cyngor.

49 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i ymdrin ag achosion o anghysondeb ymhlith gwasanaethau unigol wrth gymhwyso polisi'r Cyngor i'r awdurdod cyfan ar gynhyrchu incwm a chodi taliadau. Cytunwyd ar weithdrefn newydd ar gyfer codi taliadau gan y Pwyllgor Gwaith ac mae'n sicrhau y caiff atodlen o'r holl ffioedd a thaliadau ei mabwysiadu drwy'r Cyngor a'i chynnwys a'i hadolygu fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb. Rheolir yr atodlen gan yr Adran Gyllid er mwyn sicrhau y caiff rheolaethau eu cynnal yn effeithiol ac yn gyson.

50 Mae'r Cyngor yn rheoli'r cronfeydd wrth gefn sydd ar gael iddo eu defnyddio mewn ffordd ddarbodus, ac mae'n cymryd camau adeiladol i sicrhau y caiff cronfeydd wrth gefn a balansau ysgolion eu cynnal ac y caiff unrhyw ddiffygion ysgol eu rheoli. Mae'r polisi cronfeydd wrth gefn yn glir ac yn gynhwysfawr ac fe'i hystyriwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb ym mis Mawrth 2016.

51 Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, roedd pedwar unigolyn, y penodwyd dau ohonynt dros dro, wedi arwain Adran Gyllid y Cyngor. Yn y gorffennol, cafodd swyddi allweddol yn yr adran eu llenwi dros dro neu gan staff asiantaeth oherwydd trosiant staff uchel ac anawsterau o ran recriwtio. Mae statws dros dro staff yn yr Adran Gyllid wedi cael effaith andwyol ar gapasiti'r Cyngor i ddatblygu arbenigedd rheoli ariannol ymysg ei reolwyr gwasanaeth a chyflawni ei nod o ddatblygu ei staff ei hun. Fodd bynnag, yn ystod 2015, mae'r Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol i leihau dibyniaeth yr Adran Gyllid ar staff asiantaeth drwy recriwtio Swyddog Adran 151 parhaol a thrwy ddefnyddio staff asiantaeth er mwyn helpu i gefnogi a mentora staff cyllid parhaol y Cyngor mewn swyddi allweddol. Mae'r Cyngor hefyd wedi recriwtio dau weithiwr cyllid dan hyfforddiant i ddechrau'r broses o feithrin gwybodaeth a phrofiad yn yr adran gan ddefnyddio staff lleol, a gwella gallu'r adran i ymdopi â newidiadau staffio.

52 Mae cynlluniau arbedion ac arbedion effeithlonrwydd y Cyngor ar gyfer 2015-16 yn cael eu rheoli'n effeithiol ac mae'n edrych yn debygol y cânt eu cyflawni. Datblygwyd y cynlluniau ar draws pob gwasanaeth ac adran a phrofwyd eu dichonoldeb drwy drefniadau herio trylwyr gan adrannau unigol, cyfrifwyr gwasanaethau, rheolwyr cyllid a'r Swyddog Adran 151. Mae'r cynlluniau yn disgrifio'n glir o ble y daw arbedion, gan gynnwys rhagdybiaethau realistig yn ystod y flwyddyn, costau ac arbedion o newid trawsnewidiol.

## Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu drwy sicrhau bod gwasanaethau yn atebol am unrhyw amrywiadau o ran perfformiad ariannol, ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn gynyddol effeithiol wrth herio swyddogion i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar gynnydd

53 Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau ar gyfer cyflwyno adroddiadau ac adolygu perfformiad ariannol ac mae ganddo systemau ar waith i sicrhau atebolrwydd dros achosion o danberfformio. Caiff adroddiadau cyllidebol chwarterol eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar berfformiad cyllidebol y Cyngor.

54 Gwnaeth y Cyngor wasanaethau yn fwy atebol am eu cynlluniau arbedion yn 2015-16 o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'n ofynnol i wasanaethau gyflwyno adroddiadau i'r tîm cyllid a'r Uwch Dîm Rheoli ar gynnydd yn erbyn eu cynlluniau arbedion datganedig, ac maent yn atebol am amrywiadau sylweddol. Mae uwch reolwyr, aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a chynrychiolwyr craffu yn cymryd rhan mewn ymarferion herio gwasanaethau rheolaidd, gan adolygu perfformiad pob gwasanaeth yn erbyn ei gynlluniau ariannol a busnes ac atgyfnerthu atebolrwydd penaethiaid gwasanaeth.

55 Gwnaethom nodi hefyd mai araf fu cynnydd wrth roi rhai argymhellion o archwiliadau mewnol ar waith ac roedd ôl-groniad o hyd o argymhellion a ddyfarnwyd yn uchel neu'n ganolig eu risg nad ydynt wedi'u gweithredu ers 2012. Mae Pwyllgor Archwilio'r Cyngor yn dod yn fwyfwy ymwybodol o'r broblem hon ac yn herio swyddogion yn rheolaidd i fynd i'r afael ag argymhellion yn amserol a rhoi gwybodaeth am gynnydd yn rheolaidd.

56 Nid oes gan y Cyngor unrhyw system i gofnodi bod staff wedi darllen a deall polisïau a gweithdrefnau ac wedi cydymffurfio â nhw. Bu enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth mewn meysydd pwysig fel caffael corfforaethol a diogelwch gwybodaeth, er bod adroddiadau mewnol ac allanol wedi tynnu sylw at broblemau o ran cydymffurfiaeth ers 2011. Heb unrhyw gofnodion o gydymffurfiaeth, mae'n anodd dangos bod y polisïau perthnasol wedi cael eu rhannu'n briodol neu fod staff yn eu deall. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r broblem hon ac mae'n ystyried opsiynau i gyflwyno system electronig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff am bolisïau corfforaethol, cadarnhau eu bod wedi deall gweithdrefnau a'u bod yn eu cymhwyso, a darparu cyfleuster e-ddysgu.

## Mae’r Cyngor yn ymdrin â lefelau uchel o absenoldeb oherwydd salwch

57 Cyflogeion y Cyngor yw’r adnodd pwysicaf wrth ddarparu gwasanaethau, felly mae cynnal lefelau isel o absenoldeb oherwydd salwch yn ffactor pwysig. Mae’r Cyngor yn cydnabod y bu absenoldeb staff oherwydd salwch yn broblem ac mae wedi neilltuo adnodd penodedig i roi cymorth ac arweiniad i reolwyr yn eu rôl wrth reoli absenoldeb. Yn 2013, sefydlwyd rôl Cydgysylltydd Corfforaethol Rheoli Absenoldeb Oherwydd Salwch dros dro gyda chyfrifoldeb am helpu a gweithio gyda phenaethiaid gwasanaethau, rheolwyr gwasanaethau a thîm o swyddogion adnoddau dynol i wella lefelau absenoldeb oherwydd salwch.

58 Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch ymhlith staff y Cyngor wedi gwella. Gostyngodd lefelau salwch o 14.4 diwrnod fesul cyflogai yn 2012-13 i 12.4 diwrnod yn 2013-14. Cafwyd gostyngiad pellach yn 2014-15 i 11.4 diwrnod. Fodd bynnag, noda dadansoddiad o dri chwarter cyntaf 2015-16 nad yw’r Cyngor yn debygol o wella o gymharu â chyfartaledd y llynedd. Mae’r Cyngor yn ymwybodol o’r mater hwn ac wedi mireinio ei ffocws ar atal absenoldeb oherwydd salwch hirdymor a chynyddu lefelau cyfarfodydd adolygu absenoldeb i’r un ganran â chyfweliadau dychwelyd i’r gwaith. Er mwyn galluogi gwasanaethau i gael y cymorth sydd ei angen arnynt er mwyn helpu i wella lefelau salwch, mae’r Cyngor ers hynny wedi ymestyn contract y Cydgysylltydd Rheoli Absenoldeb oherwydd Salwch hyd at fis Medi 2017.

59 Er mwyn helpu’r Cyngor i leihau ei lefelau absenoldeb oherwydd salwch, byddwn yn cynnal adolygiad lleol o’r trefniadau ar gyfer rheoli absenoldeb oherwydd salwch. Cyflwynir adroddiad ar ganfyddiadau’r adolygiad hwn i’r Cyngor yn ddiweddarach eleni.

# Llywodraethu

## Mae aelodau a swyddogion yn parhau i gydweithredu'n effeithiol o fewn fframwaith arweinyddiaeth a llywodraethu newydd ac mae'r prosesau corfforaethol ar gyfer ymateb i adroddiadau ac argymhellion gan reoleiddwyr allanol yn ddigonol

### Mae fframwaith arweinyddiaeth a llywodraethu diwygiedig yn adlewyrchu newidiadau strwythurol diweddar, a dylai trefniadau sicrhau y caiff aelodau o bob grŵp gwleidyddol eu hysbysu'n briodol

60 Fel y nodwyd gennym yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol a'n Hasesiad Corfforaethol ym mis Rhagfyr 2015, gofynnodd arweinwyr gwleidyddol y Cyngor am gyngor y Prif Weithredwr ar sut y gallai leihau costau uwch reolwyr ar ôl ei ymddeoliad ym mis Mai 2015. Ystyriwyd nifer o opsiynau, gan gynnwys camau ailstrwythuro wedi'u hanelu at leihau maint yr Uwch Dîm Arwain gan gynyddu capasiti swyddogion i ganolbwyntio ar faterion corfforaethol ar yr un pryd. Yn dilyn ymadawiad y Dirprwy Brif Weithredwr yn ystod yr un cyfnod, roedd y broses o gynllunio'r strwythur newydd yn fwy cymhleth ac yn cynnwys mwy o risg. Ynghyd â'r posibilrwydd y gallai'r Cyngor golli ei uwch reolwyr i gyd mewn byr amser, gallai hefyd golli cyfeiriad a momentwm wrth weithredu ei raglen drawsnewid.

61 Cytunodd y Pwyllgor Gwaith ar fframwaith newydd, sy'n cael gwared ar swydd y Dirprwy Brif Weithredwr a'r haen o dri Chyfarwyddwr Gweithredol ac yn cyflwyno dau Brif Weithredwr Cynorthwyol sy'n uniongyrchol atebol i'r Prif Weithredwr. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith hefyd gynnwys y Swyddog Monitro a'r Swyddog A151 fel aelodau llawn o Uwch Dîm Arwain y Cyngor ochr yn ochr â'r ddwy swydd newydd.

62 Penodwyd y Prif Weithredwr newydd yn ffurfiol ym mis Mehefin 2015 o blith y tîm rheoli presennol. Mae wedi bod yn gysylltiedig â rhaglen drawsnewid y Cyngor ers y dechrau ac mae ganddo wybodaeth gynhwysfawr am yr heriau sy'n wynebu Ynys Môn. Penodwyd y ddau Brif Weithredwr Cynorthwyol, o'r tu allan i'r Cyngor, ym mis Medi 2015 ac maent yn cyfrannu profiad a gwybodaeth helaeth i'r Cyngor. Ers hynny, mae'r trefniadau newydd wedi ymsefydlu ac wedi llwyddo i gynnal momentwm y Cyngor i wella.

63 Fel rhan o drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor, datblygwyd tri Bwrdd Rhaglen i ddechrau. Nodau'r Byrddau Rhaglen oedd goruchwylio'r broses o roi Cynllun Cyflenwi'r Cyngor ar waith a sicrhau y caiff rhaglenni a phrosiectau newid unigol eu rheoli, eu monitro a'u cyflawni. Mae'r Byrddau yn cynnwys uwch swyddogion a chynghorwyr, gan felly ddarparu arweinyddiaeth a chydgysylltiad. Mae'r Byrddau yn cael adroddiadau rheolaidd ar gynnydd, mae ganddynt yr awdurdod i gyflwyno adroddiadau, ac i wneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arwain. Mae gan aelodau'r Bwrdd y statws angenrheidiol o fewn y Cyngor i allu dylanwadu ar benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith ac i sicrhau y caiff y penderfyniadau hynny eu rhoi ar waith wedi hynny. Yn dilyn adolygiad y cytunwyd arno o'r trefniadau, mae'r Cyngor ers hynny wedi lleihau nifer y Byrddau Rhaglen, o dri i ddau. Mae'r trefniadau newydd wedi helpu i leihau achosion posibl o orgyffwrdd rhwng busnes y Cyngor, gan ar yr un pryd adlewyrchu trefniadau tebyg ar gyfer craffu. Mae gan y ddau Fwrdd Rhaglen feysydd cyfrifoldeb wedi'u diffinio'n glir, un sy'n canolbwyntio ar fusnes corfforaethol a mewnol y Cyngor, a'r llall yn canolbwyntio ar faterion allanol gan gynnwys partneriaethau. Caiff y ddau Fwrdd Rhaglen eu harwain gan y Prif Weithredwyr Cynorthwyol a benodwyd yn ddiweddar.

64 Mae gan y Cyngor drefniadau effeithiol i sicrhau bod aelodau pob grŵp gwleidyddol yn hyddysg am fusnes y Cyngor. Mae'r trefniadau hyn wedi helpu i feithrin ymddiriedaeth rhwng aelodau a swyddogion. Yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2013, sefydlodd y Cyngor Bwyllgor Gwaith Cysgodol er mwyn rhoi gwybodaeth i aelodau a'u cynnwys, a helpu i ddatblygu capasiti aelodau'r gwrthbleidiau. Mae'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol yn bodoli drwy gytundeb anffurfiol rhwng y grwpiau sy'n rheoli a'r grwpiau gwrthbleidiol, gyda chymorth yr Uwch Dîm Rheoli, er mwyn helpu i sicrhau trefniadau llywodraethu da o fewn y Cyngor. Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng Arweinydd y Cyngor, arweinwyr grwpiau a'r Prif Weithredwr, a sesiynau briffio anffurfiol gan y Pwyllgor Gwaith wedi helpu i wella ymddiriedaeth a chydberthnasau rhwng swyddogion ac aelodau. Gall swyddogion ymgynghori ag aelodau cyn dechrau unrhyw waith sylweddol, ac mae Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf bob amser am ddatblygiadau arfaethedig pwysig o fewn y Cyngor. Hefyd, mae Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau'r Cyngor, 'y Penaethiaid', wedi cael ei adnewyddu ac mae'n gorff effeithiol sy'n annog mwy o waith corfforaethol ar draws gwasanaethau.

65 Mae uwch reolwyr, aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a chynrychiolwyr craffu yn cymryd rhan mewn ymarferion herio gwasanaethau rheolaidd, gan adolygu perfformiad pob gwasanaeth yn erbyn ei gynlluniau ariannol a busnes. Mae hyn yn atgyfnerthu atebolrwydd penaethiaid gwasanaethau.

## Mae gan y Cyngor brosesau boddhaol ar gyfer ymateb i argymhellion sy’n deillio o waith craffu allanol

66 Mae gan y Cyngor brosesau corfforaethol boddhaol ar gyfer ymateb i adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, olrhain y broses o weithredu argymhellion ac adrodd ar hyn i gyfarfodydd y Cyngor. Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol a’n Hasesiad Corfforaethol ym mis Rhagfyr 2015, nodwyd yr argymhellion archwilio hynny a all fod yn berthnasol i’r Cyngor yn deillio o adroddiadau’r Archwilydd Cyffredinol sy’n berthnasol i lywodraeth leol.

67 Mae gan y Cyngor broses glir ar gyfer bwydo canfyddiadau ac argymhellion o adolygiadau allanol i’r Uwch Dîm Arwain, sy’n pennu ac yn blaenoriaethu’r argymhellion sy’n creu’r risg bosibl fwyaf i’r Cyngor, ac y mae angen gweithredu arnynt.

68 Wedyn caiff argymhellion â blaenoriaeth eu cyflwyno i Benaethiaid Gwasanaethau sy’n penderfynu ar y camau priodol sydd angen eu cymryd. Mae’r broses yn helpu i leihau achosion lle y byddai gwasanaethau o bosibl yn dyblygu camau gweithredu a gynlluniwyd eisoes ac yn sicrhau bod unrhyw weithgaredd cyfatebol yn gyson â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor. Mae gwasanaethau yn cofnodi eu gwelliannau drwy gynnal Hunanasesiad o’r Gwasanaeth a chaiff Adrannau eu hasesu ar eu cynnydd ar sail Coch, Oren a Gwyrdd (RAG). Mae’n ofynnol i adrannau ddiweddaru’r gofrestr argymhellion bob tri mis.

69 Mae’r Pwyllgor Archwilio yn darparu dull rheoli trosolwg ac yn cael adroddiad o argymhellion a phryd y gellir disgwyl iddynt gael eu rhoi ar waith. Mae’r pwyllgor yn darparu rheolaeth gyffredinol dros y broses o weithredu canfyddiadau gwaith archwilio.

70 Ers cyhoeddi’r Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, rydym wedi llunio pump Adroddiad Cenedlaethol arall gydag argymhellion a all fod yn berthnasol i’r Cyngor. Ceir rhestr o argymhellion mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2015-16 yn Atodiad 3.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Ieuan Williams
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Annwyl Gynghorydd Williams

**Llythyr Archwilio Blynyddol - Cyngor Sir Ynys Môn 2014-15**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o gyfrifoldebau statudol Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Cyngor Sir Ynys Môn â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau**

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio'r cyfrifon wedi'i chwblhau.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2015, rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor. Mae'r adroddiad hwn wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn yr adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 23 Medi 2015, a chyflwynir adroddiad manylach maes o law.

**Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau**

Mae ystyriaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon a hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn tynnu sylw at feysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i ddangos eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau.

**Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2015.**

**Nid yw'r gwaith hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2015-16 na systemau ariannol allweddol**

Bydd adroddiad manylach ar waith ardystio grantiau yn dilyn yn 2016 unwaith y bydd rhaglen waith ardystio eleni wedi'i chwblhau.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2014-15 fod yn unol â'r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

**Lynn Pamment**
**Partner, PricewaterhouseCoopers LLP**

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Atodiad 3 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2015-16

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Y cydnerthedd ariannol mewn cynghorau | A1 Dylai cynghorau sicrhau bod eu cynllun corfforaethol:<br>• wrth wraidd y broses o lywio cynlluniau gwasanaeth a strategaethau ategol eraill gan gynnwys y gweithlu, technoleg gwybodaeth a gwariant cyfalaf;<br>• yn cynnal blaenolwg tair i bum mlynedd o leiaf a'i fod yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig a strategaethau ategol eraill; a<br>• dylai nodi'n glir rôl ddymunol y cyngor mewn pum mlynedd – y model ar gyfer darparu gwasanaethau â blaenoriaeth a'r seilwaith a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol o fewn y cyllid sydd ar gael.<br>A2 Dylai'r cynllun ariannol tymor canolig nodi'r prif risgiau ariannol a thybiaethau allweddol a dylai uwch swyddogion a chynghorwyr graffu arnynt a'u herio'n effeithiol cyn mabwysiadu'r cynllun.<br>A3 Mae angen i gynghorau sicrhau bod diffygion ariannol yn cael eu rhagamcanu'n gywir a'u cysoni'n llawn â chynlluniau arbed manwl ar gyfer pob blwyddyn o oes y cynllun ariannol tymor canolig.<br>A4 Dylai cynghorau adolygu digonolrwydd y trefniadau sicrwydd ariannol sy'n sail i gyflawni cynlluniau arbed blynyddol, gan gynnwys lefel y gwaith craffu a herio a gynigir gan gynghorwyr.<br>A5 Dylai cynghorau sicrhau bod ganddynt strategaeth cronfeydd gynhwysfawr sy'n amlinellu diben penodol cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy cronedig fel rhan o'u Cynllun Ariannol Tymor Canolig.<br>A6 Dylai cynghorau ddatblygu polisïau cwbl gorfforaethol ar gynhyrchu incwm gyda'r nod o gynyddu ffrydiau refeniw a lleihau pwysau ariannol.<br>A7 Dylai cynghorau:<br>• atgyfnerthu trefniadau pennu a monitro cyllidebau er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol; ac<br>• adolygu cwmpas ac effeithiolrwydd eu systemau a'u rheolaethau ariannol mewnol ac allanol er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben ac yn rhoi rhybudd cynnar am wendidau mewn systemau allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ebrill 2015 | Y cydnerthedd ariannol mewn cynghorau | A8 Rhaid i gynghorau adolygu eu timau cyllid a sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau a gallu i fodloni gofynion yn y dyfodol.<br>A9 Mae angen i swyddogion cynghorau sicrhau bod gan gynghorwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyflawni gwaith llywodraethu a herio effeithiol drwy ymestyn cyfleoedd hyfforddi a llunio gwybodaeth reoli o ansawdd uchel. |
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A1 Egluro natur a gweithrediad y consortia. Nodwyd gennym fod ansicrwydd parhaus ynglŷn â rhai agweddau ar natur consortia rhanbarthol a'u cwmpas nawr ac yn y dyfodol (paragraffau 2.2 i 2.20). Felly, rydym yn argymell y canlynol:<br>• Dylai awdurdodau lleol egluro a yw gwasanaethau consortia i'w darparu ar y cyd neu a ydynt yn wasanaethau a gomisiynir (mae gwasanaethau a ddarperir dan drefniadau cydbwyllgor yn wasanaethau a ddarperir ar y cyd ac nid yn wasanaethau a gomisiynir).<br>A2 Canolbwyntio ar ddeilliannau trwy gynllunio tymor canolig.<br>Nodwyd gennym fod pwyslais ar gamau byrdymor ac ansicrwydd ynglŷn â dyfodol consortia yn amharu ar ddatblygiad effeithiol y consortia rhanbarthol (paragraffau 2.33 i 2.36; 3.16 i 3.17). Rydym yn argymell felly:<br>• Gan na fydd unrhyw weithgareddau posibl i ad-drefnu awdurdodau lleol yn cael eu gweithredu'n llawn tan 2020, y dylai Llywodraeth Cymru a chonsortia rhanbarthol ddatblygu cynlluniau tair blynedd ar gyfer datblygu, ehangu cwmpas a chyllido consortia rhanbarthol, yn gysylltiedig ag amcanion strategol priodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A3 Datblygu mwy o gydberthnasau cydweithredol ar gyfer y system gwella ysgolion. Roedd llawer o bartneriaid gwella ysgolion yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ond canfuwyd nad oedd hyn wedi arwain at feithrin perthnasau digon cydweithredol (paragraffau 2.25 i 2.32). Rydym yn argymell felly:<br>• y dylai consortia rhanbarthol ddatblygu trefniadau gwell ar gyfer rhannu arferion a chefnogi effeithlonrwydd (er enghraifft, gallai un consortiwm arwain y gwaith o ymdrin â phroblem neu fod â chyfrifoldeb swyddogaethol ar gyfer datblygu polisi).<br>• y dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol gydnabod bod yr holl bartneriaid yn ddibynnol ar ei gilydd er mwyn cyflawni eu swyddogaethau gwella ysgolion a chytuno ar ddull o:<br>– rannu gwybodaeth ac ymgynghori ar ddatblygiadau sy'n berthnasol i wella ysgolion;<br>– datblygu perthnasau cydweithredol sy'n rhannu atebolrwydd; a<br>– chynnal adolygiadau o'r system gyfan ac alinio dealltwriaeth a safbwynt y consortia rhanbarthol ar draws pob un o strategaethau perthnasol Llywodraeth Cymru.<br>A4 Datblygu arweinwyr effeithiol a denu'r unigolion mwyaf dawnus. Mae consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wedi cael anawsterau wrth recriwtio uwch arweinwyr addysg a chanfuwyd mai ychydig iawn o gamau a oedd wedi eu cymryd i ymdrin â hyn (paragraffau 2.37 i 2.40). Rydym yn argymell felly:<br>• y dylai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio i wneud swyddi addysg arweiniol yn fwy deniadol er mwyn denu'r arweinwyr mwyaf dawnus ar gyfer y system gwella addysg; ac<br>• y dylai awdurdodau lleol gydweithio i gefnogi datblygiad proffesiynol yr uwch arweinwyr a sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad ar waith ar gyfer uwch arweinwyr. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
| --- | --- | --- |
| Mehefin 2015 | Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar | A5 Gwella effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a rheoli consortia rhanbarthol. Er bod datblygiadau parhaus yn cael eu gwneud, canfuwyd nad yw consortia rhanbarthol wedi datblygu trefniadau llywodraethu a rheoli cyllid cwbl effeithiol hyd yn hyn (paragraffau 3.2 i 3.36). Rydym yn argymell felly y dylai awdurdodau lleol a'u consortia rhanbarthol:<br>• wella eu defnydd o hunanwerthuso ar gyfer eu perfformiad a'u trefniadau llywodraethu a'i ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gynllunio busnes ac i gefnogi adolygiadau blynyddol o ddulliau llywodraethu er mwyn llywio eu datganiadau llywodraethu blynyddol;<br>• gwella eu dulliau rheoli perfformiad gan gynnwys cynllunio busnes yn well, defnyddio mesurau perfformiad eglur a mesuradwy ac asesu gwerth am arian;<br>• sicrhau bod rheoli risg strategol yn rhan annatod o'u trefniadau llywodraethu a chyflwyno adroddiadau'n rheolaidd ar lefel y cydbwyllgor neu'r bwrdd;<br>• datblygu eu trefniadau rheoli ariannol i sicrhau bod prosesau cyllidebu, monitro ac adrodd ariannol yn cwmpasu'r holl incwm a gwariant perthnasol, gan gynnwys cyllid grant a wariwyd trwy awdurdodau lleol;<br>• datblygu trefniadau craffu ar y cyd ar gyfer y consortia yn gyffredinol yn ogystal â chraffu ar berfformiad gan awdurdodau unigol, a allai gynnwys sefydlu cydbwyllgor craffu neu waith cydgysylltiedig gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol;<br>• sicrhau bod y trefniadau a'r penderfyniadau y mae consortia yn eu gwneud yn agored ac yn dryloyw;<br>• cydnabod ac ymdrin ag unrhyw wrthdaro buddiannau posibl; a phan fo gan staff fwy nag un cyflogwr, dylai consortia rhanbarthol sicrhau bod y llinellau atebolrwydd yn eglur a bod yr holl staff yn ymwybodol o'r swyddogaethau a gyflawnir; a<br>• datblygu strategaethau cyfathrebu cadarn ar gyfer ymgysylltu â'r holl randdeiliaid allweddol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru | A1 Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>• penodi uwch swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau;<br>• penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a<br>• dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid.<br>A2 Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y Cyngor.<br>A3 Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfio â pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant; ;<br>• creating an integrated corporate compliance system to record and monitor compliance levels on DBS checks; and<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y Cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth.<br>A4 Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor a'i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth a'r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau'r Cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy'n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y Cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Gorffennaf 2015 | Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru | A5 Wrth adolygu canllawiau, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn mae'n disgwyl o awdurdodau lleol ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau'r swyddog dynodedig mewn gwasanaethau addysg, a'r unigolyn a enwwyd ar lefel uwch reolwr sy'n gyfrifol am hybu diogelu.<br>A6 Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y Cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor.<br>A7 Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r Cyngor.<br>A8 Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y Cyngor. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hyn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A1 Gwella llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yng nghyswllt materion pobl hŷn drwy:<br>• benodi uwch swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am gydgysylltu ac arwain gwaith y Cyngor ar wasanaethau i bobl hŷn;<br>• ailalinio gwaith cydgysylltwyr y strategaethau pobl hŷn er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer gwasanaethau sy'n cyfrannu at annibyniaeth pobl hŷn;<br>• penodi aelod yn hyrwyddwr gwasanaethau pobl hŷn; a<br>• diweddaru gwybodaeth am y penodiadau hyn yn rheolaidd, a rhannu'r wybodaeth honno'n rheolaidd â'r holl staff a rhanddeiliaid.<br><br>A2 Gwella'r gwaith cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch gwasanaethaui bobl hŷn yn well drwy:<br>• sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n trafod gwaith holl adrannau perthnasol y Cyngor a gwaith rhanddeiliaid allanol y tu allan i iechyd a gofal cymdeithasol; ac<br>• ymgysylltu â phreswylwyr a phartneriaid wrth ddatblygu cynlluniau, ac wrth ddatblygu a chytuno ar flaenoriaethau.<br><br>A3 Gwella'r ymgysylltu â gwybodaeth i bobl hŷn a'r trefniadau ar gyfer lledaenu'r wybodaeth honno, drwy sicrhau bod gwasanaethau cyngor a gwybodaeth wedi'u cyflunio'n briodol ac yn bodloni anghenion y sawl sy'n eu derbyn.<br><br>A4 Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad yr ystod o wasanaethau sy'n helpu pobl hŷn i fyw'n annibynnol drwy:<br>• bennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i farnu ynghylch cynnydd wrth gyflawni camau gweithredu yn holl wasanaethau'r Cyngor;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol, ac yn enwedig y rhai y tu allan i'r gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol; a<br>• sefydlu dulliau mesur i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith, fel bo modd deall effaith toriadau cyllideb a chefnogi gwaith goruchwylio a chraffu. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Hydref 2015 | Helpu Pobl Hyn i Fyw'n Annibynnol: A yw Cynghorau'n Gwneud Digon? | A5 Sicrhau cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus wrth gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb drwy:<br>• nodi sut y bydd newid gwasanaethau neu dorri cyllidebau'n effeithio ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• mesur yr effaith bosibl a'r camau lliniaru a gyflawnir er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig;<br>• nodi'r niferoedd posibl y byddai'r newidiadau arfaethedig neu'r polisi newydd effeithio arnynt, drwy nodi'r effaith ar rai a chanddynt nodweddion gwarchodedig; a<br>• sicrhau bod gweithgarwch ategol, megis arolygon, grwpiau ffocws ac ymgyrchoedd gwybodaeth yn cynnwys digon o wybodaeth i alluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddeall yn glir sut y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithiol arnynt.<br><br>A6 Gwella'r rheolaeth ar y Gronfa Gofal Canolraddol, ac effaith y gronfa honno drwy:<br>• bennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel bo modd barnu ynghylch effaith y prosiectau hynny dros amser;<br>• cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel bo modd cynnal gwerthusiadau cymaradwy o brosiectau a ariennir yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa brosiect sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol a faint o gynlluniau sydd wedi cael eu prif ffrydio i dderbyn cyllid craidd; a<br>• gwella'r ymgysylltu a'r ystod lawn o bartneriaid er mwyn sicrhau bod amrywiaeth mor eang ag sy'n bosibl o bartneriaid yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A1 Gwella gwaith cynllunio strategol yn y gwasanaethau hamdden drwy:<br>• bennu gweledigaeth gytunedig y Cyngor ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau hamdden;<br>• canolbwyntio ar sefyllfa'r Cyngor oddi mewn i ddarpariaeth chwaraeon a hamdden gymunedol ehangach yr ardal; ac<br>• ystyried y posibilrwydd o gyflenwi gwasanaethau'n rhanbarthol.<br><br>A2 Cynnal arfarniad o opsiynau er mwyn canfod y model cyflenwi mwyaf priodol yn seiliedig ar weledigaeth gytunedig y Cyngor a'i flaenoriaethu ar gyfer gwasanaethau hamdden. Dylai'r arfarniad ystyried:<br>• faint o gyllid cyfalaf a refeniw sydd ar gael dros y tair i bum mlynedd nesaf;<br>• opsiynau i wella ffocws masnachol gwasanaethau hamdden;<br>• cyfleoedd i gynyddu'r incwm a gynhyrchir a lleihau 'cymhorthdal' cynghorau;<br>• dadansoddiad cost a budd o'r holl opsiynau sydd ar gael i gyflenwi gwasanaethau hamdden yn y dyfodol;<br>• cyfraniad gwasanaethau hamdden at rôl ehangach y Cyngor o ran iechyd y cyhoedd;<br>• ymgysylltu'n well â'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod safbwyntiau ac anghenion defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr yn cael eu nodi'n glir;<br>• effaith opsiynau gwahanol ar grwpiau a chanddynt nodweddion gwarchodedig o dan ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus; a<br>• chynaliadwyedd y gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Rhagfyr 2015 | Cyflawni â llai – Gwasanaethau Hamdden | A3 Sicrhau rheolaeth effeithiol ar berfformiad gwasanaethau hamdden drwy sefydlu cyfres o fesurau er mwyn galluogi swyddogion, aelodau a dinasyddion i farnu ynghylch mewnbwn, allbwn ac effaith. Dylai hyn drafod perfformiad yr holl Gyngor a pherfformiad cyfleusterau penodol a chynnwys:<br>• gwariant cyfalaf a refeniw;<br>• incwm;<br>• ‘cymhorthdal’ y Cyngor;<br>• ansawdd y cyfleusterau a’r gwasanaeth a ddarperir;<br>• bodlonrwydd cwsmeriaid;<br>• llwyddiant mentrau ‘masnachol newydd’;<br>• data defnydd – y nifer sy’n defnyddio’r gwasanaethau/cyfleusterau, amserau defnydd ac ati; ac<br>• effaith cyfleusterau hamdden wrth ymdrin â blaenoriaethau iechyd y cyhoedd.<br><br>A4 Gwella’r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd ac arweinyddiaeth gorfforaethol yn y gwasanaethau hamdden drwy:<br>• adrodd yn rheolaidd ar berfformiad wrth bwyllgor(au) craffu;<br>• darparu gwybodaeth gynhwysfawr i aelodau etholedig er mwyn hwyluso proses benderfynu gadarn;<br>• meincnodi a chymharu perfformiad ag eraill; a<br>• defnyddio canfyddiadau adolygiadau archwilio/arolygu mewnol ac allanol i ganfod cyfleoedd i wella gwasanaethau. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

# Tystysgrif Cydymffurfio

# Archwiliad o Gynllun Gwella 2016-17 Cyngor Sir Ynys Môn

## Tystysgrif

Rwyf yn ardystio fy mod i wedi archwilio Cynllun Gwella (Cynllun y Cyngor 2016-17) Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) yn unol ag adran 17 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau dan adran 15(6) i (9) y Mesur a'i fod wedi ymddwyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

Dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau o ran y canlynol:

- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a
- gwneud trefniadau i gyflawni ei swyddogaethau mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn bodloni unrhyw safon o ran perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl unrhyw ddyddiad arall a bennir trwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac yn gyfrifol am y wybodaeth a geir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol dan adrannau 17 ac 19 y Mesur i mi gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod i wedi gwneud hynny ac adrodd ynghylch a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a eglurir yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, os yw awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch pa mor gyflawn neu gywir yw'r wybodaeth, nac ynghylch a oes modd cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ymgymryd ag ef dan adran 18 y Mesur yn ystyried y materion hynny. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn gweld a oedd yn cynnwys yr elfennau a bennir mewn deddfwriaeth. Euthum ati hefyd i asesu a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Nid yw'r gwaith yr wyf i wedi'i gyflawni er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 y Mesur yn waith y gellir dibynnu'n gyfan gwbl arno i nodi pob gwendid neu bob cyfle i wella.



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

Andy Bruce, Rheolwr

Gwilym Bury, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad